Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# **Clyw fy nghân:** ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw

Rhagfyr 2020



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDGCh**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddDGCh@senedd.wales**
Twitter: **@SeneddDGCh**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2020**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**

# **Clyw fy nghân:** ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw

Rhagfyr 2020

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 28 Mehefin 2016. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddDGCh

---

## Cadeirydd y Pwyllgor:



**Helen Mary Jones AS**
Plaid Cymru



**Bethan Sayed AS**
Plaid Cymru

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Mick Antoniw AS**
Llafur Cymru



**John Griffiths AS**
Llafur Cymru



**Carwyn Jones AS**
Llafur Cymru



**David Melding AS**
Ceidwadwyr Cymreig

---

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Delyth Jewell AS**
Plaid Cymru

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ........................................................................................1**

**Argymhellion ..................................................................................................4**

**1. Y rheswm dros yr ymchwiliad a'r dystiolaeth y tu ôl iddo ..........8**

Nid oes darlun clir o iechyd sector cerddoriaeth fyw Cymru ..........10

Mae cerddoriaeth fyw wedi'i gwreiddio yn yr economi leol ..........12

Mae gwahaniaeth daearyddol o ran mynediad at gerddoriaeth fyw..........14

Nid oes goruchwyliaeth strategol ar gyfer cerddoriaeth fyw yng Nghymru 16

Mae gan gerddoriaeth rôl werthfawr o ran hyrwyddo'r Gymraeg..........18

**2. Cymorth a chyngor: mae bwlch yn y cymorth i gerddoriaeth fyw 23**

Cymorth Cyngor Celfyddydau Cymru..........23

Cyllid cyfalaf ..........24

Darfodiad y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig..........25

Cymorth i'r sector ..........26

Rôl Cyngor Celfyddydau Cymru..........26

A oes angen ffynhonnell cyngor a chymorth newydd? ..........28

Cyllido ..........29

Perchnogaeth gyhoeddus ar leoliadau ar lawr gwlad..........32

**3. Datblygu talent: mae angen cyflwyno arfer gorau ledled Cymru.......................................................................................... 38**

Prosiect Forté a'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc: prosiectau "gwych" a ddylai "fod ledled Cymru" ..........38

Gorwelion..........41

Cerddoriaeth mewn addysg: dylid rhannu arfer gorau, a dylid dysgu cerddoriaeth mewn ffordd sy'n cysylltu â bywydau pobl ifanc ..........44

**4. Gweithgarwch awdurdodau lleol: mae angen llais uwch ar y diwydiant cerddoriaeth mewn prosesau penderfynu ......................... 49**

Cynllunio: dylai'r system gynllunio fynd ati i hyrwyddo cerddoriaeth fyw.... 53

Cynllunio: dylid monitro effaith yr egwyddor "cyfrwng newid" ... 54

Trwyddedu: dylai lleoliadau gael mwy o fewnbwn ... 60

Dylai'r gofynion diogelwch fod yn gymesur ... 61

Cyfraddau Busnes: ni ddylai lleoliadau ar lawr gwlad yng Nghymru fod yn waeth eu byd na'r rhai yn Lloegr ... 69

Dylai lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad gael rhyddhad ardrethi busnes i gydnabod eu gwerth diwylliannol a chymdeithasol ... 69

Effaith Cyfraddau Busnes ar leoliadau ar lawr gwlad ... 71

**5. Pandemig y coronafeirws ... 74**

Mae cerddoriaeth fyw yn parhau i fod wedi'i gwahardd ... 75

Mae cefnogaeth i'r sector wedi atal cau lleoliadau yn eang am y tro ... 75

Mae angen map ffordd clir ar y sector ar gyfer ailgychwyn gweithgarwch ... 77

Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r cyrffyw 10pm yn aneglur a gall fod yn wrthgynhyrchiol ... 80

Mae angen cefnogaeth ar y sector cerddoriaeth fyw ar ôl mis Mawrth 2021, ac mae llawer o bobl wedi colli allan ar gefnogaeth yn llwyr ... 82

Mae'r pandemig wedi rhoi cyfle i gynnal a datblygu cysylltiadau rhwng cerddoriaeth fyw a'r wladwriaeth ... 84

Y camau nesaf ... 88

**Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar. ... 90**

**Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig ... 92**

**Atodiad C: Digwyddiadau i randdeiliaid ... 94**

**Atodiad D: Cyllid Cyngor y Celfyddydau wedi'i ddadansoddi yn ôl ffurf ar gelf ... 96**

Beth wnaeth grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru ei gefnogi yn ystod 2018-19? ... 96

Beth wnaeth cyllid refeniw'r loteri a ddosbarthwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ei gefnogi yn 2018-19? ... 96

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'r pandemig wedi rhoi sioc i'r sector cerddoriaeth fyw na allai'r un ohonom fod wedi'i ddychmygu. Mae wedi llorio artistiaid a chynulleidfaoedd gan fod digwyddiadau cerddoriaeth fyw wedi'u gwahardd ers mis Mawrth 2020. Drwy drugaredd, mae brechlynnau diogel ac effeithiol ar eu ffordd. Rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gadw ffydd gyda'r sector, gan roi'r gefnogaeth sydd ei hangen arno i sicrhau ein bod yn gadael yr argyfwng gyda chymaint o'r lleoliadau, yr artistiaid a'r technegwyr ag yr oedd i ddechrau.

Roedd fersiwn o'r adroddiad hwn yn barod i'w gyhoeddi yn union wrth i ni fynd i gyfnod y cyfyngiadau symud ym mis Mawrth 2020. Roedd yn gwneud synnwyr gohirio'r cyhoeddiad ac ystyried y sefyllfa ar ôl i'r llun sy'n dod i'r amlwg ddod yn gliriach. Yn hydref 2020 clywsom dystiolaeth bellach i adlewyrchu effaith yr argyfwng. Felly mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r problemau yr oedd y sector yn eu hwynebu cyn y pandemig – nid oes yr un ohonynt wedi diflannu – ac mae wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r bygythiad dirfodol brys y mae coronafeirws wedi'i beri i'r sector.

Mae cerddoriaeth Gymreig yn ffynnu, gydag artistiaid fel Catfish and the Bottlemen, Boy Azooga a Cate Le Bon yn mwynhau llwyddiant gartref a thramor. Ond mae lleoliadau bach yn cau ar raddfa frawychus. Mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gymryd camau ar frys i sicrhau bod gan sêr yfory y lleoliadau bach y mae eu hangen arnyn nhw i ennill profiad heddiw.

Mae'r prif ffigyrau'n dangos sector sy'n iach. Y llynedd, tyfodd cyfraniad y sector cerddoriaeth fyw i economi'r DU i'r lefel uchaf erioed, sef £1.1 biliwn, cynnydd o 10 y cant ar y cyfan ers 2017. Ond yn dawel mae'r diwydiant cerddoriaeth fyw yn mynd trwy argyfwng sy'n golygu bod angen cymorth ar frys ar draws y sector cyhoeddus.

Ledled y DU, mae 35 y cant o leoliadau wedi cau dros y degawd diwethaf. Nid oes gennym ffigyrau penodol ar gyfer Cymru, ond gallwn ni i gyd enwi lleoliadau bach sydd wedi cau, megis y Parrot yng Nghaerfyrddin, TJs yng Nghasnewydd a The Point yng Nghaerdydd.

Ar un lefel, mae lleoliadau bach yn ganolfannau deori diwylliannol. Dyma'r lleoedd y mae eu hangen ar artistiaid i loywi eu sgiliau cyn y gallant fod yn brif berfformwyr mewn gwyliau a theithio'n rhyngwladol. Mae'r Super Furry Animals wedi chwarae gigs enfawr ac wedi mynd â'r Gymraeg i gynulleidfaoedd newydd

ledled y byd. Ond a fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb leoliadau bach fel Clwb Ifor Bach, lle gallent ddysgu eu crefft a meithrin dilyniant lleol?

Mae lleoliadau llawr gwlad yn llawer mwy, serch hynny, na chamau ar hyd y llwybr i lwyddiant. Maent yn lleoedd i bobl fynegi eu hunain yn greadigol, cwrdd â phobl newydd a theimlo eu bod wedi'u cysylltu â'u cymuned. Fel y dywedodd Sam Dabb o Le Public Space yng Nghasnewydd, "I've watched people meet at gigs, fall in love and have children who now turn up for gigs in the pub to potentially meet the person they'll fall in love with".


Mae dinasoedd yng Ngogledd America fel Nashville a Memphis yn dangos sut y gall cerddoriaeth roi lleoedd ar y map. Dylai llunwyr polisi anelu'n uchel a defnyddio sîn gerddoriaeth ddwyieithog fywiog Cymru – sy'n unigryw yn y DU - i dyfu economïau lleol a denu twristiaid rhyngwladol.

Drwy chwarae fiola, mae cerddoriaeth wedi rhoi cyfleoedd i mi gwrdd â phobl, teithio a mynegi fy hun yn greadigol. Ni fyddai dim o hyn wedi bod yn bosibl oni bai am y lleoedd ymarfer, y lleoliadau bach a'r cyfle i ddysgu offeryn yn yr ysgol.


Yn yr adroddiad hwn rydym yn argymell ystod o gamau i wneud bywyd yn haws i'r busnesau hyn: o ryddhad ardrethi i gronfa benthyciadau cyfalaf newydd ar gyfer lleoliadau sydd dan fygythiad. Ond nid yw'n ymwneud â'r lleoliadau yn unig. Rydym hefyd yn galw am gryfhau ac ehangu cynlluniau datblygu talent ledled y wlad. Mae Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru ac awdurdodau lleol i gyd yn gwneud gwaith da i gefnogi cerddoriaeth fyw, ond mae angen cryfhau a chydlynu'r camau gweithredu hyn trwy strategaeth gerddoriaeth newydd. Mae'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn cynnig fframwaith lle gobeithiwn y gall y diwydiant cerddoriaeth fyw adfer o'r pandemig, a ffynnu.

Mae ein canolfannau trefol yn newid, wrth i arferion hamdden, gwaith a byw pobl esblygu. Ond yn wahanol i siopau, ni all lleoliadau cerddoriaeth fyw fynd ar-lein. Os bydd lleoliadau cerddoriaeth fyw yn cau ac yn methu â symud i rywle arall, byddant yn cael eu cau am byth. Mae angen i'r sector cyhoeddus - gan gynnwys Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol - gydnabod y bygythiad dirfodol i gerddoriaeth fyw, a gweithredu cyn ei bod hi'n rhy hwyr.

Mae'r adroddiad hwn yn pontio deiliadaeth dau Gadeirydd Pwyllgor, ac mae'r ddwy ohonom yn hapus i roi ein henwau i'r adroddiad. Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn ein hymchwiliad ac edrychwn ymlaen at gryfhau'r gefnogaeth i'r sector hollbwysig hwn.



Bethan Sayed AS



Helen Mary Jones AS

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gefnogi cerddoriaeth fyw mewn ffordd sy'n gwella mynediad daearyddol ledled Cymru. Mae cerddoriaeth yn clymu cymunedau gyda'i gilydd, o bentrefi bach i wledydd. Dylai cyfleoedd i wneud a gwrando ar gerddoriaeth fod ar gael ledled y wlad. ........22

**Argymhelliad 2.** Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod data penodol Cymru ar gael ar faint y diwydiant cerddoriaeth a'i is-sectorau amrywiol. Dylai'r data hwn fod yn sail i'r gwaith o ddatblygu strategaeth gerddoriaeth. ..........................22

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniadau ei hymarfer mapio lleoliadau a chynnal ymarfer mapio lleoliadau a chyfleusterau cerdd eraill (megis mannau ymarfer a pherfformio cyhoeddus) yn rheolaidd. Dylid diweddaru hwn i ymateb i ddatblygiadau newydd. ..........................................................................22

**Argymhelliad 4.** Dylai cyllidwyr cyhoeddus deilwra'r gefnogaeth y maent yn ei darparu i'r diwydiant i annog pobl i ddarparu rhywfaint o gerddoriaeth Gymraeg mewn gigs Saesneg yn bennaf. Dylai Cymru Greadigol weithio i ddod â gwahanol gymunedau iaith a genre ynghyd i annog cydweithredu. ..........................................22

**Argymhelliad 5.** Dylai Cymru Greadigol weithio gyda lleoliadau cerddoriaeth mawr i ystyried sut y gallant ddefnyddio gwerthiant tocynnau i godi incwm ar gyfer mentrau i ehangu mynediad at gerddoriaeth. Un ffordd o wneud hyn fyddai trwy roi'r opsiwn i gwsmeriaid dalgrynnu prisiau tocynnau i'r bunt agosaf wrth brynu tocynnau, gyda'r gwarged yn cael ei ddarparu i elusennau priodol. ..................22

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill, ddatblygu strategaeth gerddoriaeth. Dylai hyn gynnwys dull a brand clir ar gyfer cyflwyno cerddoriaeth o Gymru y tu allan i Gymru............................22

**Argymhelliad 7.** Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwell cymorth a chyngor ar gael i'r diwydiant cerddoriaeth, boed hynny trwy Cymru Creadigol neu sefydlu corff newydd. Mae angen i'r cymorth hwn fod ar gael ledled Cymru ac ar lawr gwlad, lle mae angen ymyrraeth fwyaf..............................................................................37

**Argymhelliad 8.** Dylai bwrdd cynghori Cymru Greadigol gynnwys arbenigwyr y diwydiant a phobl ifanc fel y gall gefnogi'r sector yn effeithiol ac ystyried anghenion artistiaid a chynulleidfaoedd ifanc. ..........................................................................37

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa gyfalaf i hwyluso'r gwaith o brynu lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad ac iddynt werth diwylliannol

a chymdeithasol uchel. Gallai awdurdodau lleol neu grwpiau buddiant ei defnyddio i'w helpu i brynu lleoliadau sydd dan fygythiad. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried atebion amgen a fyddai'n cael effaith debyg, fel rhentu adeiladau a'u his-osod i weithredwyr lleoliadau. ....................37

**Argymhelliad 10.** Mae llawer o adeiladau – gan gynnwys canolfannau celfyddydau – y tu allan i ardaloedd trefol yn derbyn cyllid cyhoeddus, naill ai gan awdurdodau lleol neu asiantaethau fel Cyngor y Celfyddydau. Dylai darparwyr cyllid ystyried atodi amodau i'r cyllid hwn bod y lleoedd hyn, lle bo hynny'n bosibl, yn cael eu hagor fel lleoedd ymarfer i gerddorion. ....................37

**Argymhelliad 11.** Dylai cymorth a mentora i bobl ifanc yn y diwydiant cerddoriaeth fyw – fel yr hyn oedd ar gael yn flaenorol trwy Brosiect Forté a'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc yn ne Cymru – fod ar gael dros Gymru gyfan a dylai gynnwys proffesiynau fel rheolwyr, hyrwyddwyr ac asiantau. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru roi ystyriaeth ddwys i ariannu sefydliad o'r fath ledled y wlad yn ystod ei adolygiad buddsoddi. ....................48

**Argymhelliad 12.** Dylid ehangu'r rhaglen Gorwelion fel bod artistiaid yn cael mwy o gyngor a chymorth datblygu gyrfa i'w helpu i fynd â'u gyrfaoedd i'r lefel nesaf..48

**Argymhelliad 13.** Dylid dysgu cerddoriaeth mewn ysgolion mewn ffordd sy'n cydnabod gwerth llawn cerddoriaeth gyfoes. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ystod eang o genres, gan gynnwys cerddoriaeth boblogaidd gyfoes a cherddoriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, yn cael eu haddysgu o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru. ....................48

**Argymhelliad 14.** Dylid sefydlu byrddau cerddoriaeth ledled Cymru i ddarparu rhyngwyneb rhwng awdurdodau lleol a'r diwydiant cerddoriaeth. Dylai'r rhain chwarae rhan weithredol yng ngwaith yr awdurdodau lleol i ddatblygu polisïau sy'n effeithio ar y diwydiant cerddoriaeth, gan gynnwys cynllunio, trwyddedu, ardrethi busnes, diogelwch personol a thrafnidiaeth. ....................53

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Music Venues Trust i adolygu effeithiolrwydd yr egwyddor cynllunio cyfrwng newid. Os canfyddir tystiolaeth sylweddol bod datblygiadau newydd yn effeithio'n andwyol ar leoliadau cerddoriaeth presennol, dylai gryfhau polisïau i warchod lleoliadau presennol, gan gynnwys ystyried defnyddio hawddfreintiau sŵn, fel a argymhellwyd gan UK Music a'r Music Venues Trust. ....................59

**Argymhelliad 16.** Dylai cynlluniau datblygu awdurdodau lleol nodi mannau lle gall gweithgarwch diwylliannol ddigwydd mewn datblygiadau newydd yn yr un

ffordd ag y maent yn ystyried mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac amwynderau eraill. ........ 59

**Argymhelliad 17.** Dylai awdurdodau trwyddedu:

- weithio gyda lleoliadau bach i gytuno ar amodau trwyddedu cymesur, i'r graddau y mae hynny'n bosibl o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol;
- gweithio gyda lleoliadau i'w gwneud hi'n haws iddyn nhw gynnal sioeau pob oed;
- gweithio gyda lleoliadau dibynadwy i roi mwy o fewnbwn iddynt wrth bennu gofynion diogelwch priodol, i'r graddau y mae hynny'n bosibl o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol. Gweithredwyr lleoliadau yw'r arbenigwyr, a dylai awdurdodau trwyddedu roi mwy o bwys ar eu barn ar ba ofynion diogelwch y mae eu hangen i greu amgylchedd diogel68

**Argymhelliad 18.** Dylai awdurdodau trwyddedu a'r heddlu weithio gyda'r diwydiant - trwy fyrddau cerddoriaeth os sefydlir y rhain – i wella eu gwybodaeth am y diwydiant cerddoriaeth er mwyn osgoi'r risg o broffilio hiliol mewn penderfyniadau trwyddedu. ........ 68

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ymchwilio i'r amodau trwyddedu sydd ynghlwm wrth ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw i asesu i ba raddau, os o gwbl, y maent yn cael eu dylanwadu gan ragfarn ddiarwybod ar sail hil . Os canfyddir unrhyw ragfarn, dylai'r heddlu roi camau ar waith i'w atal. ........ 68

**Argymhelliad 20.** Dylai lleoliadau cerddoriaeth fyw barhau i dderbyn rhyddhad ardrethi busnes i helpu iddynt adfer o'r pandemig. Dylai unrhyw olynydd tymor hir i gynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ac Ardrethi Manwerthu fod yn glir bod lleoliadau cerddoriaeth fyw yn fusnesau cymwys. ........ 74

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru gasglu data yn rheolaidd – a'i rannu a'r Pwyllgor – ynghylch faint o leoliadau sy'n cael y rhyddhad ardrethi hwn fel y gall asesu a yw'r polisi hwn yn effeithiol wrth helpu'r sector cerddoriaeth fyw. ........ 74

**Argymhelliad 22.** Dylid defnyddio unrhyw gyllid ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ostwng cyfraddau busnes ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth yn Lloegr i ddarparu rhyddhad ardrethi cyfatebol ar gyfer lleoliadau yng Nghymru. Ni ddylai lleoliadau yng Nghymru wynebu biliau ardrethi busnes uwch na lleoliadau yn Lloegr. ........ 74

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu map ffordd clir ar gyfer ailgychwyn gweithgarwch byw. Dylai edrych yn greadgiol ar opsiynau fel gigs sy'n cadw pellter cymdeithasol ac awyr agored, a fyddai, er nad yn fuddiol yn economaidd efallai, yn cynnig gweithgaredddiwylliannol sydd mawr ei angen. Dylai'r cynllun hwn gynnwys digwyddiadau diwylliannol eraill, megis theatr a dawns, yn ogystal â cherddoriaeth fyw. ........ 87

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru edrych i weld a oes angen cefnogaeth ar y diwydiant i greu mwy o weithgarwch digidol, ac i gynnig canolbwynt canolog o gynnwys diwylliannol digidol Cymru ........ 88

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant yswiriant a Llywodraeth y DU i sicrhau bod yswiriant addas ar gael i alluogi trefnwyr digwyddiadau mawr i reoli'r risgiau o drefnu digwyddiadau yn 2021 ........ 88

**Argymhelliad 26.** Pan fydd Llywodraeth Cymru yn llacio'r cyfyngiadau lletygarwch presennol, dylai naill ai peidio ag ailgyflwyno'r cyrffyw 10pm, neu ddarparu tystiolaeth fod hynny'n effeithiol wrth leihau trosglwyddiad y feirws. ........ 88

**Argymhelliad 27.** Lle mae lleoliadau cerddoriaeth fyw wedi colli incwm o ganlyniad i gyfyngiadau lletygarwch cyfredol Llywodraeth Cymru, dylent fod yn gymwys i gael yr arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno i gyd-fynd â'r cyfyngiadau hyn. ........ 88

**Argymhelliad 28.** Mae angen i Lywodraeth Cymru, cyn gynted â phosibl, nodi pa gyllid fydd ar gael i'r sector cerddoriaeth fyw ar ôl mis Mawrth 2021. ........ 88

**Argymhelliad 29.** Mae angen i Lywodraeth y DU sicrhau bod cyllid pellach ar gael i'r gweinyddiaethau datganoledig i gefnogi'r sector diwylliant ar ôl mis Mawrth 2021, i gydnabod y diffyg parhaus o weithgarwch diwylliannol. ........ 88

**Argymhelliad 30.** Mae angen i Lywodraeth y DU naill ai ymestyn ei ffurfiau presennol ar gymorth cyflogaeth ar ôl mis Mawrth 2021, neu ddarparu eglurder ynghylch cynlluniau olynol. ........ 88

**Argymhelliad 31.** Mae angen i Lywodraeth y DU ddarparu cefnogaeth ar frys i weithwyr llawrydd sydd wedi syrthio trwy fylchau'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth. ........ 88

# 1. Y rheswm dros yr ymchwiliad a'r dystiolaeth y tu ôl iddo

**1.** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu nifer o ymgyrchoedd uchel eu proffil i achub lleoliadau cerddoriaeth sydd wedi bod dan fygythiad oherwydd gwaith datblygu arfaethedig. Bu rhai - fel 'Save Womanby Street' – yn llwyddiannus ac eraill, yn anffodus - fel yr ymgyrch i achub Gwdihŵ ar Gilgant Guildford, Caerdydd – yn aflwyddiannus.

**2.** Roedd gan Aelodau'r Pwyllgor i gyd enghreifftiau yn eu hetholaethau o leoliadau cerddoriaeth fyw a oedd wedi cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac roedd ganddynt wybodaeth uniongyrchol am eu pwysigrwydd fel asedau cymunedol. Lleoliadau bach yw'r gris cyntaf ar yr ysgol y mae ei angen i artistiaid ei dringo er mwyn tyfu, yn ogystal â bod yn lleoedd i bobl gwrdd a mynegi eu hunain yn greadigol yn eu cymuned. Disgrifiodd Sam Dabb - rheolwr Le Public Space yng Nghasnewydd - werth lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad mewn erthygl ddiweddar ar gyfer Wales Arts Review:

> "If we lose the small venues we eventually lose our musical identity on every level and we cannot let that happen. For every huge artist that makes a breakthrough, there are thousands of artists who don't. And they are just as important, if not more so. I've watched people meet at gigs, fall in love and have children who now turn up for gigs in the pub to potentially meet the person they'll fall in love with. I've seen bands play 30 gigs to 30 people and then break up. But while playing those gigs they made friends that would last them a lifetime."[1]

**3.** Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth am raddfa cau lleoliadau ledled Cymru, nac yn wir yr hyn y gallai Llywodraeth Cymru ac eraill ei wneud i helpu'r sector cerddoriaeth fyw. Daeth tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn o'r ffynonellau canlynol:

- Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau rhanddeiliaid yn y Tramshed yng Nghaerdydd a Thŷ Pawb yn Wrecsam;
- Bu staff y pwyllgor mewn digwyddiad ar gyfer y diwydiant yng ngŵyl Sŵn i siarad gydag artistiaid newydd;

[1] Wales Arts Review, 9 Chwefror 2019

- Ymddangosodd Cadeirydd y Pwyllgor, Bethan Sayed AC, ar bodlediad Minty's Gig Guide i drafod y diwydiant cerddoriaeth fyw;[2]
- Cyfres o gyfarfodydd ffurfiol yn y Senedd gyda thystion gan gynnwys gweithredwyr lleoliadau, artistiaid, sefydliadau'r trydydd sector, awdurdodau lleol a'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon;
- Bu staff y pwyllgor mewn symposiwm addysg gerddoriaeth boblogaidd yn yr ŵyl Immersed! a drefnwyd gan Brifysgol De Cymru; ac
- Ymgynghoriad ysgrifenedig a gafodd 21 o ymatebion.

Er mwyn ystyried effaith y pandemig, casglodd y Pwyllgor dystiolaeth bellach ar y canlynol:

- Cyfres ychwanegol o sesiynau tystiolaeth yn hydref 2020, gyda lleoliadau ac arbenigwyr diwydiant i asesu effaith y pandemig; ac
- Adroddiad, a gomisiynwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Senedd gan yr Athro Paul Carr, yn cymharu'r ymateb i'r pandemig rhwng Cymru a chenhedloedd eraill.[3]

**4.** Mae manylion llawn ar gael yn atodiadau'r adroddiad hwn.

**5.** Wrth ddrafftio'r adroddiad hwn, cafodd staff y Pwyllgor fudd o fewnbwn gan grŵp arbenigol. Roedd y grŵp hwn yn cynnwys Dr Sam Murray (gynt o UK Music), Samantha Dabb (Le Public Space), Neal Thompson (FOCUS Wales) a John Rostron (cyd-sylfaenydd Gwobr Gerddoriaeth Cymru a chyn brif weithredwr y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig). Hoffem ddiolch iddynt am eu hamser ac am gael budd o'u barn wybodus. Fodd bynnag, barn y Pwyllgor yn unig yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac ni ddylid cymryd mai barn y grŵp arbenigol ydynt.

**6.** Trwy gydol y gwaith hwn, daeth y Pwyllgor ar draws sector a oedd yn llawn angerdd, gwybodaeth ac egni. Nid oedd llawer o'r bobl y clywodd y Pwyllgor ganddynt wedi gweithio gyda'r Senedd o'r blaen. Hoffai'r aelodau ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i siarad gyda'r Pwyllgor. Bwriad yr adroddiad hwn yw darparu trosolwg o'r dystiolaeth a gafwyd a chynllun adeiladol ar gyfer cefnogi a thyfu'r diwydiant cerddoriaeth fyw.

---

[2] Minty's Gig Guide

[3] Yr Athro Paul Carr, Y Diwyddiannau Cerddoriaeth Cymru Mewn Byd Ol-Govid, 2020

# Iechyd y sector a'r angen am strategaeth gerddoriaeth

Mae'r unig ffigyrau sy'n nodi iechyd y sector cerddoriaeth fyw, a'r diwydiant cerddoriaeth yn ehangach, yn rhai ar gyfer y DU gyfan. Mae'r diffyg hwn o ran data ar gyfer Cymru yn ei gwneud hi'n anos i lunwyr polisi yng Nghymru adnabod a datrys problemau. Mae llawer o sefydliadau yn gwneud gwaith da i gefnogi cerddoriaeth fyw yng Nghymru, ond nid oes strategaeth sy'n dwyn hyn oll ynghyd. Mae angen data da a strategaeth ar Gymru i gefnogi a thyfu'r diwydiant cerddoriaeth fyw.

**7.** Ledled y DU, mae nifer y lleoliadau cerddoriaeth fyw wedi gostwng tua 35 y cant dros y degawd diwethaf. Dywed tystiolaeth gan UK Music - corff ymbarél y diwydiant cerddoriaeth – fel a ganlyn:

> "These closures have mainly been due to the increasing financial pressure faced by venue managers as a result of overhead costs, bills, rent and business rates, or due to planning disputes around noise."[4]

**8.** Mae UK Music yn dweud bod y Music Venue Trust yn adrodd bod cost cynnal digwyddiadau cerddoriaeth fyw wedi codi 4 y cant y llynedd mewn mannau lleol ar gyfer cynnal cerddoriaeth ac yn cyfateb i 130 y cant o gyfanswm gros y derbyniadau o'r tocynnau. Mae hyn yn golygu bod lleoliadau yn dibynnu ar weithgareddau eraill – fel gwerthu diodydd – i fod yn broffidiol.[5]

## Nid oes darlun clir o iechyd sector cerddoriaeth fyw Cymru

**9.** Rydym yn gwybod bod lleoliadau wedi cau yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Yn wir, roedd yr ymgyrch uchel ei broffil i achub Gwdihŵ - y lleoliad cerddoriaeth boblogaidd ar Gilgant Guildford, Caerdydd - yn un o'r digwyddiadau a ysgogodd y Pwyllgor i gynnal yr ymchwiliad hwn. Disgrifiodd perchnogion lleoliadau (gan gynnwys Sin City yn Abertawe, Clwb y Bont ym

[4] Tystiolaeth ysgrifenedig UK Music

[5] Tystiolaeth ysgrifenedig UK Music

Mhontypridd, Clwb Ifor Bach yng Nghaerdydd a Le Public Space yng Nghasnewydd) sefyllfa ariannol ansicr lleoliadau llawr gwlad, sy'n golygu y gallant gael eu rhoi allan o fusnes gan godiadau annisgwyl mewn ardrethi busnes neu gostau atgyweirio seilwaith. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes digon o ddata i bennu dosbarthiad ac iechyd lleoliadau cerddoriaeth fyw yng Nghymru.

**10.** Ym mis Gorffennaf 2019, cyn i'r ymchwiliad hwn gychwyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru ymarfer mapio lleoliadau ar lawr gwlad. Roedd hwn wedi'i fwriadu i:

- sefydlu diffiniad o fan lleol ar gyfer cynnal cerddoriaeth' sy'n seiliedig ar ddiffiniad y Music Venue Trust ond sydd wedi'i deilwra i'r sefyllfa yng Nghymru;
- darparu map daearyddol o fannau lleol ar gyfer cynnal cerddoriaeth ledled Cymru gyfan, gan gofnodi cyfres o wybodaeth ar gyfer pob lleoliad; a
- nodi clystyrau o leoliadau ac unrhyw nodweddion cyffredin.

**11.** Yng ngwanwyn 2020, roedd yr ymarfer mapio wedi'i gwblhau ac wedi'i ddarparu i Lywodraeth Cymru, ond nid oedd wedi'i gyhoeddi. Esboniodd y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, yr Arglwydd Elis-Thomas, y bydd mapio lleoliadau yn un o dasgau'r corff newydd sydd wedi'i sefydlu, 'Cymru Greadigol'.[6]

**12.** Esboniodd Guto Brychan o Glwb Ifor Bach y byddai map cynhwysfawr o leoliadau cerddoriaeth fyw yn helpu i drefnu gigs y tu allan i ganolfannau trefol:

> "un o'r sialensau inni o ran trefnu teithiau rownd Cymru ydy ffeindio llefydd lle rydym ni'n gallu rhoi digwyddiadau ymlaen. Mae gweld beth ydy'r adnoddau sydd allan fanna, beth ydy'r gost o roi digwyddiadau ymlaen, lle mae angen cael offer ychwanegol i fedru rhoi digwyddiadau ymlaen, beth ydy'r gynulleidfa darged ar gyfer yr ardaloedd hynny, a pha mor rhwydd ydy o i'r gynulleidfa gyrraedd y lleoliadau yna—gwybodaeth gwerthfawr iawn i bobl sydd eisiau rhoi mwy o ddigwyddiadau ymlaen"[7]

---

[6] Paragraff 12, cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 13 Chwefror 2020

[7] Paragraff 12, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 26 Medi 2019

**13.** Mynegodd yr Athro Paul Carr ei obaith y byddai'r ymarfer mapio hwn yn galluogi lleoliadau bach i gydweithio'n fwy:

> "I'd like to think that would come through that mapping exercise, where you can start to identify the clusters and how can they work together so they're not in competition with each other, but actually working more strategically together."[8]

**14.** Cododd Undeb y Cerddorion y cwestiwn a ddylai'r ymarfer mapio hwn hefyd gynnwys mannau ymarfer a recordio.[9] Mae tystiolaeth Trac yn nodi diffyg data ar gerddoriaeth fyw yng Nghymru, a galwodd ar Lywodraeth Cymru neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gomisiynu gwaith i lenwi'r bwlch hwn.[10]

**15.** Trwy gydol yr ymchwiliad, gofynnwyd i weithredwyr lleoliadau, artistiaid ac arbenigwyr y diwydiant a oedd yr ymgynghorwyr a oedd yn cynnal yr ymarfer mapio hwn wedi cysylltu â hwy i gael eu mewnbwn. Roedd y Pwyllgor yn awyddus i glywed na chysylltwyd â thystion gwybodus i gyfrannu at yr ymarfer hwn. Ym mis Hydref, dywedodd Dr Sam Murray o UK Music wrth y Pwyllgor:

> "none of the venues that we've spoken to have heard about this mapping either. So, we are aware that somebody's been appointed to deliver it, but we don't know what's actually happened further to that particular point."[11]

**16.** Ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru ar ddechrau mis Rhagfyr 2019 i'w rhybuddio am y mater hwn ac fe wnaeth hithau, yn ei thro, drosglwyddo'r neges i'r ymgynghorwyr a oedd yn cynnal yr ymarfer.[12]

## Mae cerddoriaeth fyw wedi'i gwreiddio yn yr economi leol

**17.** Cyhoeddodd UK Music ffigurau ar gyfraniad cerddoriaeth i'r economi yn ei adroddiad, 2020 Music By Numbers.[13] Mae hyn yn cyflwyno dangosyddion amrywiol o werth economaidd cerddoriaeth, megis:

---

[8] Paragraff 306, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

[9] Paragraff 22, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

[10] Tystiolaeth ysgrifenedig Traddodiadau Cerdd Cymru (trac)

[11] Paragraff 19, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

[12] CYFEIRNOD

[13] Music by Numbers

- Cyfrannodd diwydiant cerddoriaeth y DU £5.8 biliwn i economi'r DU yn 2019 – i fyny 11 y cant o £5.2 biliwn yn 2018.
- Cyrhaeddodd cyflogaeth yn y diwydiant y lefel uchaf erioed o 197,168 yn 2019 - cynnydd o 3 y cant o 190,935 yn 2018.
- Roedd cyfanswm refeniw allforio'r diwydiant cerddoriaeth yn £2.9 biliwn yn 2019 - i fyny 9 y cant o £2.7 biliwn yn 2018.
- Yn ogystal â chyfraniad economaidd uniongyrchol y diwydiant, cyfrannodd twristiaeth gerddoriaeth ei hun £4.7 biliwn o ran gwariant i economi'r DU yn 2019 - i fyny 6 y cant o £4.5 biliwn yn 2018.

**18.** Mae'r adroddiad yn nodi nad yw'r prif ystadegau hyn yn adlewyrchu bodolaeth llawer o weithwyr yn y sector:

> "The large numbers are not, however, indicative of the earnings for a majority of music creators. […] According to the Office for National Statistics (ONS), annual earnings for musicians in a typical year are £23,059 – well below the national average of £29,832."[14]

**19.** Mae'r unig ffigurau ar gyfer Cymru yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â thwristiaeth gerddoriaeth.

**20.** Esboniodd Mark Davyd o Music Venues Trust i ba raddau mae lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad wedi'u gwreiddio mewn economïau lleol:

> "The headline statistic on that is that, for every £10 spent on a ticket in a grass-roots music venue, £17 is spent in the night-time economy on catering, beverages, transport, et cetera. And that £17 in the night-time economy is supporting people's jobs, people's businesses. We like to call grass-roots music venues destination locations, and I always talk about this in terms of kebabs. I've eaten a lot of kebabs. […] And I've eaten those kebabs by going to a grass-roots music venue, emerging at 11 o'clock at night and thinking, 'I need to eat something.' I've never left my house at 11 o'clock at night and gone to a kebab shop. So, the question should be, whether you like kebabs or not: how many kebab shops will close when you close a grass-roots music venue? And that is just an example of that ripple economy effect."[15]

---

[14] Music by Numbers

[15] Paragraff 222, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

**21.** Disgrifiodd Dilwyn Llwyd, rheolwr Neuadd Ogwen, hefyd sut roedd ei leoliad wedi'i wreiddio yn y gymuned a'r economi leol:

> "Dwi'n meddwl, yn economaidd, mae cerddoriaeth yn gallu gwneud lles i bobl ond hefyd rydyn ni'n creu llwyth o waith i bobl yn y gymuned ac yn helpu busnesau eraill."[16]

**22.** Mae dynameg newidiol y diwydiant cerddoriaeth - sef cwymp gwerthiannau corfforol a symud i wasanaethau ffrydio - wedi gweld cerddorion yn dod yn fwy dibynnol ar yr incwm a ddarperir gan berfformiad byw. Esboniodd Sain Records sut roedd yr incwm a ddarparwyd i artistiaid trwy gerddoriaeth wedi'i recordio wedi newid yn dilyn y twf mewn ffrydio ar-lein:

> "Yn y dyddiau pan allai band werthu 2,000 o CDs am £12 yr un, roedd yn bosibl cynhyrchu incwm synhwyrol a oedd yn caniatáu i'r label neu'r artist adennill y costau recordio ac ati. Yn anffodus, nid yw'r incwm a gynhyrchir o ffrydio yn gwrthbwyso'r gostyngiad mewn incwm o werthiannau CD - er gwaethaf cyfradd defnyddio uwch yn gyffredinol. Mae hyn yn wych o ran defnyddio Cymraeg yn gymdeithasol, ond er bod incwm ffrydio yn parhau i fod yn £0.003, mae ffigwr o 50,000 (sy'n uchel) yn cynhyrchu incwm o £150."[17]

**23.** Yn ogystal ag incwm o werthiannau a pherfformiadau byw, mae cyfansoddwyr yn cael incwm o freindaliadau pan fydd cerddoriaeth yn cael ei darlledu neu ei pherfformio gan artistiaid eraill. Mae newidiadau yn y degawd diwethaf wedi gweld gostyngiadau mewn breindaliadau i orsafoedd radio â ffigurau gwrando llai. Arweiniodd hyn at gyfraddau breindal is ar gyfer cerddoriaeth a chwaraeir ar BBC Radio Cymru, ac felly incwm is i artistiaid Cymraeg.

## Mae gwahaniaeth daearyddol o ran mynediad at gerddoriaeth fyw

**24.** Clywodd y Pwyllgor am y gwahaniaeth daearyddol wrth gyrchu cerddoriaeth fyw yn y gweithdai rhanddeiliaid yn Wrecsam a Chaerdydd. Esboniodd Mark Davyd o'r Music Venues Trust sut roedd cylchdaith berfformio Cymru wedi lleihau yn ystod ei oes ef fel mynychwr gigs:

> "There are major gaps in Wales, and this is in, to explain, what we would call primary music touring towns. Again, when I started in this industry,

---

[16] Para 147, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2019

[17] Tystiolaeth ysgrifenedig Sain

> in Wales, that would have included Aberystwyth, certainly, Pontypridd, probably, definitely Swansea, Newport—no doubt about it.[...]. One of my friends went to university at the Lampeter University of St David's. Is that right? Yes. And, when I went to visit him, on offer that weekend was Orange Juice and Dr Feelgood. They don't have any offer like that going on now."[18]

**25.** Teimlai fod y cyfyngiad hwn ar fynediad i ddiwylliant yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn methu â chyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

> "A young person in Newtown is nowhere near a live music opportunity. They have nothing to inspire them to write their own songs; they have no ability to go and see new and emerging bands. You don't have a transport system that would get them to the nearest available thing and get back again before they have to be back at home for whatever. So, I think that's your headline: how are we going to meet the fantastic work that you're doing around the future generations Wales Act, which is so progressive and so important? Failure to access culture impacts on every pillar of that. Every pillar of that is about health and well-being."[19]

**26.** Yn ôl Alun Llwyd o PYST, er bod cerddoriaeth ar gael yn fwy byd-eang roedd hyn wedi cyd-daro â gostyngiad mewn cyfleoedd i gael mynediad at gerddoriaeth fyw yn lleol:

> "Mae gigs byw wedi crebachu i ardaloedd penodol y gogledd orllewin, Caernarfon a Chaerdydd. Maen nhw wedi diflannu bron yn llwyr o lefydd fel Clwyd, Powys, rhannau o Wynedd a'r gorllewin. Mae yna broblemau, felly, sy'n golygu nid yn unig problem o ddiffyg adeiladau ac yn y blaen ond diffyg hyrwyddwyr. Yn amlwg, os ydy rhywun yn tynnu allan y cyfle i chwarae'n fyw—hwnna fel arfer ydy'r cam cyntaf yn nhermau artistiaid ifanc i ddatblygu crefft. Felly, hwnna fyddai fy nghonsyrn mwyaf i ar hyn o bryd."[20]

**27.** Disgrifiodd y DJ Ryan Peak heriau rhedeg nosweithiau cerddoriaeth electronig yng ngogledd Cymru. Dywedodd:

[18] Para 178, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

[19] Para 175, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

[20] Paragraff 4, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

> "I used to play for a night called Strictly Underground and it really created the boom around north Wales - there was 3 clubs open at the time with loads of little venues around Bangor, sadly these days there is only one public club and the other being student based and rarely open to non-students. We have no little venues left."[21]

**28.** Yn ogystal â rhwystrau daearyddol i fynediad, cododd gwylwyr sgwrs Facebook Live Minty's Gig Guide gyda Chadeirydd y Pwyllgor fater prisiau tocynnau uchel i ddigwyddiadau mewn lleoliadau mwy, fel Stadiwm Principality yng Nghaerdydd. Cyfeiriwyd at fynediad i bobl anabl hefyd fel rhwystr i weld cerddoriaeth fyw, yn enwedig mewn lleoliadau llai.[22]

## Nid oes goruchwyliaeth strategol ar gyfer cerddoriaeth fyw yng Nghymru

**29.** Mae amrywiaeth o sefydliadau yn gweithio i wella'r diwydiant cerddoriaeth fyw yng Nghymru. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn dosbarthu cyllid Llywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol, gan gynnwys sefydliadau cyllido refeniw fel Trac, a grantiau ar gyfer artistiaid, lleoliadau a gwyliau. Comisiynodd Llywodraeth Cymru ymarfer i fapio lleoliadau yng Nghymru, ac yn ddiweddar mae wedi sefydlu Cymru Greadigol i ddatblygu'r diwydiannau creadigol. Yn ddiweddar, mae Cyngor Caerdydd wedi sefydlu bwrdd cerdd i'w gynghori a helpu i ddatblygu strategaeth gerddoriaeth ar gyfer y ddinas. Mae elusennau - fel y Music Venues Trust - yn rhoi cyngor i leoliadau. Ar hyn o bryd nid yw'r darnau gwahanol hyn o waith yn bwydo i mewn i strategaeth cerddoriaeth fyw drosfwaol ar gyfer Cymru.

**30.** Dywedodd Shain Shapiro, Prif Weithredwr yr ymgynghoriaeth gerddoriaeth Sound Diplomacy, fod cefnogaeth i gerddoriaeth fyw yn "very piecemeal and ad hoc", ac meddai hefyd "to be honest I don't think Wales has a music policy".[23]

**31.** Galwodd tystiolaeth Trac am greu strategaeth o'r fath:

> "Where Government can lead is to create a music strategy for the country developed by a wide range of stakeholders; achieve a broad consensus of goals and sufficiently resourced to achieve them."[24]

---

[21] Tystiolaeth ysgrifenedig Ryan Howard

[22] Minty's Gig Guide

[23] Tystiolaeth ysgrifenedig Shain Shapiro

[24] Tystiolaeth ysgrifenedig Traddodiadau Cerdd Cymru (trac)

**32.** Roedd Andy Warnock o Undeb y Cerddorion yn gobeithio y gallai Creative Wales ddatblygu strategaeth ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth:

> "At the moment there's a bit of a gap really in how music is pulled together, and so I'd hope that that's something that Creative Wales is going to look at, in terms of a strategy for the music industry and how you tie things together."[25]

**33.** Galwodd Spike Griffiths o Forté Project a'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc am fwy o gydlynu yn y sector:

> "There's a lot of work in silos and there are a lot of organisations who sometimes are doing the same thing. They're competing against each other and not sharing good practice or ideas. So, if there could be a space where there could be some unlocking of some of those problems, then that can only be a good thing."[26]

**34.** Dywedodd nifer o dystion pa mor hanfodol bwysig oedd bod strategaeth gerddoriaeth newydd yn cael ei datblygu gan y diwydiant ei hun, yn hytrach na'i bod yn cael ei gorfodi gan y Llywodraeth. Dywedodd Alun Llwyd o PYST "ei bod hi'n hanfodol bwysig fod y strategaeth yna yn cael ei harwain gan arbenigwyr, neu bobl sy'n gweithio o ddydd i ddydd yn y maes yna".[27] Dywedodd hefyd fod y gwahanol gyrff sy'n cefnogi cerddoriaeth fyw yn "potsian" ar hyn o bryd a bod angen "eglurder".[28]

**35.** Disgrifiodd Neal Thompson - sy'n rhedeg gŵyl FOCUS Wrecsam - faint o weithgarwch sydd yn niwydiant cerddoriaeth fyw Cymru, a'r potensial a oedd gan hyn i dyfu gyda'r ffocws strategol cywir. "We've got an opportunity to begin to develop, from the grassroots up," meddai, "a real music industry for Wales. He described the current activities taking place that he felt "form more of a patchwork of things that we need to knit together a bit better".[29] Pwysleisiodd y dylid defnyddio cymorth y Llywodraeth i alluogi pobl sy'n gweithio yn y diwydiant, yn hytrach na bod gweision sifil yn disodli neu'n ailadrodd y gwaith hwn eu hunain.

---

[25] Paragraff 45, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

[26] Paragraff 133, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019

[27] Paragraff 79, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

[28] Paragraff 57, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

[29] Paragraff 15, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

**36.** Pwysleisiodd Cwmni Recordiau Sain fod angen strategaeth ar gyfer y diwydiant cerddoriaeth cyfan, nid dim ond un sy'n edrych ar gerddoriaeth fyw:

> "Yr wyf yn gryf o'r farn mai un o brif ddiffygion y diwydiant cerdd yng Nghymru yw'r ffaith nad oes strategaeth gynhwysfawr gan y Llywodraeth sy'n edrych ar y diwydiant cerdd yn ei gyfanrwydd. Drwy edrych ar un rhan ohono fel 'cerddoriaeth fyw', yna parhau bydd y gweithredu tameidiog hyn gan y Llywodraeth."[30]

**37.** Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yr Arglwydd Elis-Thomas a fyddai Cymru Greadigol yn datblygu strategaeth gerddoriaeth. Esboniodd:

> "Dwi ddim yn ffan o'r gair 'strategol'. Mae'n well gen i'r pwyslais ar gynlluniau gweithredol a blaenoriaethau, ac rydym wedi cyhoeddi blaenoriaethau mewn gwahanol feysydd o fewn y portffolio dwi'n gyfrifol amdano fo, a dyna fydd y broses y byddwn yn ei dilyn yn y fan hyn. Ond mi fydd y blaenoriaethau'n cael eu hysgrifennu, yn yr achos yma, gan Gymru Creadigol mewn partneriaeth efo'r Llywodraeth, ac mi fydd rheini'n dod yn amlwg ac yn glir i bawb yn y sector. Mae'r cyfan yn mynd i ddatblygu ar sail partneriaeth"[31]

**38.** Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Cymru Greadigol, Gerwyn Evans:

> "The priority now for Creative Wales is to set up an industry-led music working group, where we bring all key players from all different parts of the music industry to work with us to develop an action plan."[32]

## Mae gan gerddoriaeth rôl werthfawr o ran hyrwyddo'r Gymraeg

**39.** Bu nifer o dystion – fel Cwmni Recordiau Sain – yn trafod y rôl y gall cerddoriaeth fyw ei chyflawni o ran helpu i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg. Dywedodd Alun Llwyd – sy'n gweithio gyda'r asiantaeth gerddoriaeth PYST – fod yna "ddadl gryf dros mwy o gigs dwyieithog" mewn ardaloedd llai Cymraeg eu hiaith.[33] Dywedodd Neal Thompson – sy'n rhedeg yr ŵyl arddangos ryngwladol

[30] Tystiolaeth ysgrifenedig Sain

[31] Paragraff 177, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 13 Chwefror 2020

[32] Paragraff 15, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 13 Chwefror 2020

[33] Paragraff 21, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

FOCUS Wales – mai holl ddiben ei ŵyl ef "was to present Welsh and English-language music in parity, with no segregation".[34]

**40.** Mae'r Mentrau Iaith yn fudiadau gwirfoddol a chymunedol sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Fe wnaethant sôn wrth y Pwyllgor am Ddydd Miwsig Cymru a gynhelir yn flynyddol fel "datblygiad cyffrous sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf", ond bod "angen creu gwaddol iddo drwy brosiectau lleol sy'n creu cyfleoedd 12 mis y flwyddyn i bobl ddysgu perfformio, hyrwyddo a threfnu digwyddiadau".[35]

**41.** Disgrifiodd Marged Gwenllian, o'r band Y Cledrau, yr achlysuron prin y bu'n rhan o gigs dwyieithog - megis trwy FOCUS - fel rhai "ffres ac iach".[36]

**42.** Nododd Alun Llwyd lwyddiant y band Cymraeg Alffa, sydd wedi cael dros 3 miliwn o ffrydiadau ar Spotify:

> "A beth sydd yn ddifyr hefyd ydy bod llwyddiant pethau fel Alffa ar Spotify ac yn y blaen yn dangos bod yna normaleiddio o'r Gymraeg wedi digwydd i raddau, a bod modd i'r Gymraeg gymryd ei lle ar blatfformau tebyg i hynny heb fod yna ystyriaethau ieithyddol yn digwydd. A bron wedyn mae'n rhaid i ni gario ymlaen efo'r ysbryd yna a meddwl, 'Beth am osod y Gymraeg a cherddoriaeth Gymraeg mewn cyd-destunau lle nad ydyn nhw wedi arfer bod?' Dwi'n meddwl bod hynny'n bwysig i ehangu cynulleidfa."[37]

### Ein barn ni

Yn ystod yr ymchwiliad hwn clywsom lawer o sylwadau cadarnhaol am weithredu i gefnogi cerddoriaeth fyw sy'n digwydd ar bob haen o lywodraeth, ac yn y trydydd sector, heb sôn am waith caled ac angerdd y rhai sy'n rhedeg lleoliadau ac yn perfformio.

Ar lefel Cymru gyfan mae angen dau beth arnom i sicrhau bod y gwaith hwn i gyd yn cyd-dynnu i gefnogi cerddoriaeth fyw. Mae angen **data da** i ddweud wrthym pa adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd, a sut mae hyn yn newid dros amser. Bydd hyn yn galluogi cydweithio gwell a chymorth wedi'i dargedu. Rydym yn gwybod bod lleoliadau wedi cau – mae angen data arnom i asesu

[34] Paragraff 23, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig y Mentrau Iaith
[36] Paragraff 153, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020
[37] Paragraff 22, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

graddfa'r broblem ac adnabod achosion cyffredin y gellir mynd i'r afael â hwy wedyn.

Rydym yn siomedig na wnaeth y rhai sy'n rhedeg ymarfer mapio lleoliadau Llywodraeth Cymru ymgysylltu'n well â'r sector. Daethom ar draws diwydiant sy'n llawn gwybodaeth a brwdfrydedd: mae angen i unrhyw fenter gan y sector cyhoeddus i gefnogi cerddoriaeth fyw fanteisio ar yr adnodd gwerthfawr hwn. Mae'r ffaith nad yw'r ymarfer mapio hwn wedi'i gyhoeddi, dros flwyddyn ers iddo gael ei gomisiynu, yn awgrymu bod ein pryderon cychwynnol ynghylch sut y gwnaed y gwaith hwn yn gywir.

Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu i fapio lleoliadau fod yn dasg a fydd yn cael ei chyflawni'n rheolaidd gan Cymru Greadigol. Dylai'r gwaith hwn gael ei ehangu i gynnwys seilwaith cerddorol pwysig arall, fel mannau ymarfer.

Hyd yn oed heb ddata da, mae'n amlwg bod **anghydraddoldeb daearyddol o ran mynediad at gerddoriaeth fyw.** Cwyn gyffredin a glywodd y Pwyllgor oedd bod bandiau sydd ar daith yn aml yn anwybyddu Cymru, neu efallai'n chwarae un sioe yng Nghaerdydd. Nid felly yr arferai fod. Er mwyn ail-greu cylchdaith berfformio fywiog yng Nghymru mae angen lleoliadau i artistiaid chwarae ynddynt ac i aelodau'r gynulleidfa eu mynychu. Mae'r llu o argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn wedi'u bwriadu i wella'r ddau beth yma. Mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gefnogi cerddoriaeth fyw mewn ffordd sy'n gwella mynediad daearyddol ledled Cymru.

**Mae'r sefyllfa ariannol anodd a wynebir gan leoliadau'n cyfyngu ar amrywiaeth y gerddoriaeth a gynigir.** Gyda threfnwyr digwyddiadau yn brwydro i gael deupen llinyn ynghyd, mae gwerthu tocynnau'n dod yn bwysicach na dim byd arall. Mae'r argymhellion a wnawn yn yr adroddiad hwn wedi'u bwriadu i wella cynaliadwyedd ariannol y sector cerddoriaeth fyw, a all wedyn raglennu ystod fwy amrywiol o ddigwyddiadau.

Mae prisiau tocynnau uchel mewn lleoliadau mwy yn rhwystr i fynediad ar gyfer pobl ar incwm is. Bydd pob artist sy'n chwarae'r gigs hyn wedi dechrau arni mewn lleoliadau ar lawr gwlad. **Dylai cwmnïau sy'n trefnu digwyddiadau â thocynnau drud ystyried sut maen nhw'n cyfrannu at y sector cerddoriaeth fyw ar lawr gwlad** y maent hwy'n cael budd ohono. Gallai hyn gynnwys cyfrannu cyfran o'u hincwm tocynnau i sefydliadau sy'n cefnogi cerddoriaeth ar lawr gwlad. Un ffordd o wneud hyn fyddai trwy roi'r opsiwn i gwsmeriaid dalgrynnu prisiau tocynnau i'r bunt agosaf wrth brynu tocynnau, gyda'r gwarged yn cael ei

ddarparu i elusennau priodol. Gallent hefyd ystyried darparu tocynnau rhatach i bobl ar incwm isel.

Mae angen **strategaeth gerddoriaeth ar gyfer Cymru.** Mae hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod yr amryw asiantaethau cysylltiedig yn gweithio gyda'i gilydd fel bod swm eu gweithgareddau yn fwy na'u rhannau unigol, yn ogystal â chanfod a lliniaru unrhyw fylchau yn y cymorth sy'n bodoli. Llywodraeth Cymru, fel prif ariannwr gweithgarwch yn y maes hwn, yw'r corff naturiol i ddatblygu'r strategaeth hon, ond unwaith eto rydym yn pwysleisio bod yn rhaid datblygu hyn mewn cydweithrediad â'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill cysylltiedig. Lle bo modd, dylai'r strategaeth hon alluogi arbenigwyr yn y diwydiant i gynyddu eu gweithgarwch, yn hytrach na chreu mwy o waith i weision sifil.

Mae'r achos dros strategaeth gerddoriaeth wedi'i gryfhau gan y pandemig, a drafodwn yn ddiweddarach yn yr adroddiad. Dylid defnyddio'r perthnasoedd rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat yn sgil y pandemig i arwain adferiad a thwf y diwydiant.

Yn ein hymchwiliad blaenorol i gynhyrchu ffilm a theledu mawr, gwnaethom nodi diffyg cydgysylltu canolog, ac fe alwon ni am strategaeth ar gyfer y diwydiant sgrîn. Mae'r dystiolaeth yn cronni ar gyfer strategaeth ddiwylliant drosfwaol. Fel y dywedodd Cyfarwyddwr yr Amgueddfa Genedlaethol wrthym yn 2019, credwn fod "y planedau bellach wedi'u halinio er mwyn cael a **strategaeth ddiwylliant i Gymru**".

Er gwaethaf y brif ffaith bod y diwydiant cerddoriaeth yn tyfu, mae'n werth nodi bod cerddorion yn ennill cryn dipyn yn llai na'r cyflog cyfartalog yng Nghymru. Mae hyn yn golygu ei bod yn annhebygol y bydd buddsoddiad cyhoeddus yn y sector yn dwyn y math o brif enillion economaidd sydd wedi bod yn gysylltiedig â, er enghraifft, buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn cynyrchiadau ffilm. Er hynny, mae buddsoddi mewn cerddoriaeth fyw o'r pwys mwyaf o safbwynt cymdeithasol a diwylliannol: mae'r gweithgarwch hwn yn bwysig, ac fel cymdeithas byddem yn waeth ein byd hebddo. Hefyd, mae gweithgarwch mewn lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad yn aml yn cynhyrchu elw sy'n cael ei wario'n lleol. Felly mae buddsoddi yn y maes hwn yn cyd-fynd yn dda â chamau gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r economi sylfaenol.[38]

Clywsom am y rôl bwysig sydd gan ddigwyddiadau a gwyliau cerddoriaeth Gymraeg wrth hyrwyddo'r iaith. **Yn ogystal â datblygu digwyddiadau Cymraeg**

[38] https://llyw.cymru/yr-economi-sylfaenol

clywsom fod trefnu gigs dwyieithog yn ffordd wych o gael cynulleidfaoedd newydd i'r Gymraeg a normaleiddio ei defnydd ymhellach. Dylai cyllidwyr cyhoeddus deilwra'r gefnogaeth y maent yn ei darparu i'r diwydiant i annog pobl i ddarparu rhywfaint o gerddoriaeth Gymraeg mewn gigs Saesneg yn bennaf. Dylai Cymru Greadigol weithio i ddod â gwahanol gymunedau iaith a genre ynghyd i annog cydweithredu. Gallai hyn olygu cynnwys fel gofyniad grant bod perfformiadau yn digwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Gall denu cynulleidfa ehangach i gerddoriaeth Gymraeg ac annog gigs dwyieithog hybu faint o bobl sy'n defnyddio a dysgu'r iaith. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y gall cerddoriaeth fyw fod yn rhan o'u strategaeth Cymraeg 2050 i gyflwyno miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Argymhelliad 1.** Mae angen i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gefnogi cerddoriaeth fyw mewn ffordd sy'n gwella mynediad daearyddol ledled Cymru. Mae cerddoriaeth yn clymu cymunedau gyda'i gilydd, o bentrefi bach i wledydd. Dylai cyfleoedd i wneud a gwrando ar gerddoriaeth fod ar gael ledled y wlad.

**Argymhelliad 2.** Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod data penodol Cymru ar gael ar faint y diwydiant cerddoriaeth a'i is-sectorau amrywiol. Dylai'r data hwn fod yn sail i'r gwaith o ddatblygu strategaeth gerddoriaeth.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canlyniadau ei hymarfer mapio lleoliadau a chynnal ymarfer mapio lleoliadau a chyfleusterau cerdd eraill (megis mannau ymarfer a pherfformio cyhoeddus) yn rheolaidd. Dylid diweddaru hwn i ymateb i ddatblygiadau newydd.

**Argymhelliad 4.** Dylai cyllidwyr cyhoeddus deilwra'r gefnogaeth y maent yn ei darparu i'r diwydiant i annog pobl i ddarparu rhywfaint o gerddoriaeth Gymraeg mewn gigs Saesneg yn bennaf. Dylai Cymru Greadigol weithio i ddod â gwahanol gymunedau iaith a genre ynghyd i annog cydweithredu.

**Argymhelliad 5.** Dylai Cymru Greadigol weithio gyda lleoliadau cerddoriaeth mawr i ystyried sut y gallant ddefnyddio gwerthiant tocynnau i godi incwm ar gyfer mentrau i ehangu mynediad at gerddoriaeth. Un ffordd o wneud hyn fyddai trwy roi'r opsiwn i gwsmeriaid dalgrynnu prisiau tocynnau i'r bunt agosaf wrth brynu tocynnau, gyda'r gwarged yn cael ei ddarparu i elusennau priodol.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill, ddatblygu strategaeth gerddoriaeth. Dylai hyn gynnwys dull a brand clir ar gyfer cyflwyno cerddoriaeth o Gymru y tu allan i Gymru.

# 2. Cymorth a chyngor: mae bwlch yn y cymorth i gerddoriaeth fyw

Ar hyn o bryd mae'r diwydiant cerddoriaeth fyw yn syrthio i mewn i fwlch rhwng y cymorth artistig a gynigir gan Gyngor y Celfyddydau, a'r cymorth masnachol a all gael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru trwy Cymru Greadigol yn y dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gwell cymorth a chyngor ar gael i'r sector cerddoriaeth fyw. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r cyllid a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau ar lawr gwlad. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati yn awr i sefydlu cynllun cyllido cyfalaf i sicrhau dyfodol lleoliadau diwylliannol bwysig sydd dan fygythiad.

## Cymorth Cyngor Celfyddydau Cymru

**43.** Cyngor Celfyddydau Cymru yw'r prif gorff sy'n cefnogi'r celfyddydau, gan gynnwys cerddoriaeth, yng Nghymru. Mae'n elusen annibynnol sy'n dosbarthu cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r hyn yr hoffai i'r Cyngor Celfyddydau ei wneud â'i gyllid mewn llythyr cylch gwaith blynyddol. Mae mwyafrif cyllid y Cyngor Celfyddydau yn mynd trwyddo ar ei ffordd i sefydliadau ac unigolion y mae'n eu hariannu naill ai'n rheolaidd neu ar sail untro.

**44.** Mae'r Cyngor Celfyddydau hefyd yn darparu grantiau untro i unigolion a sefydliadau. Mae hyn yn cynnwys gwyliau, fel Gŵyl y Dyn Gwyrdd ym Mannau Brycheiniog, a chyllid cyfalaf ar gyfer ailddatblygu Clwb Ifor Bach. Ers 2011, mae Cyngor y Celfyddydau wedi bod â ffrwd ariannu bwrpasol ar gyfer gwyliau. Yn ei dystiolaeth, mae'n mynegi'r pryder bod llawer o'r gwyliau yng Nghymru yn dibynnu ar arian cyhoeddus i fodoli.[39] Mae ganddo hefyd Gronfa Datblygu'r Diwydiant Cerdd, y dywedodd Cwmni Recordiau Sain y gall "fod o fudd mawr i rai artistiaid".[40] Dangosir dadansoddiad o'r ffurfiau ar gelfyddyd y gwnaeth cyllid

[39] Tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru

[40] Tystiolaeth ysgrifenedig Sain

Cyngor Celfyddydau Cymru eu cefnogi yn 2018-19 fel Atodiad ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

**45.** Mae **Tŷ Cerdd a BBC Cymru Wales** yn dosbarthu cyllid Loteri ar gyfer cerddoriaeth ar ran y Cyngor Celfyddydau. Yn 2018-19 dosbarthodd Tŷ Cerdd £76,000, gan gynnwys cyllid ar gyfer comisiynau cerddoriaeth newydd, cyllid ieuenctid, rhaglennu cerddoriaeth Gymraeg, cerddoriaeth mewn cymunedau, a chyfansoddwyr preswyl. Dosbarthodd BBC Cymru Wales £35,000 o gyllid fel rhan o'r rhaglen Gorwelion ar gyfer 12 artist cerddorol addawol.

**46.** Mae'r rhaglen **Noson Allan** gan Gyngor y Celfyddydau yn rhoi cymorth ariannol i helpu grwpiau cymunedol i gynnal perfformiadau artistig, yn aml mewn adeiladau nad ydynt yn lleoliadau pwrpasol. Dywedodd CCC wrth y Pwyllgor ei fod yn gweithio gyda PYST (asiantaeth dosbarthu a datblygu digidol ar gyfer cerddoriaeth) i weld sut y gellir hyrwyddo cerddoriaeth ymhellach trwy Noson Allan. [41]

**47.** Yn 2017 cyhoeddodd Cyngor y Celfyddydau Anthem, **gwaddol ar gyfer cerddoriaeth** y gobeithir y bydd yn darparu cyfleoedd cerddorol i bobl ifanc o 2020. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i helpu gyda chostau cychwynnol a chyllid sbarduno.

**48.** Er 2012, mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi bod yn neilltuo elfen o gyllid y Loteri i gerddoriaeth gyfoes – **Cronfa Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth (MID).** Mae'r cyllid hwn yn agored i unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n ymwneud â cherddoriaeth - cerddorion, bandiau a sefydliadau cerdd, gan gynnwys lleoliadau, hyrwyddwyr, rheolwyr, labeli a chyhoeddwyr.

**49.** Pan ofynnwyd iddo gan y Pwyllgor faint o Gronfa Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth oedd wedi mynd i leoliadau, dywedodd swyddog o Gyngor Celfyddydau Cymru nad oeddent yn gwybod, ac meddai hefyd "It was a scheme open to music venues, but, actually, probably very few have come through the scheme to apply for it, and I don't know the rationale for that".[42]

## Cyllid cyfalaf

**50.** Yn 2019-20 roedd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr gyllideb wedi'i neilltuo o £1.5 miliwn o arian cyfalaf ar gyfer y sector cerddoriaeth ar lawr gwlad. Pe bai cyllid

---

[41] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru

[42] Paragraff 51, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

tebyg yn cael ei ddarparu yng Nghymru, yn seiliedig ar boblogaethau cymharol, byddai hwn yn ffigwr blynyddol o £83,000.

**51.** Yn dilyn trafodaethau yn y Pwyllgor ynghylch sefydlu cynllun cyllid cyfalaf ar gyfer lleoliadau yng Nghymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £120,000 o gyllid ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad. Bydd y cynllun hwn yn cynnig grantiau bach o hyd at £5,000 ar gyfer gwelliannau cyfalaf ar gyfer lleoliadau.[43]

## Darfodiad y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig

**52.** Roedd y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig – y gwnaeth Llywodraeth Cymru stopio ei gyllid o £160,000 y flwyddyn yn 2014 – yn arfer darparu cyngor a chymorth i ddatblygu diwydiant cerddoriaeth Cymru.[44] Disgrifiodd John Rostron – a oedd yn brif weithredwr y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig – i'r Pwyllgor yr ystod o gefnogaeth a ddefnyddiodd i ddarparu:

> "in the last year of Welsh Music Foundation, there were nearly 2,000 enquiries that came in, and enquiries range from things like, 'I've recorded an album. What do I do?', to, 'How do I get a session musician?', or 'I want to be a manager', or 'I'm a manager, but I'm also working in a pizza shop and how do I juggle—?' And you would deal with each one of those in different ways and if there were clusters of issues—. And that was always key; you'd see something emerging. PRS was a great example. As an artist is moving from recording to getting airplay, understanding PRS, we would run workshops—with PRS sometimes—to help them learn how to—. They would sit in the sessions and actually log in and register and then begin to collect their revenue. So, we would run—I think, in the final year, we ran 36 bespoke training sessions. So, that bit is also missing right now.[45]
>
> [...]
>
> There is a development agency for music in Yorkshire. So, Yorkshire have what I'm talking about for Yorkshire; we don't have one for Wales."[46]

[43] https://llyw.cymru/blaenoriaethau-newydd-i-gefnogi-twf-diwydiannau-creadigol-cymru
[44] https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-28108515
[45] Paragraff 33, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[46] Paragraff 34, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019

**53.** Dywedodd Spike Griffiths wrth y Pwyllgor:

> "When the Welsh Music Foundation closed, my inbox rocketed overnight and I couldn't deal with all these young people on my own. I just couldn't physically get to them, I couldn't meet them."[47]

## Cymorth i'r sector

### Rôl Cyngor Celfyddydau Cymru

**54.** Disgrifiodd Mark Davyd o'r Music Venues Trust y diffyg cefnogaeth i'r sector ar hyn o bryd, gan ddweud:

> "This is not solely a problem for Government and this is not solely a problem for the music industry. It's a problem for the culture sector, everything. Everybody needs to really swing behind this idea of the importance of these venues"[48]

**55.** Disgrifiodd ei farn am Gyngor Celfyddydau Cymru fel ei fod bron yn gwbl negyddol, ond bod hyn yn nodweddiadol o'r sector:

> "We have a 60-year history, now, of rock and popular music, but the institutions that are the gatekeepers to public funding have not responded to the changing agenda and the changing circumstances of that industry in a flexible way. So, we have not created funding streams or support—technical support or advocacy support—within those cultural institutions, and Arts Council of Wales would be one of those."[49]

**56.** Disgrifiodd John Rostron gronfa Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth Cyngor y Celfyddydau fel un "really innovative" a "pioneering", gan nodi iddi gael ei lansio ar adeg pan oedd y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig ar fin colli ei gyllid.[50] Cododd y cwestiwn ynghylch pwy ddylai gefnogi cerddoriaeth fyw yng Nghymru, o ystyried ei bod yn pontio bydoedd masnach a chelf, gan nodi:

> "If I was chief executive of the Arts Council, I would maybe be asking, to start with, 'Is it our remit?' Like I articulated, these are commercial spaces. Actually, a lot of the companies that we're talking about—Le

[47] Paragraff 154, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[48] Paragraff 181, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019
[49] Paragraff 186, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019
[50] Paragraff 36, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019

> Public Space and Clwb Ifor Bach are the exceptions; they've had the resource or the nous to become not-for-profit. Most of the other ones that you had in, like you had Sin City and Clwb y Bont, they're commercial operations; the very nature of their governance would mean that they would be ineligible, or that would be the first hurdle. And then, if they were to apply—because they could apply as a commercial entity, but they've got to think about a not-for-profit, a charitable project. And these are things that, if you work in funding, you understand, but if you're busy trying to run a venue—and you've got to remember, these people, they run the bricks, the mortar, the staff, they market, they do the whole lot—it's another skill set to bring in."[51]

**57.** Yn ei ôl ef, pe bai Cyngor y Celfyddydau yn cael cyfrifoldeb ffurfiol am gerddoriaeth fyw, dylai gael yr adnoddau i wneud hynny.[52]

**58.** Pan ofynnwyd iddynt a ydyn nhw'n cefnogi lleoliadau cerddoriaeth fyw, dywedodd Cyngor y Celfyddydau wrth y Pwyllgor:

> "If we're talking about grass-roots music venues, generally because they're private businesses, we generally don't support those kinds of organisations. But having said that, we are supporting the developments at Clwb Ifor Bach, for instance, with their expansion programme."[53]

**59.** Pan ofynnwyd iddynt a ddylai Cyngor y Celfyddydau ddarparu cefnogaeth bellach i gerddoriaeth fyw, rhybuddiwyd:

> "Some people would take it as us stepping on the commercial sector's toes when we are primarily a public sector organisation"[54]

**60.** Galwodd Marged Gwenllian o'r band Y Cledrau gynllun Noson Allan Cyngor y Celfyddydau yn "ffantastig":

> "…achos mae'n dangos mai nid er mwyn creu elw mae'r noson yn cael ei chynnal, ond er mwyn adloniant pur. Felly, mae'r grant yn cael ei roi er mwyn cyfro costiau'r bandiau, a gwneud yn siŵr bod bandiau'n cael

[51] Paragraff 41, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[52] Paragraff 42, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[53] Paragraff 36, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019
[54] Paragraff 70, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

> tâl teg hefyd, ac maen nhw'n cael yr arian yn ôl yn y diwedd er mwyn cynnal y noson nesaf."[55]

**61.** Disgrifiodd Andrew Hunt o'r band Buffalo Summer sefyllfa lle gwrthodwyd cais ganddo am gyllid gan Gyngor y Celfyddydau. Roedd ei fand yn dymuno mynd ar daith i America gyda band sefydledig, a pherfformio i gynulleidfa o 5,000 y noson. Dywedodd fod Cyngor y Celfyddydau wedi esbonio wrtho:

> "…that they only will give funding if it's what's called a showcase event. So, the example they gave was an event in Texas called South by Southwest. There, you'd be playing a one-off show."[56]

**62.** Dywedodd Rhydian Dafydd o'r band The Joy Formidable fod hyn yn:

> "…a shame, because that genuinely could be a career changer, couldn't it? Because you're playing multiple cities, more so than maybe doing the one show."[57]

## A oes angen ffynhonnell cyngor a chymorth newydd?

**63.** Mewn blog a gyhoeddodd ym mis Chwefror 2019, galwodd John Rostron am sefydlu asiantaeth "to support and oversee all areas of music in Wales". Yn ei ôl ef "the plight of venues across Wales has demonstrated that there's a huge gap in support for music in Wales". Dylai asiantaeth o'r fath, yn ei farn ef, gael £3 miliwn y flwyddyn a dywedodd "that's a little under what the Welsh Books Council gets to support the development of publishing and literature in Wales".[58] Cafodd Cyngor Llyfrau Cymru £3.9m gan Lywodraeth Cymru yn ystod blwyddyn ariannol 2018-19.

**64.** Yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor, ymhelaethodd ar ei gynigion ar gyfer yr asiantaeth newydd hon, gan ddisgrifio'r bwlch a oedd yn bodoli yn ei farn ef rhwng y cymorth artistig a gynigir ar hyn o bryd gan Gyngor y Celfyddydau, a'r cymorth masnachol a all gael ei chynnig gan Cymru Greadigol yn y dyfodol. Awgrymodd y dylai'r ddau gorff gyfeirio cyllid at asiantaeth gerddoriaeth newydd, a allai gwmpasu cerddoriaeth nad oes ganddi botensial masnachol uchel, ond a

[55] Paragraff 167, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020
[56] Paragraff 251, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020
[57] Paragraff 252, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020
[58] What can be done to support music venues in Wales?

allai gael ei pherfformio o bosibl mewn lleoliadau sydd â ffocws masnachol – hyd yn oed os nad yw'n ffocws proffidiol iawn.[59]

**65.** Dywedodd Spike Griffiths fod yn bendant angen asiantaeth gerddoriaeth newydd i roi cymorth a chyngor. Dywedodd y byddai'n ddefnyddiol, iddo ef ei hun a'r artistiaid y mae'n gweithio gyda nhw "to have somewhere to go and somewhere as a sounding board and some sort of direction".[60]

**66.** Cefnogwyd y farn hon gan Neal Thompson o FOCUS. Dywedodd y canlynol:

> "Maybe there's also a need for some kind of overarching body [...] that could exist to answer questions and signpost and field and manage entry-level enquiries. [...] So, kind of what Welsh Music Foundation used to do."[61]

**67.** Cefnogodd Dilwyn Llwyd o Neuadd Ogwen alwadau i sefydlu ffynhonnell cymorth a chyngor newydd ar gyfer cerddoriaeth fyw. "I've been organising events for 30 years", he said, "and I wouldn't know where to seek funding [....] It's a great struggle to actually find information".[62]

**68.** Awgrymodd cyfranwyr i sesiwn fyw Minty's Gig Guide ar Facebook gyda Chadeirydd y Pwyllgor y dylai fod ffynhonnell well ar gyfer gwybodaeth rhestru gigs fel bod cynulleidfaoedd yn gwybod beth oedd yn digwydd ledled y wlad. Un awgrym oedd y gellid datblygu platfform ffynhonnell agored, gydag ychydig bach o gyllid peilot.[63]

## Cyllido

**69.** Pan drafododd y Pwyllgor y cynllun cyllid cyfalaf ar gyfer cerddoriaeth sy'n gweithredu yn Lloegr, ymatebodd tystion yn gadarnhaol i'r cwestiwn a ddylid cyflwyno cynllun tebyg yng Nghymru. Ar 29 Ionawr 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £120,000 o gyllid ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad. Bydd y cynllun hwn yn cynnig grantiau bach o hyd at £5,000 ar gyfer gwelliannau cyfalaf ar gyfer lleoliadau.[64]

---

[59] Paragraff 27, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[60] Paragraff 153, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[61] Paragraff 39, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020
[62] Paragraff 165, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020
[63] Minty's Gig Guide
[64] https://llyw.cymru/blaenoriaethau-newydd-i-gefnogi-twf-diwydiannau-creadigol-cymru

**70.** Digwyddodd y rhan fwyaf o'r gwaith casglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn cyn y cyhoeddiad hwn. Dywedodd Dilwyn Llwyd o Neuadd Ogwen wrth y Pwyllgor "bod potensial y £5,000 yna—neu lai, beth bynnag rydym ni'n gwneud cais amdano—yn gallu cael impact anferthol ar y ganolfan dwi'n gweithio ynddi".[65]

**71.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Music Venues Trust yn nodi bod lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad yn cael ""almost no funding from Arts Council Wales or other cultural distribution agencies", ac yn nodi bod gan Gyngor Celfyddydau Cymru "several schemes to support artists but nothing specific for grassroots music venues and the infrastructure that support them". Mae'n nodi cynllun cyllid cyfalaf Cyngor Celfyddydau Lloegr ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth ac yn dweud "Each of Wales' nearest geographical competitors for international touring have established programmes to support infrastructure for GMVs (Lleoliadau Cerddoriaeth ar Lawr Gwlad)". Mae'n disgrifio amrywiaeth o gymorth sydd ar gael ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad mewn gwledydd Ewropeaidd eraill, ac yn galw am fuddsoddi yn lleoliadau Cymru.[66]

**72.** Mewn cyfarfod gyda'r Pwyllgor, fe wnaeth Mr Davyd, prif weithredwr y Music Venues Trust, ddadlau bod angen "a funding stream that is specific to venues, which recognises that venues have specific problems in areas like investment in infrastructure".[67] Awgrymodd y dylai'r ffrwd gyllido hon fod yn seiliedig ar gynllun Cyngor Celfyddydau Lloegr, ond gyda phroses ymgeisio fwy hygyrch. Pan lansiwyd cronfa Cymru, meddai:

> "The new fund is clearly laid out with a simple application process which means that members of the Welsh Music Venues Alliance will be able to respond to this great opportunity quickly, securing money they badly need to improve both artist and audience experiences, while making their own operations more sustainable."[68]

**73.** Mae Undeb y Cerddorion yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

> "explore how best to provide support and funding for existing and new venues, particularly in relation to grassroots music venues and options

---

[65] Paragraff 173, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

[66] Tystiolaeth ysgrifenedig y Music Venues Trust

[67] Paragraff 187, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

[68] http://musicvenuetrust.com/2020/01/boost-for-welsh-grassroots-music-venues-as-creative-wales-announce-new-fund/

> for taking live music venues into community ownership, without stretching the ACW budget further"[69]

**74.** Mae Cwmni Recordiau Sain yn galw am fuddsoddi mewn:

> "…cylchdaith o leoliadau, ac yna cyllideb i hyrwyddo digwyddiadau / perfformiadau cychwynnol yn ddigonol i ddatblygu'r cynulleidfaoedd ar gyfer pob lleoliad. Mae hyn yn fwy perthnasol i artistiaid Cymraeg."[70]

**75.** Disgrifiodd Andrew Walton - sy'n perfformio fel y Welsh Whisperer - ei brofiad o berfformio cerddoriaeth Gymraeg mewn lleoliadau gwledig, sy'n aml yn neuaddau pentref. Esboniodd y gallai'r gwerthoedd cynhyrchu fod yn eithaf isel, ac y byddai cymorth ariannol – gan gynnwys ar gyfer offer sain, offer goleuo a hyrwyddo – yn gwella profiad y gynulleidfa yn sylweddol.[71] Disgrifiodd Alun Llwyd o PYST hefyd y costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â llwyfannu cyngherddau mewn lleoedd gwledig a achosir gan yr angen i ddod ag offer i mewn.[72]

**76.** Nododd Mr Llwyd mai dim ond lleoedd lle mae lleoliadau'n bodoli ar hyn o bryd y byddai cronfa Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau ar lawr gwlad yn eu helpu. Dywedodd:

> "Dylai'r buddsoddiad, yn nhermau cyngor ac yn nhermau arian, fynd i mewn i feithrin hyrwyddwyr newydd. Achos o gael hyrwyddwyr newydd, mae'r hyrwyddwyr yn mynd i ddarganfod canolfannau newydd yn eu cymunedau ac yna wedyn, mae'r gronfa yna wedyn yn cicio i mewn. So, os oes gennym ni hyrwyddwyr ar lawr gwlad, mae'r hyrwyddwyr yna yn mynd i greu'r canolfannau yna. Dyna'r ffordd dwi'n meddwl y dylem ni edrych arno, yn hytrach na'r ffordd arall rownd."[73]

**77.** Trafododd panel o artistiaid y prinder mannau ymarfer y tu allan i'r canolfannau trefol, a galwodd am gymorth ariannol i redeg mannau ymarfer mewn ardaloedd difreintiedig. Awgrymodd Andrew Hunt, o'r band Buffalo Summer, y gallai lleoliadau sy'n dawel yn ystod yr wythnos gael eu defnyddio fel mannau ymarfer.[74]

---

69 Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb y Cerddorion

70 Tystiolaeth ysgrifenedig Sain

71 Paragraff 240, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Ionawr 2020

72 Paragraff 49, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

73 Paragraff 47, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

74 Paragraff 350, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020

**78.** Nododd nifer o dystion fanteision lleoliadau aml-swyddogaethol, a oedd yn cynnig mwy na dim ond rhywle i yfed a gwylio cerddoriaeth. Meddai Spike Griffiths:

> "maybe the functionality of a venue needs to change as well. If we talk of bigger venues, we can't just think they'll be grand cathedrals. We need to think of them, maybe, as multi-purpose. And there are some really good examples of that. Somewhere like Tŷ Pawb in Wrexham is a good multi-purpose space, has a lot of dynamic things going on. If you look across the water, somewhere like the Oh Yeah centre in Belfast—again another space in which there's a lot of music business start-ups there as well as a venue as well, as well as recording, as well as a guitar-repair shop; there are a lot of things."[75]

**79.** Mae Neuadd Ogwen yn ganolfan gelf ym Methesda sy'n cynnal cerddoriaeth fyw ac, fel y dywedodd y rheolwr Dilwyn Llwyd wrth y Pwyllgor, "mae'n ganolfan gelfyddydol sy'n lot mwy o ganolfan gymunedol". Esboniodd:

> "dŷn ni wedi cael pres i ddatblygu'r adeilad i ffitio i mewn i fodel fwy cyfoes. […] Dwi'n meddwl bod cerddoriaeth yn gallu jest ffitio i mewn i ran o strwythur mwy. Mae'n gweithio i ni; allaf i ddim siarad am lefydd eraill, ond dwi'n meddwl bod yna lot o adeiladau dros Gymru sydd yn gallu cael eu datblygu."[76]

**80.** Dywedodd hefyd fod "canolfannau yn gallu adfywio pentrefi, trefi a dinasoedd yng Nghymru". [77]

## Perchnogaeth gyhoeddus ar leoliadau ar lawr gwlad

**81.** Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, mae'r Music Venues Trust yn egluro:

> "A principle cause of closure of Grassroots Music Venues is the comparative financial returns from the physical bricks and mortar which house these spaces; landlords can achieve higher financial returns from alternative tenants or from conversion to residential space."[78]

---

[75] Paragraff 113, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019

[76] Paragraff 157, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

[77] Paragraff 157, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

[78] Tystiolaeth ysgrifenedig y Music Venues Trust

**82.** Mae'r Music Venues Trust yn disgrifio ei gynllun i frwydro yn erbyn y bygythiad hwn trwy gaffael perchnogaeth rydd-ddaliadol ar leoliadau, a'u gosod ar brydles i'r tenantiaid. Mae'n disgrifio hyn fel "a protected network of spaces – a 'National Trust for Venues'".[79]

**83.** Cymeradwyodd Alun Llwyd o PYST y syniad o drosglwyddo lleoliadau i berchnogaeth gyhoeddus pan fyddant dan fygythiad. Dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "Dwi'n meddwl bod yna ddadl gref yn nhermau bod modd edrych ar ydy o'n gwneud sens i gael cyfres o ganolfannau ar draws Cymru ar y pwrs cyhoeddus, achos mae'r canolfannau hynny wedyn yn gallu cynnig lle i bobl gael eu mentora, i sgiliau gael eu datblygu ac yn y blaen, ac i droi mewn i ganolfannau celfyddydol mewn gwahanol gymunedau."[80]

**84.** Mae nifer o weithgareddau Llywodraeth Cymru yn cynnig cynseiliau ar gyfer darparu cyllid ar gyfer eiddo fel y gall gweithgarwch cymdeithasol fuddiol ddigwydd yno. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn berchen ar adeiladau y mae'n eu gosod ar gyfraddau ffafriol i fusnesau sy'n cychwyn. Mae'r cysyniad hwn o "unedau deori busnes"[81] , i raddau, yn cyfateb i gynnig i Lywodraeth Cymru fod yn berchen ar fannau diwylliannol y mae'n eu gosod i weithredwyr lleoliadau ar gyfraddau ffafriol i ddarparu man i berfformwyr ddatblygu eu doniau.

**85.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu cyllid ar gyfer eiddo i wella'r economi sylfaenol. Mae Tai Rhondda wedi caffael hen safle'r Co-op yn Nhonypandy, y dywed "will see us investing to improve this area, giving local people a vibrant town centre to be proud of, creating jobs and building community co-operation". Defnyddiodd y prosiect hwn £100,000 o gronfa Her Economi Sylfaenol Llywodraeth Cymru.[82]

**86.** Galwodd y Dyn Gwyrdd am ddylunio cyllid mewn ffordd fel ei fod yn ategu'r angen o ran sgiliau i lwyddo yn y diwydiant, yn hytrach na "a subsidy-based system designed to simply use public funding to pay for artists to have performance experience". Dywedodd:

---

[79] Tystiolaeth ysgrifenedig y Music Venues Trust

[80] Paragraff 21, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

[81] www.southwales.ac.uk/alumni/your-community/news/2019-news/usw-opens-business-incubator-cardiff-campus/

[82] www.rhawales.com/news-events/rha-secures-economy-futures-funding/

> "Funding is best placed with the artists, promoters and venues that can illustrate a robust history of generating ticket sales, and identifying music talent that has achieved commercial success".[83]

### Ein barn ni

Mae cau'r Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig yn amlwg wedi gadael **bwlch o ran cymorth a chyngor i'r diwydiant cerddoriaeth.** Clywsom fod y sector ar hyn o bryd yn syrthio i mewn i fwlch rhwng y cymorth artistig a gynigir gan Gyngor y Celfyddydau, a'r cymorth masnachol y gall Cymru Greadigol ei gynnig yn y dyfodol.

Er inni glywed sylwadau cadarnhaol am gronfa Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth, a oedd yn ymyrraeth amserol gan Gyngor Celfyddydau Cymru, nid ydym yn argyhoeddedig bod gan Gyngor y Celfyddydau yr arbenigedd y mae ei angen i gefnogi'r diwydiant cerddoriaeth fyw mewn modd sylweddol a strategol ar hyn o bryd. Rydym yn pryderu nad yw Cyngor y Celfyddydau wedi magu hyder y sector. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth gan weithredwyr lleoliadau y gallent wneud cais i gronfa Datblygu'r Diwydiant Cerddoriaeth yn ddadlennol: rhaid i Gyngor y Celfyddydau wneud mwy i ymgysylltu â'r sector cerddoriaeth fyw.

Dylai'r diwydiant cerddoriaeth gael ei gefnogi â ffynhonnell cyngor ar unrhyw beth o faterion cynllunio a thrwyddedu, i ddeall materion y Gymdeithas Hawliau Perfformio (PRS) ar gyfer artistiaid. Mae datganoli yn golygu bod gwahaniaeth polisi rhwng cenhedloedd y DU mewn meysydd pwysig fel cynllunio, ardrethi busnes a'r celfyddydau yn debygol o dyfu, gan gynyddu'r angen am ffynhonnell cymorth sy'n benodol i Gymru. Roedd y dryswch eang yn y sector wrth ystyried a fyddai gostyngiad diweddar mewn ardrethi busnes yn Lloegr yn berthnasol i leoliadau yng Nghymru (gweler pennod 5) yn dangos yr angen am ffynhonnell cyngor ar wahân yng Nghymru.

Mae cyfansoddiad gweithredwr lleoliadau (er enghraifft, p'un a yw'n sefydliad dielw neu'n elusen) yn pennu'r cyllid a'r gefnogaeth y gall eu derbyn. Byddai gweithredwyr lleoliadau cerddoriaeth yn elwa o gael cyngor busnes, gan gynnwys ar sut y dylid eu strwythuro. Byddai'r cymorth hwn yn debyg i'r hyn a ddarparwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru trwy ei Raglen Wytnwch.

[83] Tystiolaeth ysgrifenedig Green Man

Er bod ein gwaith wedi canolbwyntio ar y diwydiant cerddoriaeth fyw, ni welwn unrhyw reswm pam na fyddai artistiaid a labeli hefyd yn cael budd o gyngor ar faterion sy'n ymwneud â cherddoriaeth wedi'i recordio. Mae **angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwell cymorth a chyngor ar gael i'r diwydiant cerddoriaeth.** Mae angen i'r cymorth hwn fod ar gael ledled Cymru ac ar lawr gwlad, lle mae angen ymyrraeth yn aml.

O ystyried lansio Cymru Greadigol yn gymharol ddiweddar, mae'n rhy gynnar i ni argymell sefydlu asiantaeth gerddoriaeth newydd, er bod hwn yn opsiwn y dylai Llywodraeth Cymru ei ystyried. Yr hyn sy'n hanfodol bwysig yw y dylai dyfnder y cymorth sydd ar gael efelychu'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol gan y Sefydliad Cerddoriaeth Gymreig.

Ar hyn o bryd nid oes gan gynulleidfaoedd **ffynhonnell ganolog dda ar gyfer rhestrau gigs.** Prosiect defnyddiol ar gyfer naill ai asiantaeth gerddoriaeth newydd neu Cymru Ddigidol fyddai sefydlu platfform digwyddiadau ffynhonnell agored y gall gweithredwyr lleoliadau ei ddefnyddio i lanlwytho gwybodaeth am gigs.

Rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i lansio **cronfa ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad.** Roedd yr ymgysylltiad a gawsom â'r rhai sy'n rhedeg lleoliadau bach yn ystod yr ymchwiliad hwn yn rhagorol. Mae eu hangerdd a'u gwybodaeth yn awgrymu y byddai arian cyhoeddus a fuddsoddir yn y sector hwn yn cael ei wario'n dda.

Mae lleoliadau bach yn darparu rôl gymdeithasol amhrisiadwy, ar gyfer perfformwyr a chynulleidfaoedd, yn ogystal â darparu'r gris cyntaf ar ysgol y mae angen i'n hartistiaid ei dringo os ydyn nhw'n anelu at symud ymlaen a chwarae mewn lleoliadau mwy. Dylai'r gronfa hon ganolbwyntio ar foderneiddio lleoliadau i wella eu sefydlogrwydd ariannol a gwella mynediad ar gyfer pobl ag anableddau. Mae mannau ymarfer hefyd yn angenrheidiol er mwyn i fandiau ddatblygu eu sgiliau, felly dylai'r rhain hefyd fod yn gymwys i gael y cyllid hwn.

Clywsom y byddai symiau bach o gyllid yn ddefnyddiol iawn ar gyfer lleoliadau ar lawr gwlad. Bydd hyn yn eu galluogi i brynu darnau o offer sain neu ddiweddaru eu cyfleusterau. Teimlwn y dylai fod cyfle i leoliadau wneud cais am grantiau mwy na'r terfyn o £5,000 y mae Llywodraeth Cymru yn ei dreialu. Byddai system sain newydd, er enghraifft, hyd yn oed ar gyfer lleoliad bach, yn costio ymhell dros £5,000. Dylid parhau i adolygu'r terfyn hwn, gyda golwg ar ei gynyddu unwaith y bydd Llywodraeth Cymru a'r diwydiant yn hyderus bod y cynllun yn gweithredu'n dda. Bydd y Pwyllgor yn parhau i edrych ar weithrediad

y gronfa hon wrth iddo graffu ar waith Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a thrafodaethau gyda'r sector cerddoriaeth.

Clywsom dystiolaeth argyhoeddiadol ei bod hi'n **anodd cael mynediad at fannau ymarfer y tu allan i ganolfannau trefol**. Mae llawer o adeiladau – gan gynnwys canolfannau celfyddydau – yn yr ardaloedd hyn yn derbyn cyllid cyhoeddus, naill ai gan awdurdodau lleol neu asiantaethau fel Cyngor y Celfyddydau. Dylai darparwyr cyllid ystyried atodi amodau i'r cyllid hwn bod y lleoedd hyn, lle bo hynny'n bosibl, yn cael eu hagor fel lleoedd ymarfer i gerddorion.

Mae lansio **Cymru Greadigol** yn rhoi cyfle cyffrous i dyfu'r diwydiant cerddoriaeth fyw. Mae angen i'r bwrdd cynghori sy'n cefnogi Cymru Greadigol gynnwys arbenigwyr y diwydiant a phobl ifanc fel y gall gefnogi'r sector yn effeithiol ac ystyried anghenion artistiaid a chynulleidfaoedd ifanc.

Mae'n werth mynd ar ôl syniad y Music Venues Trust ynglŷn â **diogelu lleoliadau trwy eu prynu a'u rhoi ar brydles i weithredwyr lleoliadau.** Byddai hyn yn cael gwared ar y bygythiad a achosir i leoliadau pan fydd landlordiaid yn penderfynu eu bod am wneud defnydd gwahanol o'u hased - fel yn achos Gwdihŵ Caerdydd - gan arwain at gau'r lleoliad. Dylai awdurdodau lleol ystyried y dull hwn; yn wir, mae Cyngor Caerdydd eisoes wedi gweithredu yn y modd hwn, gan brynu'r tir ger Clwb Ifor Bach a'i roi ar brydles i'r lleoliad, gan ei gwneud yn bosibl parhau â gwaith arfaethedig i'w ailddatblygu. Er gwaethaf y gwariant cyfalaf cychwynnol, byddai'r awdurdod lleol yn ennill ased a ffrwd incwm rhent. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu **cronfa gyfalaf i brynu lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad** ac iddynt werth diwylliannol a chymdeithasol uchel. Gallai awdurdodau lleol neu grwpiau buddiant ei defnyddio i'w helpu i brynu lleoliadau sydd dan fygythiad. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried atebion amgen a fyddai'n cael effaith debyg, fel rhentu adeiladau a'u his-osod i weithredwyr lleoliadau.

Mae'r model **lleoliadau aml-ddefnydd** yn un sy'n ymddangos fel pe bai'n cynyddu eu cynaliadwyedd ariannol a'u gwerth cymdeithasol i'r eithaf. Gall lleoliad cerddoriaeth sydd hefyd yn darparu lle i grwpiau rhieni newydd gwrdd yn ystod y dydd gynnig manteision i fwy o aelodau'r gymuned na lleoliad cerddoriaeth fyw yn unig, a gall gynnig incwm yn ystod y dydd yn ogystal ag incwm gyda'r nos. Gwelsom enghraifft wych, sef Tŷ Pawb yn Wrecsam sy'n adeilad lle cynhelir cerddoriaeth fyw ochr yn ochr â siopau a swyddfeydd. Pan fydd y sector cyhoeddus yn cefnogi lleoliadau cerddoriaeth fyw, dylai wneud hynny, lle y bo'n bosibl bosibl, gyda'r bwriad bod lleoliadau yn symud tuag at y model gweithredu hwn.

**Argymhelliad 7.** Mae angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gwell cymorth a chyngor ar gael i'r diwydiant cerddoriaeth, boed hynny trwy Cymru Creadigol neu sefydlu corff newydd. Mae angen i'r cymorth hwn fod ar gael ledled Cymru ac ar lawr gwlad, lle mae angen ymyrraeth fwyaf.

**Argymhelliad 8.** Dylai bwrdd cynghori Cymru Greadigol gynnwys arbenigwyr y diwydiant a phobl ifanc fel y gall gefnogi'r sector yn effeithiol ac ystyried anghenion artistiaid a chynulleidfaoedd ifanc.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cronfa gyfalaf i hwyluso'r gwaith o brynu lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad ac iddynt werth diwylliannol a chymdeithasol uchel. Gallai awdurdodau lleol neu grwpiau buddiant ei defnyddio i'w helpu i brynu lleoliadau sydd dan fygythiad. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried atebion amgen a fyddai'n cael effaith debyg, fel rhentu adeiladau a'u his-osod i weithredwyr lleoliadau.

**Argymhelliad 10.** Mae llawer o adeiladau – gan gynnwys canolfannau celfyddydau – y tu allan i ardaloedd trefol yn derbyn cyllid cyhoeddus, naill ai gan awdurdodau lleol neu asiantaethau fel Cyngor y Celfyddydau. Dylai darparwyr cyllid ystyried atodi amodau i'r cyllid hwn bod y lleoedd hyn, lle bo hynny'n bosibl, yn cael eu hagor fel lleoedd ymarfer i gerddorion.

# 3. Datblygu talent: mae angen cyflwyno arfer gorau ledled Cymru

Dylai cymorth a mentora i bobl ifanc yn y diwydiant cerddoriaeth fyw fod ar gael ledled Cymru. Dylid cryfhau cyfleoedd datblygu ar gyfer artistiaid sy'n dod i'r amlwg hefyd i roi mwy o gymorth wedi'i deilwra i'r artistiaid hynny. Rhaid addysgu cerddoriaeth mewn ysgolion mewn ffordd sy'n taro tant gyda bywydau pobl ifanc, ac yn datblygu'r perfformwyr a'r cynulleidfaoedd brwd y mae eu hangen ar gyfer diwydiant ffyniannus.

## Prosiect Forté a'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc: prosiectau "gwych" a ddylai "fod ledled Cymru"

**87.** Mae Prosiect Forté[84] yn rhaglen datblygu artistiaid sy'n gweithio gyda deg artist y flwyddyn yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taff, Caerffili, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae cyllidwyr y Prosiect yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru a Sefydliad y Gymdeithas Hawliau Perfformio. Mae'r cymorth i'r artistiaid ifanc yn cynnwys mentora gan y diwydiant, cyfleoedd perfformio byw a datblygiad personol. Mae Prosiect Forté wedi derbyn cyllid gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru i archwilio'r posibilrwydd o'i gyflwyno ledled Cymru.

**88.** Dywedodd Joedi Langley, pennaeth datblygu sector Cymru, wrth y Pwyllgor:

> "we've funded a feasibility into the Forté BEACONS project, which is exploring the roll-out of that across Wales, but there's an anticipation in that that there will be—. Forté south Wales will continue, but there will be a new Forté north Wales as well."

**89.** Sefydlwyd y Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc[85] (YPN) yn 2010 ac mae'n rhan o raglen Diwydiant Cerddoriaeth Ieuenctid SONIG, a ddarperir gan Wasanaethau Diwylliannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Mae'r rhwydwaith

[84] https://www.forteproject.co.uk/
[85] http://www.youngpromotersnetwork.com/

cyfredol yn cynnwys pobl ifanc, sy'n byw yn Rhondda Cynon Taf, sydd rhwng 14-25 oed, gydag uchelgais i greu digwyddiadau cerddoriaeth fyw ac yn y broses, hyrwyddo actau ifanc sy'n dod i'r amlwg. Ariennir y Rhwydwaith gan raglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru[86]

**90.** Spike Griffiths a Joss Daye sy'n rhedeg Prosiect Forté ac YPN. Disgrifiodd Mr Griffiths wrth y Pwyllgor sut y maent yn gweld:

> "a lot of young people who possess wonderful talents, but they've got no access to the music industry, they've got no sense of what they can do in music, and they've got no music community to gravitate to."[87]

**91.** Disgrifiodd Mr Daye yr effaith drawsnewidiol y gall cerddoriaeth ei chael ar fywydau pobl ifanc:

> "I think understanding oneself and exploring your ideas of who you are as a person is something that music in particular is excellent at doing. Particularly for me, it enabled me to find out who I was, what I wanted to be."[88]

**92.** Disgrifiodd yr effaith gadarnhaol yr oedd gweithio yn y prosiectau hyn wedi'i chael ar ei ddatblygiad cyffredinol:

> "Through performing, I think that building up my communication skills, working in teams, working with people, working with lots and lots of different people, working with people that are perhaps older than you as well— learning how to relate to adults properly and in a working environment, I think that is integral."[89]

**93.** Crynhodd Mr Griffiths yr effaith yr oedd Forté yn ei chael ar y bobl ifanc y bu'n gweithio gyda nhw:

> "It's performance, it's doing your best, it's making the right decisions, it's being confident, it's an understanding of values. And all those things then provide a wonderful foundation, one that's going to carry them on

---

[86] **https://llyw.cymru/teuluoedd-yn-gyntaf**
[87] Paragraff 96, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[88] Paragraff 100, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[89] Paragraff 100, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019

> for the rest of their life, not just for the year of which we have them within Forté."[90]

**94.** Dywedodd Ethan Duck, sy'n artist sydd wedi cymryd rhan ym Mhrosiect Forté:

> "Having those connections for advice and everything was amazing and crucial, to be honest. I don't know what we would've done without constant guidance from Spike and Joss and everyone else at Forté."[91]

**95.** Dim ond pethau cadarnhaol oedd gan dystion y siaradodd y Pwyllgor gyda hwy i'w dweud am Brosiect Forté ac YPN. Disgrifiodd Bethan Elfyn Forte fel prosiect ffantastig[92] , a disgrifiodd John Rostron nhw fel prosiectau ardderchog[93] Esboniodd Mr Rostron:

> "It's just ignited these young people in these poor areas who have aspirations, and it's completely open. It's not just about artistic—it's people who want to be a photographer or they want to put on a show, and they all muck in and do it."[94]

**96.** Aeth ymlaen i alw am ei ehangu ledled Cymru:

> "But it's only in five boroughs at the moment. [...] they should be a pan-Wales—.[...]That is what is needed across Wales, because when you think about the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015, that's at the heart of what Spike and the guys have been doing for five years, and to roll that out across Wales so that everybody in every borough had access to that—...
>
> Naturally, there's become a relationship between them and Horizons, where artists at Forté, who tend to be younger, less confident, not necessarily wanting—they're just exploring their creativity—perhaps build up some resilience and then move into something like Horizons, which is a bit more like the music industry—you're moved about, rough

[90] Paragraff 107, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[91] Paragraff 139, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[92] Paragraff 277, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019
[93] Paragraff 55, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[94] Paragraff 55, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019

> and tough. So, on the artistic side, that would be my big recommendation."[95]

**97.** Ym mis Tachwedd 2020, ar ôl cam cyntaf gwaith y Pwyllgor, ehangwyd Prosiect Forté ledled Cymru, gan ddefnyddio cyllid gan Gyngor y Celfyddydau a Sefydliad PRS. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith ei fod wedi'i ehangu yn adlewyrchu cynnydd mewn cyllid ar gyfer y sefydliad, ond y cyrhaeddiad daearyddol cynyddol o ddarparu cefnogaeth ddigidol yn ystod y pandemig. Fel arfer byddai Forté yn gweithio gyda 10 artist dros flwyddyn. Bydd y peilot ehangu yn eu gweld yn gweithio gyda 6 artist dros 6 mis.

**98.** Galwodd Rhydian Dafydd o'r band The Joy Formidable am fwy o fuddsoddi mewn helpu pobl ifanc i wneud cerddoriaeth:

> "I do worry that, unless we expose young people and get them involved—say there's funding for them to get in and have studio time and get into the fun element of just creating music and expressing—then we're going to miss a trick, because they just haven't grown up being used to that and so they don't know any different. That's definitely a concern of mine: that, culturally, it's almost like people become, possibly in many areas, a bit apathetic in terms of going to shows. I think we need to change people's perceptions, and the only way you do that, I think, is by investing in it."[96]

**99.** Dywedodd Spike Griffiths ynglŷn ag ehangu, "it's always been a thing that I would really love to do"[97]. Disgrifiodd y gwaith manwl y byddai ei angen i roi'r cymorth y mae'n ei roi mewn nifer o awdurdodau lleol yn ne Cymru ar hyn o bryd ledled y wlad yn y dyfodol, a fyddai'n galw am gysylltiadau ag unigolion a sefydliadau lleol, gan gynnwys addysg uwch.

## Gorwelion

**100.** Gorwelion[98] yw rhaglen datblygu talent a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Cymru a BBC Cymru Wales, sy'n gweithio gyda 12 artist bob blwyddyn. Esboniodd Cyngor y Celfyddydau sut mae'r rhaglen hon yn gweithio:

[95] Paragraff 153, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[96] Paragraff 343, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020
[97] Paragraff 134, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019
[98] www.bbc.co.uk/programmes/articles/1WhvnGjVSWVwMTtLw0GXkJ8/what-is-horizons-gorwelion

> "The aims of this project are to develop emerging talent – in both languages –and help it find a platform, using the BBC (online, radio, TV and links to BBC network) and other opportunities (A&R events, showcase slots, festival stages). It also offers "Launchpad", a simple annual fund that artists can apply to for seed funding for projects to take the next step in their career.
>
> In the four years that the programme has been running, we've had a number of success stories and there has been no drop in demand. There were over 200 applications this year. We're also seeing progress in terms of a vast increase in women applying and these from urban and MOBO genres. The project has built recognition in the industry, with strong relationships with key sector events (Great Escape, Focus Wales, Liverpool Sound City) as well as supporting live music opportunities across Wales."[99]

**101.** Siaradodd Bethan Miller (ffotograffydd), Siân Adler a Lewys Mann (y ddau yn fideograffwyr) gyda staff y pwyllgor yng nghynhadledd diwydiant cerddoriaeth gŵyl Sŵn[100]. Fe wnaethant alw am fwy o gymorth i rolau nad ydynt yn gerddorol yn y diwydiant, fel y rhai y maent hwy'n eu cynrychioli, a rheolwyr. Tynnodd Siân Adler sylw at yr effaith gadarnhaol y byddai hyn yn ei chael ar gadw talent yng Nghymru.

**102.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> "rydym ni wedi bod yn trafod, ac efallai hoffai Joedi ddweud rhywbeth am hyn—efo Sgiliau Cymru'n benodol i weld sut y gallwn ni fod yn fwy positif yn sicrhau bod yr economi gelfyddydol, yr economi gerddorol, yn gweithio, ac mae yna opsiynau rydym ni wedi eu trafod gyda'r gwahanol fusnesion. Mi fyddai hwnna'n rhywbeth byddwn i'n disgwyl i Gymru Greadigol dalu sylw penodol iddo fo gan fy mod i'n rhagweld Cymru Greadigol yn gweithio ar y ffin yna rhwng celfyddyd fel busnes a busnes yn creu celfyddyd, mewn gwirionedd."[101]


---

[99] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru

[100] Cynhadledd Diwydiant Cerddoriaeth Gŵyl Sŵn, 18 Hydref 2019

[101] Paragraff 85, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 13 Chwefror 2020

### Cymorth datblygu talent sydd ar gael yng Nghymru




Ffynhonnell: Luke Thomas (Ymgeisydd PhD ym Mhrifysgol De Cymru)

## Cerddoriaeth mewn addysg: dylid rhannu arfer gorau, a dylid dysgu cerddoriaeth mewn ffordd sy'n cysylltu â bywydau pobl ifanc

**103.** Nid oedd addysg gerddoriaeth ffurfiol - a ddarperir trwy ysgolion a gwasanaethau cerddoriaeth awdurdodau lleol - yn brif ffocws i'r ymchwiliad hwn, er ei bod yn anorfod bod eu rôl o ran datblygu talent wedi codi wrth drafod gyda rhanddeiliaid.

**104.** Sawl gwaith yn ystod yr ymchwiliad cyfeiriwyd at Ysgol Lewis ym Mhengam fel enghraifft dda o'r ffordd y gall addysg statudol baratoi pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth yn y diwydiant cerddoriaeth fyw. Dywedodd cyflwynydd y BBC, Bethan Elfyn, wrth y Pwyllgor:

> "Lewis School, Pengam, have done field trips to Radio 1 with their music students, and they've got a track record of being in touch, I suppose, with the music industry and even contacted me, saying, 'These are the artists that have come from our school who are now working in music.' And they're very good at getting those musicians and artists to go back and discuss it with other students."[102]

**105.** Dywedodd Spike Griffiths, sy'n rhedeg Prosiect Forté a'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc, wrth y Pwyllgor:

> "There are some great examples of schools doing really good work, though—Lewis Pengam in Caerphilly. I'm there quite frequently, and I see—. [...] all the boys—line the corridors. You can't work your way out, because everyone's playing music in the corridors. It's a great example of a teacher who's motivated, has a great vision, young people who can connect with that teacher, and they have great facilities because that teacher goes out seeking funding."[103]

**106.** Rhoddodd Bethan Jenkins, sy'n addysgu cerddoriaeth yn Ysgol Lewis, dystiolaeth i'r Pwyllgor.[104] Disgrifiodd sut yr oedd defnyddio meddalwedd cynhyrchu cerddoriaeth modern, ymgysylltu â'r diwydiant a chyfraniadau parhaus gan gyn-fyfyrwyr llwyddiannus wedi creu awyrgylch brwdfrydig mewn perthynas â dysgu cerddoriaeth. O ganlyniad, mae tua hanner eu disgyblion yn dewis gwneud TGAU cerddoriaeth, llawer mwy na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 7 y cant.

[102] Paragraff 291, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

[103] Paragraff 205, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019

[104] Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 16 Ionawr 2020

**107.** Gwnaeth Gŵyl y Dyn Gwyrdd yr achos y gall buddsoddi mewn addysg gerddoriaeth mewn ysgolion ehangu mynediad at y diwydiant cerddoriaeth:

> "Early investment in music in schools, develops both the musicianship and the passion for making music and is key to encouraging more young people to consider a career in music and performance. It also offers an inclusive music opportunity for all, and not just for children whose parents are willing to offer and can afford music lessons. If every Welsh child had an opportunity to learn a musical instrument what an incredible investment that would be into their lives and what a strong statement that would make to the world.
>
> Wales has been highly successful in developing acting talent, and most successful Welsh actors will claim their early experiences in Welsh youth drama organisations has helped them achieve their goals. Artists and bands should be saying the same."[105]

**108.** Cododd UK Music bryderon yn ei dystiolaeth ynghylch y gostyngiad yn y cofrestriadau ar gyfer TGAU cerddoriaeth yng Nghymru: gostyngiad o 24 y cant rhwng 2013-14 a 2017-18. Yn eu barn nhw:

> This has an impact on the live sector pipeline of performing and technical talent, and it is important that the reasons for such a decline are explored.[106]

**109.** Nododd yr Athro mewn Dadansoddi Cerddoriaeth Boblogaidd Paul Carr ei farn ynglŷn â sut y dylai addysg gerddoriaeth mewn ysgolion fod yn berthnasol yn ddiwylliannol o ran y modd y caiff ei chyflwyno a'i hasesu[107]:

> "Across the UK there is an over-emphasis, in my opinion, on the classical canon. I'm not disputing its importance and not suggesting in a million years that it needs to be reduced in any way, but in my view, through looking at some of the curriculums across the UK, there could definitely be, first of all, I think more emphasis on commercial music, but the big thing for me isn't just including popular music in the school curriculum—that's tokenistic, in my view. We've got to assess it right, and at the moment, in my view, it's being assessed through a Eurocentric, classical lens... The assessment isn't fit for purpose in a lot

---

105 Tystiolaeth ysgrifenedig Gŵyl y Dyn Gwyrdd

106 Tystiolaeth ysgrifenedig UK Music

107 Paragraff 341, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

> of instances… So, yes, I think music needs to be culturally relevant in the delivery and its assessment."[108]

**110.** Mae cerddoriaeth yn un o'r pum disgyblaeth ym Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol yn fersiwn derfynol Llywodraeth Cymru o'r Cwricwlwm i Gymru 2022 a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020. Mae'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm yn cyfeirio at yr angen i ystyried 'arddulliau, genres a thestunau creadigol ar draws pob disgyblaeth a'r rheiny'n rhychwantu pobl, lleoedd, diwylliannau ac amser' wrth ddylunio'r cwricwlwm.

Ein barn ni

**Dylai cymorth a mentora i bobl ifanc yn y diwydiant cerddoriaeth fyw fod ar gael ledled Cymru.** Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ardderchog am lwyddiant Prosiect Forté a'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc yn ne Cymru, sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n creu cerddoriaeth neu sy'n ymwneud â hyrwyddo digwyddiadau byw. Mae'r prosiectau hyn yn helpu i hybu mynediad cyfartal at y diwydiant - rhywbeth sydd wedi'i danseilio gan ostyngiad yn y cyllid ar gyfer addysg gerddoriaeth a ddarperir trwy awdurdodau lleol.

Nid yw'r twf personol y mae pobl ifanc yn ei brofi trwy'r prosiectau hyn yn gyfyngedig i sgiliau cerddorol a chynhyrchu. Yn hytrach, mae cerddoriaeth yn gyfrwng ardderchog sy'n galluogi pobl ifanc i fagu hyder a sgiliau trosglwyddadwy eraill a fydd yn eu helpu i lwyddo mewn unrhyw lwybr y maent yn dewis ei ddilyn mewn bywyd.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu Prosiect Forté gan ddefnyddio'r rhyddid a roddir gan gyflwyno digidol yn ystod y pandemig i weithio ledled Cymru. Mae angen cynnydd mewn cyllid i gyd-fynd â'r estyniad daearyddol hwn fel y gall pobl ifanc ledled Cymru gael budd o'r cymorth helaeth a oedd ar gael yn flaenorol drwy Forte yn ne Cymru. Ymhlith yr opsiynau ar gyfer cyflawni hyn mae:

- Ariannu'r tîm y tu ôl i Forté ac YPN i ehangu eu gwasanaethau ledled Cymru.
- - Rhoi'r cymorth hwn trwy asiantaeth datblygu cerddoriaeth newydd i Gymru.

Sut bynnag y rhoddir y cymorth hwn, dylai'r tîm presennol y tu ôl i Forté ac YPN ymwneud yn uniongyrchol â dylunio'r rhaglen. Byddd Cyngor Celfyddydau Cymru yn adolygu pa sefydliadau celfyddydol y mae'n rhoi cyllid refeniw

[108] Paragraff 341, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

blynyddol iddynt yn 2021. Dylai roi ystyriaeth ddwys i ariannu sefydliad ledled y wlad i gefnogi pobl ifanc yn y diwydiant cerddoriaeth fyw.

Mae'r rhaglen Gorwelion yn darparu cyfleoedd gwych i artistiaid ifanc. Trwy ddefnyddio rhwydwaith digwyddiadau'r BBC, yn ogystal â chysylltiadau'r rhai sy'n rhedeg Gorwelion yng Nghymru, gall artistiaid sy'n dod i'r amlwg chwarae mewn digwyddiadau sy'n eu hamlygu i gynulleidfaoedd newydd ac yn caniatáu iddynt dyfu fel perfformwyr. Yr hyn sy'n ymddangos yn ddiffygiol - oherwydd prinder adnoddau, heb os - yw mentora un-i-un ar gyfer yr artistiaid dan sylw. Clywsom pa mor ddefnyddiol yw'r lefel hon o gymorth pan y'i rhoddir i artistiaid ifanc Forté - ni welwn unrhyw reswm dros feddwl na fyddai hyn hefyd yn helpu cerddorion yng ngham nesaf eu gyrfaoedd. **Dylid ehangu'r rhaglen Gorwelion** fel bod artistiaid yn cael mwy o gyngor a chymorth datblygu gyrfa i'w helpu i fynd â'u gyrfaoedd i'r lefel nesaf.

Mae amryw fentrau - fel Gorwelion a Chronfa Cyfleoedd Rhyngwladol Cyngor y Celfyddydau - yn darparu cyfleoedd i gerddorion o Gymru ddatblygu eu gyrfaoedd y tu allan i Gymru. Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod unrhyw strategaeth sy'n rhoi arweiniad o ran sut mae'r gwaith hwn yn digwydd. **Dylai fod strategaeth, fframwaith a brand clir ar gyfer cyflwyno cerddoriaeth o Gymru y tu allan i Gymru**, pa un a yw hyn mewn digwyddiadau yn y DU (ond sydd â chynulleidfaoedd rhyngwladol) fel The Great Escape a Liverpool Sound City, neu dramor (megis SXSW, Folk Alliance International a M For Montreal).

Un rheswm pam fod artistiaid sy'n dod i'r amlwg yn gadael Cymru yw oherwydd **prinder y gweithwyr proffesiynol ar wahân i'r rhai cerddorol y mae eu hangen ar gyfer diwydiant cerddoriaeth llwyddiannus**, fel rheolwyr, hyrwyddwyr ac asiantau. Dylai gwaith datblygu talent gynnwys cymorth i'r proffesiynau hyn. Byddai hyn yn ein galluogi i gadw mwy o'n cerddorion talentog, a'r gwerth o'r eiddo deallusol y maent yn ei gynhyrchu.

Mewn ymchwiliad blaenorol yn edrych ar wasanaethau cerdd awdurdodau lleol ("Taro'r tant"),[109] gwnaethom alw am sefydlu ensemblau roc a phop. Dyma un ffordd y gellir annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn cerddoriaeth.

Mae llwyddiant Lewis Pengam yn dangos **potensial llawn dysgu cerddoriaeth mewn ysgolion gan ddefnyddio dulliau ac arddulliau cyfoes**. Teimlwn y bydd dadansoddiad o gerddoriaeth arall ochr yn ochr â chanon glasurol y gorllewin yn helpu disgyblion i ddatblygu cariad gydol oes at gerddoriaeth. Bydd hyn yn

[109] https://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld11595/cr-ld11595-w.pdf

eu hannog i greu a pherfformio trwy gydol eu hoes, yn ogystal â bod yn aelodau gweithredol ac angerddol o'r gynulleidfa y mae ar gerddoriaeth fyw ei hangen i ffynnu.

**Argymhelliad 11.** Dylai cymorth a mentora i bobl ifanc yn y diwydiant cerddoriaeth fyw – fel yr hyn oedd ar gael yn flaenorol trwy Brosiect Forté a'r Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc yn ne Cymru – fod ar gael dros Gymru gyfan a dylai gynnwys proffesiynau fel rheolwyr, hyrwyddwyr ac asiantau. Dylai Cyngor Celfyddydau Cymru roi ystyriaeth ddwys i ariannu sefydliad o'r fath ledled y wlad yn ystod ei adolygiad buddsoddi.

**Argymhelliad 12.** Dylid ehangu'r rhaglen Gorwelion fel bod artistiaid yn cael mwy o gyngor a chymorth datblygu gyrfa i'w helpu i fynd â'u gyrfaoedd i'r lefel nesaf.

**Argymhelliad 13.** Dylid dysgu cerddoriaeth mewn ysgolion mewn ffordd sy'n cydnabod gwerth llawn cerddoriaeth gyfoes. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ystod eang o genres, gan gynnwys cerddoriaeth boblogaidd gyfoes a cherddoriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, yn cael eu haddysgu o dan y Cwricwlwm newydd i Gymru.

# 4. Gweithgarwch awdurdodau lleol: mae angen llais uwch ar y diwydiant cerddoriaeth mewn prosesau penderfynu

Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i gydnabod pwysigrwydd cerddoriaeth yn eu cymunedau. Mae cerddoriaeth fyw dan fygythiad, a dylid ei chefnogi ar bob lefel o ran llunio polisïau'r Llywodraeth. Dylid sefydlu byrddau cerddoriaeth ledled Cymru i ddarparu rhyngwyneb rhwng awdurdodau lleol a'r diwydiant cerddoriaeth.

**111.** Mae llawer o'r polisïau sy'n cael effaith ar leoliadau cerddoriaeth fyw - sef cynllunio, trwyddedu ac ardrethi busnes - yn cael eu cyflawni gan lywodraeth leol. Mae materion sy'n ymwneud â chynllunio ac ardrethi busnes yn benodol wedi bod yn gysylltiedig â lleoliadau yng Nghymru sydd naill ai wedi cau - fel The Point ym Mae Caerdydd - neu wedi bod dan fygythiad o gau - fel y lleoliadau ar Stryd Womanby yng Nghaerdydd.

**112.** Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Cyngor Caerdydd adroddiad i sector cerddoriaeth y ddinas, a luniwyd gan yr ymgynghoriaeth Sound Diplomacy.[110] Mae'r adroddiad yn gwneud 12 o argymhellion strategol a allai, o'u hymgorffori'n llawn yn Strategaeth Gerdd Caerdydd, weld:

- Creu digwyddiad/gŵyl unigryw ryngwladol fawr ac arddangosfa artistiaid;
- Sefydlu Bwrdd Cerdd i'r ddinas i gynrychioli a hyrwyddo Caerdydd fel Dinas Gerdd gyntaf y DU;
- Penodi Swyddog Cerdd - a ddisgrifir fel y prif argymhelliad yn yr adroddiad;

[110] https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Business/Support-and-Finance-for-Business/cardiff-music-board/Documents/Astudiaeth%20Ecosystem%20Cerddoriaeth%20Caerdydd%20ac%20Argymhellion%20Strategol%20%E2%80%93%20Crynodeb%20Gweithredol.pdf

- Uwchgynllun ar gyfer Ardal y Castell sy'n tynnu sylw at ei safle unigryw ym myd cerddoriaeth Caerdydd;
- Adnewyddu ac ailwampio Neuadd Dewi Sant i greu Neuadd Gyngerdd Genedlaethol Cymru wedi'i hadfywio;
- Diwygio'r polisïau trwyddedu presennol a chyflwyno parthau Llwytho gan Gerddorion mewn lleoliadau yng nghanol y ddinas; a
- Creu strategaeth farchnata twristiaeth Dinas Caerdydd.

**113.** Yn dilyn hynny, sefydlodd Cyngor Caerdydd Fwrdd Cerddoriaeth ym mis Hydref 2019, a fydd yn dod ag arbenigwyr y diwydiant ynghyd i roi cyngor i'r Cyngor a datblygu Strategaeth Gerdd.[111]

**114.** Pan gyhoeddwyd y Bwrdd Cerddoriaeth, dywedodd Arweinydd Cyngor Caerdydd, Huw Thomas, wrth y BBC:

> "Our ambition is to transform Cardiff into the first UK city where music is incorporated into its structure - that means everything from planning and licensing to social well-being and tourism."[112]

**115.** Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, disgrifiodd y Cynghorydd Thomas y Bwrdd:

> "I see it as a delivery vehicle, to be honest. Because, when you look at the recommendations from the music strategy, a number of them quite clearly can only be delivered holistically through joint working between the council, between other public bodies, and the industry. So, the music board really is a convening of the different people that are going to deliver that strategy, first and foremost. The elephant in the room is funding, because there are certain recommendations that we cannot deliver without funding."[113]

**116.** Wrth drafod y posibilrwydd y byddai awdurdodau lleol eraill yn dilyn esiampl Caerdydd o ran sefydlu byrddau cerddoriaeth, meddai'r Cynghorydd Thomas:

> "I guess the question for them is whether they have enough sense of scale to make that exercise worthwhile individually or whether they expect it to be done collectively. I suspect some of the challenges that

---

[111] www.cardiffnewsroom.co.uk/releases/c25/22650.html

[112] www.bbc.co.uk/news/uk-wales-50220114

[113] Paragraff 154, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

> emerged through our report, particularly around licensing and planning, are also ones that would be affecting other local authorities. But it's possible, and perhaps, through the Welsh Local Government Association, that the learning in Cardiff can be incorporated elsewhere."[114]

**117.** Dywedodd y rhai a ddaeth i weithdy'r Pwyllgor yn Wrecsam y byddai byrddau cerddoriaeth rhanbarthol yn darparu rhyngwyneb defnyddiol rhwng y diwydiant a llywodraeth leol. Roeddent yn teimlo nad yw awdurdodau lleol ar hyn o bryd yn ddigon ymwybodol o statws arbennig lleoliadau cerddoriaeth, sy'n endidau hanner-a-hanner diwylliannol a masnachol. Cefnogodd Alun Llwyd o PYST y cynnig i sefydlu byrddau cerddoriaeth rhanbarthol, gan ddweud:

> "Os oes modd mynd â'r math o fyrddau yna, neu'r math o baneli yna, lle mae ymgynghoriad call yn digwydd gyda nid yn unig yr arbenigwyr ond hefyd y gynulleidfa botensial, yna mae hynna'n amlwg yn rhywbeth y dylid ei annog ar bob cyfrif."[115]

**118.** Mynegodd Dilwyn Llwyd o Neuadd Ogwen rwystredigaeth ynghylch ei berthynas â Chyngor Gwynedd, a dywedodd fod byrddau cerddoriaeth rhanbarthol yn "andros o syniad da"[116] "Dwi'n teimlo ychydig bach yn isolated ar y funud", eglurodd, "a dwi'n siŵr bod lot o ganolfannau neu hyrwyddwyr yn teimlo o'r un fath"[117]

**119.** Yng ngweithdy'r Pwyllgor yng Nghaerdydd dywedodd rhai o'r bobl a oedd yn bresennol eu bod yn teimlo bod awdurdodau lleol yn blaenoriaethu gweithgarwch yn y dydd dros weithgarwch gyda'r nos. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys yr anawsterau y mae bandiau yn eu hwynebu wrth geisio dadlwytho offer ger lleoliadau, ac i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn barod i hwyluso digwyddiadau chwaraeon mewn ffordd na fyddent ar gyfer digwyddiadau cerdd, yn eu tyb hwy. Nododd un perchennog lleoliad fod cefnogwyr pêl-droed yn ymladd yn cael eu derbyn fel canlyniad naturiol i rai digwyddiadau chwaraeon. Awgrymodd y byddai ei lleoliad yn cael ei gau i lawr pe bai'r rheiny'n ddilynwyr cerddoriaeth sy'n ymgiprys â'i gilydd.

---

[114] Paragraff 160, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

[115] Paragraff 127, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

[116] Paragraff 47, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

[117] Paragraff 243, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

**120.** Tynnodd y rhai a oedd yn bresennol sylw hefyd at yr anawsterau y mae trafnidiaeth gyhoeddus wael yn eu creu o ran mynediad at gerddoriaeth fyw. Rhannwyd y pryderon hyn gan Brosiect Forté, sy'n gweithio gydag artistiaid ifanc. Cydnabu'r Cynghorydd Thomas y problemau hyn pan siaradodd gyda'r Pwyllgor:

> "In Cardiff, we have a situation where there are no trains running late at night, there are no buses running late at night, or it's a far more limited provision. What impact does that then have on the health of the sector?"[118]

**121.** Nododd Gŵyl y Dyn Gwyrdd effaith amgylcheddol teithio yn y diwydiant cerddoriaeth fyw, gan ddweud:

> "Using fossil fuels for travel and in particular flights and audience vehicles is an issue and alternative and less impactful forms of travel need to be considered."[119]

**122.** Clywsom sylwadau gan artistiaid ifanc am fygythiadau i ddiogelwch personol, yn enwedig aflonyddu ac ymosodiadau rhywiol, mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw. Disgrifiodd yr artist Missy G sut y gall awydd i gymryd rhan mewn creu cerddoriaeth roi menywod mewn sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed. Mae hi bellach yn rhan o Ladies of Rage, rhwydwaith sy'n cefnogi menywod mewn genres cerddorol lle mae dynion yn fwy amlwg.

### Ein barn ni

Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i gydnabod pwysigrwydd cerddoriaeth yn eu cymunedau. Mae cerddoriaeth fyw dan fygythiad, a dylid ei chefnogi ar bob lefel o ran llunio polisïau'r Llywodraeth. Dylid sefydlu byrddau cerddoriaeth ledled Cymru i ddarparu rhyngwyneb rhwng awdurdodau lleol a'r diwydiant cerddoriaeth. Dylai awdurdodau lleol ystyried esiampl Lerpwl, sydd i'w gweld fel petai wedi sefydlu'r bwrdd cerddoriaeth mwyaf llwyddiannus yn y DU.

Byddai rhoi cyfle i'r diwydiant ac awdurdodau lleol fynd ati'n rheolaidd i drafod materion sy'n effeithio ar gerddoriaeth fyw - megis cynllunio, ardrethi busnes, trwyddedu a pharcio - yn helpu i ddatblygu polisïau mewn ffordd sydd o fudd i bawb sy'n gysylltiedig. Mae cau stiwdio Arches yn dangos yr hyn sy'n digwydd

118 Paragraff 133, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

119 Tystiolaeth Ysgrifenedig Gŵyl y Dyn Gwyrdd

pan fydd awdurdod lleol yn gweithredu heb wybodaeth dda am y diwydiant cerddoriaeth sy'n weithredol ar drothwy ei ddrws.

Mae poblogaeth Caerdydd a'i statws fel prifddinas yn teilyngu bodolaeth bwrdd cerddoriaeth ar gyfer Caerdydd yn unig. Ond mewn ardaloedd mwy gwledig efallai yr hoffai awdurdodau lleol ystyried un bwrdd sy'n rhoi cyngor i nifer o awdurdodau lleol yn y rhanbarth.

Mae trafnidiaeth gyhoeddus wael yn amlwg yn rhwystr i fynediad at gerddoriaeth fyw, yn enwedig i bobl sy'n byw y tu allan i ganolfannau trefol. Un ffordd o fynd i'r afael â hyn yw i leoliadau weithio gyda darparwyr trafnidiaeth i ddarparu tocynnau ar y cyd sy'n talu cost trafnidiaeth gyhoeddus ochr yn ochr â'r tocyn ar gyfer y digwyddiad (am gost is na phrynu'r ddau ar wahân).

Mae sefydlu bwrdd cerddoriaeth Cyngor Caerdydd, a maint yr uchelgais y mae wedi'i ddangos yn y maes hwn yn rhywbeth sydd i'w groesawu. Meddai Arweinydd y Cyngor, Huw Thomas, "doing what we can to protect those current venues first is where you should start, and then look to grow".[120] Mae angen sicrhau mai gweithred gyntaf y Cyngor a'i Fwrdd Cerddoriaeth yw archwilio pam fod lleoliadau bach yn cau yn y ddinas, a beth ellir ei wneud i wyrdroi'r duedd hon.

Rydym yn pryderu am adroddiadau ynghylch aflonyddu ac ymosodiadau rhywiol sy'n digwydd mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw. Byddai byrddau cerddoriaeth yn darparu lle da i drafod sut i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac efallai nad yw llawer o ddigwyddiadau'n cael eu gwneud yn hysbys i'r heddlu a'u bod felly'n mynd heb eu canfod fel arall.

**Argymhelliad 14.** Dylid sefydlu byrddau cerddoriaeth ledled Cymru i ddarparu rhyngwyneb rhwng awdurdodau lleol a'r diwydiant cerddoriaeth. Dylai'r rhain chwarae rhan weithredol yng ngwaith yr awdurdodau lleol i ddatblygu polisïau sy'n effeithio ar y diwydiant cerddoriaeth, gan gynnwys cynllunio, trwyddedu, ardrethi busnes, diogelwch personol a thrafnidiaeth.

## Cynllunio: dylai'r system gynllunio fynd ati i hyrwyddo cerddoriaeth fyw

Dylid monitro effaith yr egwyddor gynllunio 'asiant newid' yn agos i sicrhau ei bod yn amddiffyn lleoliadau cerddoriaeth fyw rhag cwynion sy'n deillio o

[120] Paragraff 245, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

ddatblygiadau newydd gerllaw. Dylai cynlluniau datblygu awdurdodau lleol nodi mannau lle gall gweithgarwch diwylliannol ddigwydd mewn datblygiadau newydd yn yr un ffordd ag y maent yn ystyried mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac amwynderau eraill.

## Cynllunio: dylid monitro effaith yr egwyddor "cyfrwng newid"

**123.** Mae'r egwyddor asiant dros newid yn golygu bod yn rhaid i'r rhai sy'n gyfrifol am wneud newid hefyd fod yn gyfrifol am reoli effaith y newid hwnnw. Yn achos cerddoriaeth fyw, gallai hyn olygu ei bod yn ofynnol i ddatblygwr adeilad preswyl newydd ger lleoliad cerddoriaeth fyw bresennol gynnwys camau lliniaru sŵn yn rhan o'r datblygiad newydd.

**124.** Yn 2017, yn dilyn deiseb yn galw am gyflwyno'r newid hwn er mwyn gwarchod lleoliadau cerddoriaeth fyw, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd i awdurdodau lleol gymhwyso'r egwyddor "cyfrwng newid" i ystyriaethau cynllunio ar unwaith[121]. Daeth y newid hwn ar ôl ymgyrch uchel ei broffil, "Save Womanby Street", stryd yng Nghaerdydd sy'n gartref i nifer o leoliadau cerddoriaeth fyw, ac yr oedd ymgyrchwyr yn teimlo ei bod dan fygythiad gan gais cynllunio i ddatblygu adeilad gwag.[122]

**125.** Mae'r egwyddor hon bellach wedi'i gwreiddio ym mhrif ddogfen polisi cynllunio Llywodraeth Cymru, Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi:

> "Defnyddir yr egwyddor cyfrwng newid yn sylfaen i gefnogi economi gyda'r nos a datblygu defnyddiau sy'n sensitif i seinweddau canolfannau masnachol prysur."[123]

**126.** Dywedodd Gerwyn Evans, dirprwy gyfarwyddwr Cymru Greadigol, wrth y Pwyllgor:

> "There's a consultation on the agent for change, which is open now, so I think the key thing for us as Creative Wales is to get many of our stakeholders to feed into that consultation, to feed in their views on the agent of change, so that when that consultation comes in, we can work with others in Government to see if there is any potential for change."[124]

---

[121] e-Ddeiseb: Diogelu Cerddoriaeth Fyw yng Nghymru

[122] www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-41435564

[123] https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

[124] Paragraff 115, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 13 Chwefror 2020

**127.** Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gwneud nifer o gyfeiriadau at werth diogelu gweithgarwch diwylliannol - fel cerddoriaeth fyw - o fewn y broses gynllunio. Er enghraifft, mae'n disgrifio gwerth "clystyrau diwylliannol a chreadigol" (byddai Womanby Street yng Nghaerdydd – lleoliad Clwb Ifor Bach – yn ymddangos yn enghraifft wych o hyn):

> "Mae busnesau creadigol a diwylliannol (fel theatrau, canolfannau cerdd a chelf) yn tueddu i ffynnu mewn amgylcheddau sy'n rhannu gofod, ac mae canolfannau yn helpu i greu lleoedd amrywiol, bywiog a hyfyw sy'n ddeniadol i fusnesau cysylltiedig a'r rhai nad ydynt yn gysylltiedig. Yn draddodiadol, mae canolfannau o'r fath yn tyfu o'r gwaelod i fyny, ac mae llywodraeth leol a'r llywodraeth ganolog yn cyflawni swyddogaeth galluogi bwysig. Mae tystiolaeth yn dangos bod y canolfannau hyn yn esblygu o wreiddiau cymharol gyffredin yn aml, gan ddefnyddio adeiladau rhad sy'n wag yn aml.
>
> Wrth greu cynlluniau datblygu, dylai awdurdodau cynllunio ystyried y clystyrau creadigol a diwylliannol hyn yn eu canolfannau manwerthu a masnachol, ac os yn briodol, dylent geisio nodi'r ardaloedd hyn gyda pholisïau diogelu cysylltiedig, er mwyn sicrhau bod eu cyfraniad yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi."[125]

**128.** Cyflwynwyd y cysyniad o "greu lleoedd" ym mholisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn 2018 fel ffordd o roi nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Nodir fel a ganlyn ym Mhynllunio Cymru:

> "Dylai'r system gynllunio greu mannau cynaliadwy sy'n ddeniadol, yn gymdeithasol, yn hygyrch, yn actif, yn ddiogel, yn groesawgar, yn iach ac yn gyfeillgar. Dylai cynigion datblygu greu'r amodau i ddod â phobl ynghyd a'u gwneud eisiau byw, gweithio a chwarae mewn ardaloedd lle mae ymdeimlad o le a llesiant gan greu ffyniant i bawb."[126]

**129.** Gwnaeth Rhiannon Bryan o The Joy Formidable y pwynt y gall dinasoedd - yn enwedig yng Ngogledd America - ffynnu oherwydd eu cysylltiad â cherddoriaeth:

> "There are cities in the States where their entire urban economy is based on them being a music city. Take Nashville and Memphis and all these cities that are bulging with tourists and also with musicians. There's music on constantly when you walk down so many of the

[125] https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

[126] https://llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru

> streets. [...] We've got a really great basis for being able to create more of that."[127]

**130.** Cynigiodd rhai tystion fesurau ychwanegol i warchod lleoliadau cerddoriaeth fyw. Datblygodd Music Venues Trust a UK Music y cysyniad o ddefnyddio hawddfreintiau sŵn i warchod lleoliadau cerddoriaeth presennol rhag cwynion ynglŷn â sŵn gan gymdogion newydd.

**131.** Nid yw eu defnydd yn eang ac maent yn parhau i fod heb eu profi yn y tymor hir, ond dywedwyd bod hawddfreintiau sŵn wedi'u defnyddio i ganiatáu i leoliadau, fel clybiau nos, wneud sŵn hyd at y lefelau presennol heb fygythiad cwynion gan drigolion am ddatblygiadau newydd.[128] Un dull posibl fyddai trafod hawddfreintiau sŵn rhwng lleoliadau cerdd a datblygwyr yn ystod y broses gynllunio.

**132.** Fe wnaeth trafodaethau'r Pwyllgor gyda thystion amlygu tensiwn sy'n ymhlyg yn egwyddor parthau diwylliannol. Er mai bwriad parthau yw gwarchod ardaloedd lle mae gweithgarwch diwylliannol yn digwydd, gall gael effaith anfwriadol getoeiddio gweithgarwch diwylliannol yn yr ardaloedd hyn, yn hytrach na galluogi iddo ffynnu ar draws dinas. Amlygodd y Cynghorydd Thomas y tensiwn hwn yn ei drafodaeth ynglŷn â pharthau diwylliannol:

> "I can see the argument for it. Areas like Womanby Street are excellent examples of how that could work, and, if you were to do that, then, certainly, that gives you a red line on the map that you could look at business rate relief around as well, for example. But, clearly, ultimately, you want to be able to spin out these types of venues into other parts of the city as well. So, I think it's a difficult balance to strike. But let's recognise where we are, the health of the industry, and the challenge that the industry's facing that, as I said, a third of UK venues have closed. I think doing what we can to protect those current venues first is where you should start, and then look to grow."[129]

**133.** Fel y soniwyd ym Mhennod 1, roedd cau Gwdihŵ ar Gilgant Guildford yng Nghaerdydd yn un o'r materion a ysbrydolodd y Pwyllgor i ymchwilio i sefyllfa cerddoriaeth fyw. Roedd Gwdihŵ yn lleoliad bach a gaeodd, ynghyd â sawl busnes bach arall, ar ôl i'r landlord benderfynu peidio ag adnewyddu eu prydlesi.

---

[127] Paragraff 370, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 22 Ionawr 2020

[128] www.bbc.co.uk/news/uk-england-london-25642151

[129] Paragraff 245, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

Mae'r stryd - un o'r ychydig strydoedd yng nghanol y ddinas sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif - bellach wedi'i dymchwel, heblaw am y ffasadau. Pan drafododd y Pwyllgor y mater hwn gyda'r Cynghorydd Thomas, dywedodd "it wasn't a planning issue that led to the closure of Gwdihŵ … because there still hasn't been a planning decision on what goes on that site":

> "But, clearly, there's a planning dimension. […] the fundamental issue there was that you had a site in private ownership, and the owners decided they wanted to do something different with it. I met with them and I tried to persuade them otherwise, but they have their reasons for wanting to do that. It's difficult to criticise a private owner for wanting to do something with their own piece of land. Where I would want to get to is that the ecosystem in Cardiff is sufficiently strong that, if a venue has to move, there's an opportunity for them to relocate somewhere else.
>
> In terms of the planning process, I think we have moved on, particularly through the adoption of the agent of change principle into the latest Welsh Government planning policy. I think that's extremely helpful. But planning is something that, as councillors, we tear our hair out about regularly. It's a quasi-judicial process, strictly governed by legislation, and, if a council committee takes a decision based on its gut feeling, it'll end up in front of the Planning Inspectorate and, at considerable legal expense, they'll find against the council. So, it is challenging generally."[130]

**134.** Yn dilyn sesiwn y Pwyllgor gyda Chyngor Caerdydd, cyflwynwyd cais gan landlordiaid Ten Feet Tall, lleoliad cerddoriaeth bach yng Nghaerdydd, i newid defnydd yr adeilad.[131] Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cymeradwyo, ac mae'r adeilad ar fin dod yn fwyty a siopau.

### Ein barn ni

Mae'r egwyddor 'cyfrwng newid' yn un sydd i'w chroesawu, er y dylid monitro ei heffaith yn fanwl i weld a yw'n llwyddo i warchod lleoliadau cerddoriaeth fyw presennol rhag bygythiadau a ddaw yn sgîl datblygiadau newydd. Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori â'r Music Venues Trust i sicrhau nad yw'r egwyddor cyfrwng newid yn cael ei chamddefnyddio gan ddatblygwyr, er

[130] Paragraff 238, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019
[131] PP 08410529

enghraifft, trwy gymryd darlleniadau o lefelau sŵn ar adegau anghynrychiadol o'r dydd.

**Dylid gwarchod lleoliadau cerddoriaeth fyw sydd wedi ennill eu plwyf ac wedi'u hintegreiddio yn eu cymunedau rhag cwynion ynglŷn â sŵn sy'n deillio o ddatblygiadau newydd gerllaw.** Pe na bai'r egwyddor cyfrwng newid yn rhoi digon o gefnogaeth i leoliadau yn hyn o beth, dylai awdurdodau cynllunio ystyried mesurau eraill, megis y dull "hawddfreintiau sŵn" a hyrwyddir gan UK Music a'r Music Venues Trust.

Mae'r Pwyllgor yn siomedig y bydd y newidiadau a gynigiwyd gan landlordiaid Ten Feet Tall i ddefnydd yr adeiladau yn arwain at golli lleoliad arall yng Nghaerdydd. Byddai'n demtasiwn galw am bolisïau cynllunio pellach sy'n atal rhag cau lleoliadau cerddoriaeth fyw, trwy rwystro landlordiaid rhag newid defnydd lleoliadau presennol. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod angen sicrhau cydbwysedd manwl: gall polisïau i atal newid defnydd lleoliadau gael effaith anfwriadol o ran atal rhai newydd rhag agor, gan bod landlordiaid yn amharod i ymgymryd â busnesau sy'n cyfyngu ar eu rhyddid yn y modd hwn. Rydym yn annog Bwrdd Cerddoriaeth Caerdydd i helpu'r Cyngor i adolygu ei bolisïau cynllunio i sicrhau eu bod yn galluogi lleoliadau cerddoriaeth fyw i ffynnu.

**Ni ddylai cerddoriaeth fyw gael ei hystyried gan awdurdodau cynllunio fel dim byd ond problem i'w lliniaru, ond yn hytrach fel cyfle i ddatblygu ardaloedd trefol.** Mae dinasoedd yng Ngogledd America fel Nashville a Memphis yn dangos sut y gall cerddoriaeth ddenu twristiaid a datblygu'r economi leol. Dylai cynllunwyr ddefnyddio sîn gerddoriaeth ddwyieithog fywiog Cymru – sy'n unigryw yn y DU - fel offeryn datblygu pwerus.

Mae'r gwerthoedd cymdeithasol a diwylliannol a glywsom yn cael eu priodoli i gerddoriaeth - dod â phobl ynghyd a galluogi dinasyddion i ddatblygu eu creadigrwydd - yn gyfystyr â'r cysyniad o greu lleoedd a gyflwynwyd ym mholisi cynllunio Cymru yn 2018. Dyma ymgais Llywodraeth Cymru i wneud nodau datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhan o'r system gynllunio, ac mae'n rhywbeth i'w groesawu[132]. Dylai cynlluniau datblygu awdurdodau lleol nodi mannau lle gall gweithgarwch diwylliannol ddigwydd mewn datblygiadau newydd yn yr un ffordd ag y maent yn ystyried mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac amwynderau eraill. **Er mwyn i ddinasyddion ffynnu**

[132] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

mae angen iddynt gymdeithasu a chreu, ac mae angen cefnogi hyn yn y system gynllunio.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Music Venues Trust i adolygu effeithiolrwydd yr egwyddor cynllunio cyfrwng newid. Os canfyddir tystiolaeth sylweddol bod datblygiadau newydd yn effeithio'n andwyol ar leoliadau cerddoriaeth presennol, dylai gryfhau polisïau i warchod lleoliadau presennol, gan gynnwys ystyried defnyddio hawddfreintiau sŵn, fel a argymhellwyd gan UK Music a'r Music Venues Trust.

**Argymhelliad 16.** Dylai cynlluniau datblygu awdurdodau lleol nodi mannau lle gall gweithgarwch diwylliannol ddigwydd mewn datblygiadau newydd yn yr un ffordd ag y maent yn ystyried mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus ac amwynderau eraill.

Stiwdio ymarfer The Arches: astudiaeth achos ar golli ased diwylliannol

Stiwdio ymarfer ym mwâu'r bont reilffordd yng nghanol Caerdydd oedd The Arches. Caeodd yn 2019 yn dilyn blynyddoedd o anghydfodau rhwng y perchennog, yr awdurdod cynllunio a datblygwyr datblygiad swyddfeydd newydd yn union o flaen y stiwdio. Roedd stiwdio The Arches yn boblogaidd gyda bandiau ifanc gan ei bod yn fforddiadwy ac yn cynnig mynediad da at drafnidiaeth gyhoeddus.

Cysylltodd Tom Pinder, a oedd yn rhedeg y stiwdio, â'r Pwyllgor i egluro'r amgylchiadau a arweiniodd at gau ei fusnes:

*When developers applied for planning permission to build immediately outside our studios, which would also have involved cutting off the road we used to access the premises and also causes inevitable conflicts of interest in terms of noise, it became clear that the council Planning Officers involved weren't really aware of our existence. When I first got in touch with him the Planning Officer attached to the case told me that he assumed that the arches were unused. Presumably this is because the shutters were quite often locked during the daytimes, and we deliberately didn't have any external signage at that time, but I obviously had the studios registered with the council for business rates, commercial waste collection and various other things.*

*I don't think they'd have had a statutory obligation to consult us about the planning application anyway, but it would have been useful to have been*

*involved from the beginning so we could work together with the council and the developers to ensure that everyone could be kept happy.*

*As a small business it was always easier for people to ignore us, or to just not notice us, but if the council is serious about wanting to protect and promote music provision within the city they ought to be aware that small businesses like ours don't have the clout, knowledge or contacts to effectively advocate for themselves in these kind of circumstances, especially when compared to large developers. This therefore means that the council, and their planning department in particular, ought to be much more pro-actively engaging with music businesses in the vicinity of planned developments, to open a conversation between all interested parties at an early stage.*

*When we started raising awareness of the planning issues back in 2016 I found that several individual Councillors we contacted were very helpful, but the planning system itself is set up in such a way that it actively engages with the big developers who want to build, and actively ignores (in my experience) the very small businesses that happen to already be trading on that site, and making a valuable cultural contribution to the city, albeit under the radar.*

*If there was someone at the council to help us to advocate our position, or a system in place to help us to engage from an early stage, I think my studios would still be running today, alongside the new development. At the end of the day we were completely supportive of the development that was happening right outside our doors, we just hoped we could be helped to continue to trade whilst the development went ahead.*

*My business has now closed, despite the fact that it was always busy and was a valuable resource for a lot of Cardiff's musicians. The railway arches that we occupied had been used by bands for at least 25 years, and it's a shame that not only will they will never be used for the same purpose again, but also it's unlikely that any similar provision will ever exist in the city centre again due to lack of suitable alternative buildings and prohibitive start-up costs.*

## Trwyddedu: dylai lleoliadau gael mwy o fewnbwn

Dylai amodau trwyddedu a roddir ar leoliadau mewn perthynas â diogelwch fod yn rhesymol ac yn gymesur, a'i gwneud yn haws iddynt gynnal digwyddiadau i rai dan 18 oed. Dylid treialu rhoi mwy o fewnbwn i leoliadau yn y broses o bennu eu gofynion diogelwch. Mae angen mwy o ymwneud gan y diwydiant â'r system drwyddedu i ddileu proffilio hiliol wrth asesu risg digwyddiadau cerddoriaeth fyw.

## Dylai'r gofynion diogelwch fod yn gymesur

**135.** Nid yw trwyddedu darpariaeth adloniant a gwerthu a chyflenwi alcohol yn feysydd sydd wedi'u datganoli - maent yn parhau i fod yn bwerau a gadwyd yn ôl gan San Steffan. Awdurdodau lleol sy'n trwyddedu, ac mae ganddynt rywfaint o ddisgresiwn o ran sut i orfodi deddfwriaeth berthnasol.

**136.** Yn berthnasol i leoliadau bach, gwnaeth Deddf Cerddoriaeth Fyw 2012[133] ddiwygio Deddf Trwyddedu 2003[134] ("y Ddeddf Drwyddedu") fel nad oes angen trwydded ar gyfer perfformiad cerddoriaeth fyw mwyach os yw'n digwydd rhwng 8am ac 11pm i gynulleidfa o ddim mwy na 500 o bobl. Dywedodd UK Music wrth y Pwyllgor nad yw'r Ddeddf Trwyddedu yn dweud dim am hyrwyddo diwylliant, ond ei bod yn canolbwyntio yn hytrach ar leihau niwed.[135]

**137.** Pan siaradodd y Pwyllgor gyda lleoliadau clywsant am wahanol brofiadau o'r system drwyddedu gan leoliadau mewn gwahanol awdurdodau lleol. Disgrifiodd Guto Brychan o Glwb Ifor Bach ei brofiad o newidiadau yn y system drwyddedu sydd wedi'i gwneud hi'n anoddach i bobl ifanc fynychu gigs:

> "Un o'r problemau pennaf dwi wedi ei weld—a dwi wedi bod yn gweithio yng Nghlwb Ifor Bach ers dros 25 mlynedd erbyn hyn—yw ei bod hi dipyn yn anoddach i bobl ifanc fynd i weld cerddoriaeth fyw mewn llefydd bach fel Clwb—grass-roots music venues. Yn enwedig pobl 14 i 18 oed. Mae lot o hynny oherwydd newidiadau i reolau trwyddedu. Mae lot yn anoddach i bobl dan 18 i fynd i'r llefydd yma. A beth sy'n digwydd, i ryw raddau, wedyn, yw bod eu profiadau cerddoriaeth cyntaf nhw wedyn yn dueddol o fod yn y llefydd mawr fel Motorpoint neu arenas, ac wedyn maen nhw'n meddwl mai dyna'r profiad o fynd i weld cerddoriaeth fyw."[136]

**138.** Nododd hefyd yr hyn a deimlai oedd anghyfiawnder rhwng y modd y mae canolfannau celfyddydol a lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad yn cael eu trin yn y system drwyddedu:

> "Mae ein gigs ni yn Clwb yn dal 250 o bobl i fyny grisiau; yn unol â'r rheolau trwyddedu buasai angen pedwar o bobl diogelwch arnom ni, so mae hynny'n £250 yn ychwanegol at y gig, cyn sôn am dalu bandiau

---

[133] www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/2/contents/enacted

[134] www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/17/contents

[135] Paragraff 50, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

[136] Paragraff 3, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 26 Medi 2019

> a dim byd arall. Pe buasech chi'n cael gig yn Neuadd Dewi Sant i bron i 1,000 o bobl, neu dros 1,000 o bobl, maen nhw ond angen cwpwl o bobl diogelwch i edrych ar ôl pobl yn dod mewn ac i sicrhau eu bod nhw'n dod allan."[137]

**139.** Mewn cyferbyniad, roedd Samantha Dabb o Le Public Space yn ganmoliaethus iawn wrth sôn am ei phrofiad hi o dîm trwyddedu Casnewydd:

> "I don't have any issues with Newport licensing; they're wonderful. They are really brilliant people whom, if I go to them and I want to do something, they will go out of their way to find ... a way to fit that into my licence."[138]

**140.** Ategwyd y farn gadarnhaol hon gan Gary Lulham o Sin City Abertawe, a nododd bod yr awdurdod trwyddedu yn darparu ar gyfer sioeau pob oed.[139]

**141.** Cynigiodd John Rostron fodel trwyddedu i'r Pwyllgor a oedd yn caniatáu i leoliadau ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am ddiogelwch yn eu digwyddiadau. Dywedodd y dylai cynghorau fynd ati fel hyn: "give the responsibility to the experts—simple as that".[140] Gallai'r dull hwn olygu bod awdurdodau trwyddedu'n cymryd mwy o sylw o'r mewnbwn gan weithredwyr lleoliadau ar faterion fel penderfynu pa lefel o ddiogelwch y byddai ei hangen arnynt ar gyfer digwyddiadau unigol er mwyn creu amgylchedd diogel.

**142.** Galwodd Cyngor Celfyddydau Cymru ar awdurdodau lleol i gymryd fwrw golwg bragmatig ar drwyddedu, gan ddweud "these spaces could offer much to under 18s if they could only access them"[141].

**143.** Disgrifiodd Betsan Moses, Prif Weithredwr yr Eisteddfod Genedlaethol, ofynion diogelwch a osodwyd gan yr awdurdod trwyddedu ar yr Eisteddfod, a oedd yn awgrymu yn ei thyb hi bod Maes B yn "cael ei edrych arno fel gŵyl sy'n ymdebygu i Glastonbury". Fe greodd hyn sefyllfa lle, ar rai adegau, roedd yna "fwy o bobl diogelwch yno [...] na beth sydd yna o gynulleidfa", a greodd awyrgylch

---

[137] Paragraff 68, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 26 Medi 2019

[138] Paragraff 206, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 26 Medi 2019

[139] Paragraff 209, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 26 Medi 2019

[140] Paragraff 76, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019

[141] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru

"anghysurus". Awgrymodd y gallai hyn fod oherwydd diffyg dealltwriaeth, naill ai am natur y digwyddiad neu'r ddeddfwriaeth drwyddedu.[142]

**Trwyddedu a phobl ifanc: astudiaeth achos ar yr effaith y gall y system drwyddedu ei chael ar artistiaid ifanc**

Pan siaradodd gyda'r Pwyllgor, rhannodd Spike Griffiths, sy'n rhedeg y rhaglen datblygu talent Prosiect Forté, ei brofiadau o effaith y system drwyddedu ar yr actau ifanc y mae'n gweithio gyda nhw:

*Licencing is problematic; it has been for as long as I can remember it. I've worked in different local authorities and it varies from one place to the next, in terms of the uncertainties sometimes that a young person faces in terms of entry to a venue can change. I have a really heartbreaking story that I'll tell you quickly.*

*The fact is that we were working with a young band from Merthyr, who were cutting their teeth in Merthyr, doing really well. We were supporting them. They were ready to play Cardiff, and they went down. They found their own way to Cardiff. I was assured that one of the parents would be there. They got there, they set up behind closed doors, sound checking, of course. When the manager, I presume, came around, he got cold feet. He thought this band weren't old enough. The band—half of them had relevant ID, but they'd gone there on the pretext this was a younger audience anyway. He froze and decided that they weren't playing that night.*

*They were there, they were sound checking, so the ultimatum, or even maybe the offer he gave to them, was that they could play, but they'd have to play behind closed doors. So, that young band from Merthyr went all the way down to play to no-one behind closed doors—no-one saw them, nothing.*

*It was their first ever time in Cardiff. They left, they had no way of getting home. They had to get on the train, they carried all their gear back home. They lived in different areas of the valley, and trains are very difficult to get back. And that was all to do with fear of licensing and how it would affect the venue there and then. And that really, ultimately, affected the band—it put them four steps back in a position which should have put them four steps forward.*[143]

[142] Paragraff 130, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

[143] Paragraff 232, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 6 Tachwedd 2019

**144.** Galwodd y Music Venue Trust am arweiniad ar weithredu Deddf Trwyddedu. Cyfeiriodd at amodau trwyddedu beichus sy'n ei gwneud yn anos i leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad na chanolfannau'r celfyddydau i gynnal gigs i bobl ifanc, ac yn golygu gofynion costus ar gyfer staff ar y drws.[144]

**145.** Galwodd tystiolaeth ysgrifenedig Trac am ddatganoli trwyddedu adloniant cyhoeddus i Gymru er mwyn ei gwneud yn bosibl cyflwyno "business rate discounts in exchange for demonstrably programming so many hours of live music".[145]

**146.** Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor:

> "The licensing requirements will be certainly considered as part of the activity of Creative Wales, because it's precisely placed here between the commercial activity and the community or locality interest, and the relationship to both the business and to the artistic activity. We are aware of the issue of disparity in licensing between music venues and other cultural venues, and we will certainly expect Creative Wales to address this."[146]

**147.** Dywedodd dirprwy gyfarwyddwr Cymru Greadigol, Gerwyn Evans ymhellach:

> "It's been brought up at the Cardiff Music Board, and other stakeholders have mentioned to us the disparity between different acts having different levels of licensing requirements. So, it's definitely something that's on our radar to work with the Welsh Local Government Association"[147]

**148.** Mater a godwyd yng ngweithdy'r Pwyllgor yn y Tramshed oedd proffilio hiliol ymddangosiadol wrth ddynodi digwyddiadau yn rhai "risg uchel". Roedd hyn yn golygu y bernir bod gan ddigwyddiadau a oedd fel rheol â chynulleidfaoedd mawr nad oeddent yn wyn – fel nosweithiau 'grime' – ofynion diogelwch uwch, a all wneud digwyddiadau o'r fath yn gostus i'w cynnal. Codwyd y mater hwn yn adroddiad Pwyllgor Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Tŷ'r Cyffredin ar gerddoriaeth fyw.[148] Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor ar y pryd, Damien Collins AS:

---

[144] Tystiolaeth ysgrifenedig y Music Venue Trust

[145] Tystiolaeth ysgrifenedig Trac

[146] Paragraff 136, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 13 Chwefror 2020

[147] Paragraff 137, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 13 Chwefror 2020

[148] **https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmcumeds/733/733.pdf**

> "It's shocking to hear that grime artists are continuing to face prejudice, which risks hampering the success of one of our most successful musical exports."[149]

**149.** Cydnabu Clwb Ifor Bach eu bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r awdurdod lleol ynghylch proffilio hiliol yn ôl pob golwg ar gyfer digwyddiadau, ond na fyddent yn ymhelaethu ar y manylion.[150] Dywedodd UK Music wrth y Pwyllgor fod gan swyddogion trwyddedu ragfarnau weithiau am genres modern fel 'grime' a 'drill', sy'n lliwio penderfyniadau trwyddedu.[151] Dywedodd Ruth Cayford o Gyngor Caerdydd: "through the music board, we need to look further into this, because it's obviously a serious problem that we need to resolve."[152] Dywedodd y byddai'r Bwrdd Cerddoriaeth yn cynnwys fforwm diogelwch cerddoriaeth fyw i edrych yn benodol ar y materion hyn[153], ac eraill gan gynnwys mynediad at gerddoriaeth fyw i bobl ifanc.

**150.** Rhoddodd yr heddluoedd fanylion inni sy'n dynodi sut y maent yn asesu risg a achosir gan ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw. Fe wnaethant ddisgrifio dull sy'n seiliedig ar gudd-wybodaeth, lle'r oedd llawer o ffactorau'n cael eu hystyried, gan gynnwys ymddygiad blaenorol gan artistiaid a hyrwyddwyr. Nododd Heddlu Dyfed Powys:

> "The type of event is taken into account, some types of music do attract a certain age group and may have linked behaviours, such as drugs or excess alcohol."[154]

**151.** Disgrifiodd Heddlu De Cymru eu dull wrth ymdrin â gig yn Undeb Myfyrwyr Caerdydd gan yr artist 'drill' Headie One. Ar y pwynt hwn, roedd erlyniad ar y gweill yn erbyn Headie One am drosedd â chyllell a thrywaniad difrifol a ddigwyddodd gefn llwyfan yn un o'i ddigwyddiadau blaenorol. Yn unol â hynny, gosodwyd gofynion diogelwch ychwanegol ar y digwyddiad i leihau'r risg o droseddau cyllyll, ac fe aeth y digwyddiad rhagddo heb unrhyw drafferth.[155]

---

[149] **https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/digital-culture-media-and-sport-committee/news/live-music-report-published-17-19/**

[150] Paragraff 83, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 26 Medi 2019

[151] Paragraff 68, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

[152] Paragraff 202, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

[153] Paragraff 206, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

[154] Tystiolaeth ysgrifenedig Uned Gyswllt yr Heddlu

[155] Tystiolaeth ysgrifenedig Uned Gyswllt yr Heddlu

**152.** Amlinellodd y Cynghorydd Huw Thomas yr heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth geisio gosod amodau priodol ar leoliadau cerddoriaeth fyw i gadw pobl yn ddiogel. Nododd fod yr amodau trwyddedu sy'n ymddangos yn llym yn rhannol yn adlewyrchu'r angen i reoli risg o ganlyniad i'r niferoedd bach sydd gan yr heddlu:

> "On an average Saturday night, you will have, probably, only 14 policemen policing the city centre. There's probably more people guarding this building *(the Senedd)* than there are guarding Cardiff on a Saturday night. So, they are right to be concerned about their resourcing, and I think that is reflected, then, in the ask that they put into the licensing process."[156]

**153.** Dywedodd Jon Day, Pennaeth Polisi Economaidd Cyngor Caerdydd, mai cyfathrebu oedd un o'r problemau yr oedd lleoliadau yn eu hwynebu wrth ymgodymu â'r system drwyddedu. Roedd yn optimistaidd y dylai'r bwrdd cerddoriaeth newydd helpu yn hyn o beth:

> "The aim of bringing the music board together is that those people are together in one group, so rather than conversations taking place in various different offices elsewhere, it's in one place, which makes it easier, I suppose, to tackle those issues."[157]

**154.** Ysgrifennodd y Cynghorydd Thomas at y Pwyllgor yn egluro rolau'r heddlu a'r awdurdod trwyddedu wrth bennu gofynion diogelwch mewn digwyddiadau byw:

> "Whilst local authorities in Wales act as the Licensing Authority, the Police are the key Responsible Authority in relation to the prevention of crime and disorder and employ Officers who act independently from local Councils in visiting venues and discussing these matters with owners and promoters. Whilst we maintain close liaison with the Police, local authorities will only have an administrative role if agreement can't be reached between a venue and the Police, in which case the matter proceeds to a Licensing Hearing where Members will hear the evidence. In practice, agreement is normally reached between the Police and venues without any involvement of local authorities."[158]

---

[156] Paragraff 188, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

[157] Paragraff 197, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 16 Hydref 2019

[158] Tystiolaeth ysgrifenedig Cyngor Caerdydd

**155.** Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â mater proffilio hiliol posibl mewn trwyddedu, dywedodd y Dirprwy Weinidog fod dathlu natur amlddiwylliannol ac aml-hil yn ganolog i gymdeithas.

> "I think the celebration of the multiracial, multicultural nature of our society in Wales is central to any approach to this issue, and there must never be any suggestion that we do not recognise the cultural and community activities of all citizens to be of equal value, and, indeed, that diversity is a public good."[159]

Ein barn ni

**Dylai amodau trwyddedu a roddir ar leoliadau mewn perthynas â diogelwch fod yn rhesymol ac yn gymesur, a'i gwneud yn haws iddynt gynnal digwyddiadau i rai dan 18 oed.** Clywodd y Pwyllgor fod mwy o ofynion diogelwch yn cael eu gosod ar leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad na theatrau a chanolfannau celfyddydol, mewn ffordd nad yw'n adlewyrchu lefel y risg a achosir gan ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw yn y lleoliadau hyn. Mae'r dull hwn nid yn unig yn gosod costau uwch ar leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad, ond mae hefyd yn ei gwneud hi'n anos i bobl ifanc berfformio mewn gigs a'u mynychu. Un dull a awgrymwyd wrth y Pwyllgor oedd model trwyddedu a oedd yn caniatáu i leoliadau gael mwy o fewnbwn i'r broses o bennu gofynion diogelwch priodol yn eu digwyddiadau. Mae gan y syniad hwn ei rinweddau, a dylai gael ei dreialu gan awdurdodau trwyddedu, hyd y bo'n bosibl o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol. Gweithredwyr lleoliadau yw'r arbenigwyr, a dylai awdurdodau trwyddedu roi mwy o bwys ar eu barn ar ba ofynion diogelwch y mae eu hangen i greu amgylchedd diogel.

Clywsom gan leoliadau yng Nghaerdydd fod eu hamodau trwyddedu yn feichus heb fod angen. Fodd bynnag, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau diogelwch yng nghanol dinas brysur, sydd eisoes wedi cael problemau gyda thrais sy'n gysylltiedig ag alcohol. Rydym yn optimistaidd y dylai'r Bwrdd Cerddoriaeth newydd yng Nghaerdydd helpu'r cyngor i gymryd agwedd sy'n fwy seiliedig ar gudd-wybodaeth at drwyddedu, a lleihau'r amodau a osodir ar leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad lle bo hynny'n bosibl.

Soniodd nifer o bobl wrthym am **broffilio hiliol yn ôl pob golwg wrth ddynodi digwyddiadau fel rhai "risg uchel".** Mae hyn yn bod digwyddiadau a oedd fel rheol â chynulleidfaoedd mawr nad oeddent yn wyn - fel nosweithiau 'grime' –

[159] Paragraff 144, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu 13 Chwefror 2020

yn cael eu hystyried yn rhai â gofynion diogelwch uwch, a all wneud digwyddiadau o'r fath yn gostus i'w cynnal. Nid yw hyn yn dderbyniol, ac rydym yn galw am berthnasoedd agosach rhwng awdurdodau trwyddedu, yr heddlu a'r diwydiant cerddoriaeth, fel y gellir herio a dileu safbwyntiau rhagfarnllyd o'r fath.

Mae'r honiad gan Heddlu Dyfed-Powys bod rhai mathau o gerddoriaeth yn gysylltiedig â rhai ymddygiadau yn achosi pryder i ni, a byddem yn cwestiynu ar sail pa dystiolaeth y gwneir yr honiad hwn. Rydym yn pryderu y gall y dull sy'n seiliedig ar deipgastio rhai genres yn cael mwy o effaith niweidiol ar gymunedau Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig nag y mae ar atal troseddu.

Dylai'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ymchwilio i'r amodau trwyddedu sydd ynghlwm wrth ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw i asesu i ba raddau y mae'r rhain yn cael eu cymell gan hil. Mae amrywiaeth gerddorol, gan gynnwys genres fel 'grime' a 'drill', yn rhan hanfodol o ddiwylliant bywiog a chreadigol, ac mae angen iddi gael ei chefnogi gan awdurdodau lleol a'r heddlu.

**Argymhelliad 17.** Dylai awdurdodau trwyddedu:

- weithio gyda lleoliadau bach i gytuno ar amodau trwyddedu cymesur, i'r graddau y mae hynny'n bosibl o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol;
- gweithio gyda lleoliadau i'w gwneud hi'n haws iddyn nhw gynnal sioeau pob oed;
- gweithio gyda lleoliadau dibynadwy i roi mwy o fewnbwn iddynt wrth bennu gofynion diogelwch priodol, i'r graddau y mae hynny'n bosibl o fewn y fframwaith cyfreithiol presennol. Gweithredwyr lleoliadau yw'r arbenigwyr, a dylai awdurdodau trwyddedu roi mwy o bwys ar eu barn ar ba ofynion diogelwch y mae eu hangen i greu amgylchedd diogel.

**Argymhelliad 18.** Dylai awdurdodau trwyddedu a'r heddlu weithio gyda'r diwydiant - trwy fyrddau cerddoriaeth os sefydlir y rhain – i wella eu gwybodaeth am y diwydiant cerddoriaeth er mwyn osgoi'r risg o broffilio hiliol mewn penderfyniadau trwyddedu.

**Argymhelliad 19.** Dylai'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu ymchwilio i'r amodau trwyddedu sydd ynghlwm wrth ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw i asesu i ba raddau, os o gwbl, y maent yn cael eu dylanwadu gan ragfarn ddiarwybod ar sail hil . Os canfyddir unrhyw ragfarn, dylai'r heddlu roi camau ar waith i'w atal.

## Cyfraddau Busnes: ni ddylai lleoliadau ar lawr gwlad yng Nghymru fod yn waeth eu byd na'r rhai yn Lloegr

Dylai rhyddhad ardrethi busnes fod ar gael i leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad i gydnabod eu gwerth cymdeithasol a diwylliannol. Os yw Llywodraeth Cymru yn cael cyllid canlyniadol yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ostwng ardrethi busnes ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth fyw yn Lloegr, dylid gwario hyn ar ariannu rhyddhad ardrethi cyfatebol ar gyfer lleoliadau yng Nghymru.

Dylai lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad gael rhyddhad ardrethi busnes i gydnabod eu gwerth diwylliannol a chymdeithasol

**156.** Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon yn seiliedig ar drefniadau cyn y pandemig. Ar hyn o bryd, mae busnesau yn y sectorau lletygarwch, manwerthu a hamdden sydd â gwerth ardrethol o dan £500,000 (sy'n cynnwys pob busnes heblaw am lai na 200) yn derbyn eithriad ardrethi o 100%. Cadwyd y dadansoddiad yn y bennod hon ar y sail mai'r bwriad yw bod y cynlluniau rhyddhad ardrethi sy'n gysylltiedig â'r pandemig yn rhai dros dro, ac ar hyn o bryd nid yw'n hysbys pa gynlluniau fydd yn gweithredu ar ôl y pandemig.

**157.** Mae ardrethi busnes (a elwir weithiau'n ardrethi annomestig neu NDR) wedi'u datganoli'n llwyr i Gymru ers mis Ebrill 2015 ac fe'u cyfrifir fel a ganlyn:




**158.** Yng Nghymru, mae ardrethi busnes yn cael eu casglu gan awdurdodau lleol a'u talu i mewn i 'gronfa' genedlaethol a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Yna, cânt eu hailddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fel rhan o'r Setliad Llywodraeth Leol a Setliad yr Heddlu bob blwyddyn.

**159.** Fel arfer, caiff ardrethi busnes eu hailbrisio bob pum mlynedd. Rhwng prisiad 2010 a phrisiad drafft 2017 gostyngodd werth trethadwy eiddo yng Nghymru. Gwelwyd gostyngiad o 2.9 y cant yn y gwerthoedd ardrethol ar y rhestr ardrethu lleol (y mwyafrif helaeth o eiddo), gyda'r gostyngiad hwn yn cael ei wrthbwyso gan gynnydd o 25.8% yng ngwerth ardrethol yr eiddo sydd ar y rhestr ganolog, megis cwmnïau cyfleustodau a thelathrebu mawr.

**160.** Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn darparu gwahanol fathau o ryddhad ardrethi busnes, er nad yw'r un o'r rhain yn cyfeirio'n benodol at leoliadau cerddoriaeth.

**161.** Mae rhai sefydliadau wedi'u heithrio rhag talu ardrethi busnes. Mae'r rhain yn cynnwys:

- tir ac adeiladau amaethyddol;
- adeiladau a ddefnyddir ar gyfer hyfforddi neu les pobl anabl;
- adeiladau sydd wedi'u cofrestru ar gyfer addoliad crefyddol cyhoeddus a neuaddau eglwys.

**162.** Mae **Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach** yn golygu y gellir eithrio busnesau bach rhag talu ardrethi busnes, neu y gallant gael bil gostyngedig gan ddibynnu ar werth ardrethol yr eiddo.

**163.** Mae **Rhyddhad Trosiannol** yn golygu y bydd bil uwch busnesau bach a wynebodd ostyngiad mewn Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach yn dilyn ailbrisiad 2017 yn cael ei gyflwyno'n raddol dros nifer o flynyddoedd.

**164. Rhyddhad ardrethi elusennol.** Os yw elusen gofrestredig neu glwb chwaraeon amatur cymunedol yn meddiannu'ch eiddo, ac yn ei ddefnyddio at ddibenion elusennol, byddwch yn gymwys yn awtomatig i gael rhyddhad ardrethi gorfodol o 80 y cant.

**165.** Mae **Rhyddhad Ardrethi Stryd Fawr a Manwerthu** yn darparu gostyngiad o hyd at £2,500 yr eiddo y flwyddyn ar gyfer amrywiaeth eang o fusnesau ar y stryd fawr. Nid yw'r rhestr o fathau o fusnesau cymwys yn y canllawiau yn cynnwys lleoliadau cerddoriaeth yn benodol – er hynny, nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol ac nid yw lleoliadau cerddoriaeth wedi'u cynnwys yn y rhestr o fathau o fusnesau anghymwys chwaith.[160] Yn ei dystiolaeth, mae UK Music yn galw am ychwanegu mannau lleol ar gyfer cynnal cerddoriaeth at y rhestr o fathau o fusnesau cymwys.[161] Gall lleoliadau cerddoriaeth fyw yng Nghymru fod yn gymwys i gael rhyddhad ardrethi busnes o dan gynllun y Stryd Fawr a Manwerthu; yn wir mae nifer o leoliadau yn ei gael. Ar hyn o bryd nid yw Llywodraeth Cymru yn gwybod faint o leoliadau sy'n cael y rhyddhad ardrethi hwn, er bod swyddogion yn

[160] https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/Rhyddhad%20Ardrethi%E2%80%99r%20Stryd%20Fawr%20a%20Manwerthu%20yng%20Nghymru%202019%20-%2020.pdf

[161] Tystiolaeth ysgrifenedig UK Music

gobeithio cael data ar hyn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2019-2020. Yn ystod y pandemig cafodd y cynllun hwn ei drawsnewid i bob pwrpas i ryddhad manwerthu, hamdden a lletygarwch a amlinellir ym mharagraff cyntaf y bennod hon.

**166.** Yn ystod yr ymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth y DU fod lleoliadau cerddoriaeth yn Lloegr yn gymwys i gael 50 y cant o ostyngiad i'w bil ardrethi busnes.[162] Er bod y mater hwn wedi'i ddatganoli, roedd nifer o erthyglau yn y wasg yn cyfeirio at y newid hwn yn berthnasol i leoliadau yng Nghymru a Lloegr, ac roedd datganiad i'r wasg Trysorlys EM yn cyfeirio at y DU, ac ni wnaethant sôn bod y newidiadau hyn yn berthnasol yn Lloegr yn unig. Gwnaeth nifer o leoliadau yng Nghymru sylwadau cyhoeddus eu bod yn croesawu'r newid arfaethedig hwn, a hwythau yn ôl pob golwg heb fod yn ymwybodol mai dim ond i leoliadau yn Lloegr yr oedd yn berthnasol.

**167.** Os bydd gostyngiad arfaethedig Llywodraeth y DU ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth yn arwain at gyllid newydd i awdurdodau lleol Lloegr, byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl derbyn swm cyfatebol o arian i'w wario yn unol â'i blaenoriaethau ei hun. Cafodd y gostyngiad arfaethedig hwn mewn ardrethi ar gyfer lleoliadau cerdd yn Lloegr ei ddisodli gan y rhyddhad ardrethi o 100 y cant ar gyfer manwerthu, hamdden a lletygarwch a gyflwynwyd yn ystod y pandemig.

## Effaith Cyfraddau Busnes ar leoliadau ar lawr gwlad

**168.** Dywedodd Cyngor y Celfyddydau wrth y Pwyllgor, "one of the things we'd advocate is around the business rates and music venues being seen in the same way that other cultural venues are seen"[163]. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt am effaith ail-werthuso gwerthoedd ardrethol yn 2017 ar leoliadau, disgrifiwyd y dystiolaeth sydd ar gael fel "hearsay rather than actual evidence"[164].

**169.** Nododd tystiolaeth UK Music "as a result of the 2017 re-evaluation of rateable values business rates have increased for many Grassroots Music Venues across Wales"[165]. Dywedodd Mark Davyd o'r Music Venues Trust wrth y Pwyllgor fod lleoliadau cerddoriaeth llawr gwlad ledled y DU wedi wynebu cynnydd o 38 y cant yn eu cyfraddau busnes yn dilyn yr ailbrisiad hwn.[166]

[162] www.gov.uk/government/news/happy-hour-for-pubs-as-government-cuts-business-rates

[163] Paragraff 76, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

[164] Paragraff 83, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

[165] Tystiolaeth ysgrifenedig UK Music

[166] Paragraff 231, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

**170.** Galwodd nifer o dystion am ostwng ardrethi busnes ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth fyw. Mewn cofnod blog mae John Rostron yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno gostyngiad mewn ardrethi busnes, neu gyflwyno rhyddhad ardrethi busnes, ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth[167]. Mae'r Music Venue Trust yn galw am "a sector specific framework for use by the Valuation Office Agency"[168]. Mewn tystiolaeth lafar, galwodd, fel ateb tymor byr, am:

> "…some sort of temporary relief using existing powers that are available to local government that could be expressed by the national body. So, Welsh Government could say, 'In our opinion, this is a crisis'—which it is in grass-roots music venues—'we should look at either discretionary rate relief, hardship relief or even localism relief as a particular intervention.'"[169]

**171.** Ysgrifennodd Sam Dabb, rheolwr Le Public Space yng Nghasnewydd, erthygl ar gyfer y Wales Arts Review lle galwodd ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi busnes cyfatebol ar gyfer lleoliadau bach i'r un y mae Llywodraeth y DU wedi'i gyhoeddi ar gyfer Lloegr.[170] Esboniodd yr anawsterau economaidd sy'n wynebu'r rhai sy'n rhedeg lleoliadau bach, sut y byddai rhyddhad ardrethi uwch yn helpu, a sut y byddai hyn yn helpu'r sector cerddoriaeth fyw gyfan i dyfu:

> "It's not a business you get into to get rich, and if that is the reason then you quickly get out again. Music venues are closing all over the country and one of the primary reasons is financial. Sometimes because we can't afford to do maintenance on our buildings, sometimes because we can't afford the legal fees to fight noise complaints, and sometimes, quite simply because we can't afford to pay the bills. If implemented in Wales the suggested rate relief will have a huge and lasting impact on Welsh music. Every artist playing an arena today started out in a small room with a dirty floor and run down toilets."[171]

**172.** Gwnaeth Neal Thompson o FOCUS bwynt tebyg, gan ddweud wrth y Pwyllgor y dylai lleoliadau cerddoriaeth gael rhyddhad ardrethi penodol i

[167] https://medium.com/@john_rostron/what-can-be-done-to-support-music-venues-in-wales-acfa38ececcc

[168] Tystiolaeth ysgrifenedig y Music Venue Trust

[169] Paragraff 234, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 2 Hydref 2019

[170] www.walesartsreview.org/news-grassroots-music-venues-and-rate-relief/

[171] www.walesartsreview.org/news-grassroots-music-venues-and-rate-relief/

gydnabod eu harwyddocâd diwylliannol a'u rôl hanfodol yn y diwydiant cerddoriaeth:

> "I think they're still being treated very much like rateable high-street businesses, and they're not; you know, they're culturally significant places. As you've quite rightly pointed out, they're the seeding ground for a whole music economy."[172]

**173.** Awgrymodd Daniel Minty, sy'n rhedeg Minty's Gig Guide to Cardiff, y dylid cysylltu rhyddhad ardrethi busnes â lleoliadau sy'n dangos eu hymrwymiad i gerddoriaeth leol: er enghraifft, trwy raglennu nifer benodol o ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw y flwyddyn.[173]

### Ein barn ni

**Dylai rhyddhad ardrethi busnes parhaol fod ar gael i leoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad i gydnabod eu gwerth cymdeithasol a diwylliannol.** I ddechrau, dylid ychwanegu lleoliadau cerddoriaeth ar lawr gwlad at y rhestr o fusnesau sy'n gymwys i gael Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu. Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd gan eu byrddau cerddoriaeth newydd i ddarparu rhyddhad dros dro wedi'i dargedu lle mae bodolaeth lleoliad dan fygythiad a lle byddai ei golli er anfantais i'r gymuned.

Ni ddylai lleoliadau cerddoriaeth yng Nghymru fod â biliau ardrethi busnes uwch na lleoliadau yn Lloegr. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth nad yw'r heriau sy'n wynebu lleoliadau cerddoriaeth yng Nghymru yr un fath - os nad yn fwy - na'r rhai yn Lloegr. Os yw lleoliadau yn Lloegr yn parhau i dderbyn rhyddhad ardrethi yn dilyn y pandemig, rhaid i Lywodraeth Cymru fynd ar ôl y Trysorlys i weld a ddylai dderbyn dyraniad cyllid canlyniadol Barnett. Os ydyw, dylai ddefnyddio hwn i ariannu cynllun cyfatebol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud bod lleoliadau cerddoriaeth yn gymwys ar gyfer ei chynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr a Manwerthu, ond eto nid yw'n gwybod faint o leoliadau sy'n ei gael. Mae angen i Lywodraeth Cymru gasglu data cywir ynghylch faint o leoliadau cerddoriaeth sy'n cael y rhyddhad ardrethi hwn fel y gall asesu a oedd y polisi hwn yn helpu'r sector cerddoriaeth fyw mewn modd effeithiol.

---

[172] Paragraff 67, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 30 Ionawr 2020

[173] https://www.facebook.com/mintysgigguide/videos/262521271356098/

Roedd yn siomedig bod Trysorlys y DU a'r wasg wedi methu â nodi mai dim ond yn Lloegr yr oedd rhyddhad ardrethi busnes Llywodraeth y DU ar gyfer lleoliadau cerdd yn berthnasol. Arweiniodd hyn at ddryswch, a siom heb os, ymhlith gweithredwyr lleoliadau cerddoriaeth yng Nghymru. Mae'r sefyllfa hon yn amlygu'r angen am wasanaeth cyngor cerddoriaeth arbenigol i gynghori'r sector yng Nghymru.

Pan fyddant yn ailagor i'w capasiti llawn, mae'n debygol y bydd lleoliadau cerddoriaeth treulio o leiaf blwyddyn heb fasnachu fel lleoliadau. Mae'n debygol bod y cronfeydd ariannol wrth gefn ganddynt wedi'u gwagio, a'u bod yn wynebu costau ychwanegol wrth wneud lleoedd ac offer gweithredol sydd wedi cael eu hatal ers mis Mawrth 2020. Felly mae'n rhaid i leoliadau cerddoriaeth fyw barhau i dderbyn gostyngiadau mewn ardrethi busnes pan fyddant yn gallu dychwelyd i weithgaredd llawn.

**Argymhelliad 20.** Dylai lleoliadau cerddoriaeth fyw barhau i dderbyn rhyddhad ardrethi busnes i helpu iddynt adfer o'r pandemig. Dylai unrhyw olynydd tymor hir i gynllun Rhyddhad Ardrethi'r Stryd Fawr ac Ardrethi Manwerthu fod yn glir bod lleoliadau cerddoriaeth fyw yn fusnesau cymwys.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru gasglu data yn rheolaidd – a'i rannu a'r Pwyllgor – ynghylch faint o leoliadau sy'n cael y rhyddhad ardrethi hwn fel y gall asesu a yw'r polisi hwn yn effeithiol wrth helpu'r sector cerddoriaeth fyw.

**Argymhelliad 22.** Dylid defnyddio unrhyw gyllid ychwanegol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i ostwng cyfraddau busnes ar gyfer lleoliadau cerddoriaeth yn Lloegr i ddarparu rhyddhad ardrethi cyfatebol ar gyfer lleoliadau yng Nghymru. Ni ddylai lleoliadau yng Nghymru wynebu biliau ardrethi busnes uwch na lleoliadau yn Lloegr.

# 5. Pandemig y coronafeirws

Nid yw'r gwaharddiad cyffredinol parhaus ar ddigwyddiadau cerddoriaeth fyw, heb linell amser ar gyfer ailagor, yn briodol mwyach. Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r cyrffyw 10pm yn aneglur a gall fod yn wrthgynhyrchiol. Mae cefnogaeth gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn amserol ac â ffocws, ond mae angen mwy o gefnogaeth – gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y

DU – i sicrhau bod y diwydiant yn goroesi erbyn diwedd y pandemig.

## Mae cerddoriaeth fyw yn parhau i fod wedi'i gwahardd

**174.** Ar 20 Mawrth gorchmynnwyd i leoliadau cerddoriaeth fyw, ynghyd â lleoliadau diwylliannol eraill gau ledled y DU. Gweithredwyd rheolau'r cyfyngiadau symud ledled y DU i ddechrau ond, gan fod iechyd wedi cael ei ddatganoli, mae'r gwledydd cyfansoddol ers hynny wedi newid y cyfyngiadau hyn mewn gwahanol ffyrdd.

**175.** Roedd perfformiadau dan do yn bosibl yn Lloegr rhwng canol mis Awst a'r cyfyngiadau symud diweddar, ond yng Nghymru mae lleoliadau cerddoriaeth fyw wedi aros ar gau ers mis Mawrth trwy Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) 2020, fel y'u diwygiwyd.

**176.** Gwaherddir lleoliadau eraill, fel tafarndai, rhag cynnal cerddoriaeth fyw. Ni chaniateir i leoliadau gynnal perfformiadau byw, gan gynnwys drama, comedi neu gerddoriaeth, o flaen cynulleidfa fyw. Mae'r cyfyngiad ar berfformiadau byw yn cynnwys perfformiadau gan DJs. Ni chaniateir digwyddiadau cyhoeddus awyr agored, wedi'u trefnu gyda mwy na 30 o bobl.

**177.** Cafodd cynlluniau'r Pwyllgor i gyhoeddi fersiwn o'r adroddiad hwn ym mis Mawrth eu canslo ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau symud cyntaf. Cynhaliodd y Pwyllgor waith brys mewn ymateb i'r pandemig dros y gwanwyn a'r haf, cyn dychwelyd at y pwnc cerddoriaeth fyw dros ddau ddiwrnod o gasglu tystiolaeth ym mis Tachwedd. Hefyd comisiynodd y Gwasanaeth Ymchwil yn y Senedd yr Athro Paul Carr ym Mhrifysgol De Cymru i lunio astudiaeth gymharol o gefnogaeth i gerddoriaeth fyw yn ystod y pandemig yng Nghymru a gwledydd eraill. Cyflwynodd ei ganfyddiadau i'r Pwyllgor ar 19 Tachwedd 2020, a gellir darllen ei adroddiad gorffenedig yma.

## Mae cefnogaeth i'r sector wedi atal cau lleoliadau yn eang am y tro

**178.** Mae'r ymateb i'r pandemig wedi gweld lefelau ymyrraeth gan y llywodraeth i amddiffyn swyddi, busnesau a sefydliadau, sy'n ddigynsail i lawer yn ein hoes. Mae hyn wedi cynnwys cefnogaeth Llywodraeth Cymru i sefydliadau diwylliannol, megis lleoliadau cerddoriaeth fyw, a gweithwyr – yn bennaf, ond nid yn gyfan gwbl, wedi'i ddarparu gan arian ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU.

**179.** Ar 1 Ebrill 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £18 miliwn i gefnogi diwylliant, y diwydiannau creadigol a chwaraeon. Mae hwn yn gyfuniad o arian

Llywodraeth Cymru, ac arian o ffynonellau eraill, megis y Loteri Genedlaethol. Nid oedd yn cynnwys cyllid newydd gan Lywodraeth Cymru, ond yn hytrach ailgyflwyno arian a ddyrannwyd eisoes yn y gyllideb i'r sectorau hyn.

**180.** Lansiodd Cymru Greadigol, sef is-adran diwydiannau creadigol newydd Llywodraeth Cymru, gronfa o £1 miliwn i ymateb i argyfwng y coronafeirws. Roedd hyn yn cynnwys y Gronfa Gymorth ar gyfer Cerddoriaeth Llawr Gwlad gwerth £400,000 i gefnogi pobl, ar wahân i gerddorion, sy'n gweithio yn y diwydiant cerddoriaeth, gyda chyllid o hyd at £25,000 y busnes.

**181.** Dosbarthodd Cyngor y Celfyddydau £7 miliwn o Gronfa Gwytnwch y Celfyddydau (daw £5.1 miliwn ohono gan y Loteri Genedlaethol). Bwriad Cyngor Celfyddydau Cymru oedd dosbarthu £1.5 miliwn i unigolion, a £5.5 miliwn i sefydliadau.

**182.** Ar 30 Gorffennaf cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Gronfa Adferiad Diwylliannol** gwerth £53 miliwn. Roedd hyn ar ôl i Lywodraeth Cymru dderbyn £59 miliwn mewn cyllid canlyniadol o becyn cymorth Llywodraeth y DU ar gyfer diwylliant yn Lloegr. Mae cyllid Cymru yn cael ei ddosbarthu gan Gyngor y Celfyddydau, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

**183.** Rhwng 7 Awst a 9 Medi agorodd Cyngor Celfyddydau Cymru ei gyfran o'r gronfa (£27.5 miliwn) ar gyfer ceisiadau. Roedd y gyfran hon yn cynnwys £25.5 miliwn o refeniw a £2m o gyllid cyfalaf, gyda'r cyfan ar gyfer sefydliadau celfyddydol. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn rheoli arian ar gyfer:

- theatrau, canolfannau celfyddydol a neuaddau cyngerdd;
- orielau;
- sefydliadau sy'n cynhyrchu a gweithgareddau celfyddydol sy'n teithio; a
- sefydliadau sy'n darparu gweithgaredd celfyddydau cyfranogol.

**184.** Mae **Llywodraeth Cymru** yn rheoli gweddill y gronfa (£25.5 miliwn). Mae hyn yn cynnwys £18.5 miliwn ar gyfer y busnesau canlynol:

- lleoliadau cerddoriaeth;
- stiwdios recordio ac ymarfer;
- sefydliadau treftadaeth ac atyniadau hanesyddol;
- amgueddfeydd a gwasanaethau archif achrededig;
- llyfrgelloedd;
- digwyddiadau a'u cyflenwyr cymorth technegol;
- sinemâu annibynnol; a'r

- sector cyhoeddi.

**185.** Roedd sefydliadau yn gallu gwneud cais rhwng 14 Medi a 2 Hydref.

**186.** Mae cronfa arall o £7 miliwn ar gael i gefnogi gweithwyr llawrydd, sy'n cael ei dosbarthu gan awdurdodau lleol. Aeth cam un o'r cyllid hwn yn fyw ar 5 Hydref 2020. Fe'i dosbarthwyd ar sail y cyntaf i'r felin, ac mewn rhai ardaloedd (e.e. Caerdydd) roedd y tanysgrifiad yn llawn o fewn awr. Aeth yr ail gam yn fyw ar 19 Hydref.

**187.** Ar 11 Tachwedd **cyhoeddodd** Llywodraeth Cymru gyllid ychwanegol gwerth £10.7 miliwn ar gyfer y Gronfa Adferiad Diwylliannol. Meddai Llywodraeth Cymru:

> "Caiff y cyllid ychwanegol yma ei ddefnyddio ar gyfer cymeradwyo mwy o'r nifer uchel o geisiadau y mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi'u derbyn – gan gefnogi sefydliadau o fewn y sectorau diwylliannol, creadigol, digwyddiadau a threftadaeth."

Bydd £3.5 miliwn o'r cyllid ychwanegol hwn yn ariannu rownd arall o'r cyllid i weithwyr llawrydd, a ddylai roi cymorth i 1,400 ychwanegol o bobl.

## Mae angen map ffordd clir ar y sector ar gyfer ailgychwyn gweithgarwch

**188.** Ers mis Mawrth, mae cerddoriaeth fyw gyda chynulleidfa wedi'i gwahardd yng Nghymru, yn wahanol i Loegr a llawer o wledydd eraill Ewropeaidd. Nid yw canllawiau Llywodraeth Cymru, Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol, yn rhoi unrhyw arwydd o ddyddiadau posibl, nac amgylchiadau, lle gall cerddoriaeth fyw ailgychwyn.

**189.** Galwodd panel o weithredwyr lleoliadau ar i Lywodraeth Cymru ganiatáu i ddigwyddiadau byw sy'n cadw pellter cymdeithasol gael eu cynnal. Cytunodd panelwyr na fyddai gweithgaredd byw â llai o gapasiti yn broffidiol i leoliadau, ond byddai'n golygu manteision eraill i leoliadau, perfformwyr a chynulleidfaoedd. [174]

**190.** Fel y dywedodd Dilwyn Llwyd o Neuadd Ogwen wrth y Pwyllgor, "dydy'r syniad o wneud gigs efo social 'distance-io', dydy o ddim yn syniad o wneud pres; mae'n syniad i wneud colled". Esboniodd:

> "Mae ein venue ni yn dal 400, so roedden ni wedi cyfrif, cyn i'r Llywodraeth newid y rheolau ychydig o wythnosau yn ôl, roedden ni'n gallu cael 32 o bobl i mewn yn saff. A dwi'n meddwl bod hwnna'n nifer

[174] Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 5 Tachwedd 2020

> fach, ond buasai fo'n fan cychwyn, a buasem ni'n gallu adeiladu ar hynny wedyn."[175]

**191.** Dywedodd Sam Dabb, Le Public Space:

> "It's not about whether we can survive financially without the gigs; it's about whether people's mental health can survive without creative outlets for the artists, and being able to access creative arts for the customers, because it's a huge, huge thing."[176]

**192.** Rhybuddiodd Guto Brychan o Glwb Ifor Bach fod risg i ailadeiladu'r sector pe bai Cymru yn parhau i lusgo y tu ôl i wledydd eraill y DU wrth ailgychwyn gweithgarwch:

> "Mae artistiaid eu hunain wedi bod yn dioddef yn fawr dros y cyfnod hyn, so mae'n gyfle i roi rhywfaint o bres yn ôl i'r artistiaid. Ond ffactor arall sy'n werth ystyried ydy ar hyn o bryd, mae'r sector ym Mhrydain, yn enwedig o ran y grass roots, yn dechrau trefnu teithiau eto. Mae lot o'r bandiau buasai yn chwarae yn rhywle fel Clwb neu Le Pub a ballu yn gwneud teithiau socially distanced yn Lloegr, a dŷn ni methu cynnig dyddiadau iddyn nhw yng Nghymru. So, mae yna beryg, os yw'r discrepancy yma'n mynd ymlaen yn rhy hir, dŷn ni'n mynd i golli cysylltiad efo'r sector ehangach, ac mae'n mynd i'w wneud e lot yn anoddach inni ailadeiladu'r sector cryf oedd efo ni'n bodoli ar gyfer cerddoriaeth newydd yng Nghymru unwaith y mae'r cyfle i wneud y digwyddiadau'n dod i ni eto."[177]

**193.** Roedd Gary Lulham o Sin City yn pwysleisio'r buddion ehangach i'r sector o ailgychwyn gweithgarwch:

> "Putting on socially distanced gigs, whilst not necessarily financially beneficial, would allow me to get people back into work. Some of those people who would work on those events are freelancers, who currently aren't on my PAYE system, so haven't had the support, and haven't had the furlough scheme, so it would allow me to get them back into work, and they can start earning again."[178]

---

[175] Pargraff 169, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 5 Tachwedd 2020

[176] CYFEIRNOD

[177] CYFEIRNOD

[178] Pargraff 175, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 5 Tachwedd 2020

**194.** Dywedodd Guto Brychan hefyd fod lleoliadau llawr gwlad mewn sefyllfa well na lleoliadau mwy i ailgychwyn gweithgarwch, ond nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â nhw ar y mater hwn:

> "Dwi'n deall bod yna events taskforce yn trafod yn rheolaidd efo'r Llywodraeth, ond mae'r rheini'n cynrychioli gwyliau mawr a chanolfannau mawr fel Motorpoint. Does neb ar hyn o bryd o'r sector grass-roots ar y taskforce yna yn rhoi safbwynt ein diwydiant ni. I ryw raddau, ni yw'r diwydiant sy'n mynd i fod yn gallu ailagor a rhoi digwyddiadau byw arno gynharaf ac yn gyntaf, gan fod y ffenestr sydd ei angen arnon ni o ddechrau trefnu rhoi digwyddiadau ymlaen yn dipyn byrrach na llefydd fel Motorpoint neu wyliau mawr sydd angen chwech mis i 12 mis i roi rhaglen mewn lle."[179]

**195.** Mae Undeb y Cerddorion wedi galw ar y llywodraeth i gyflwyno cynllun paru sedd, a fyddai'n mynd â refeniw posib lleoliadau i 60 y cant fel ffordd o ailgychwyn gweithgarwch tra bod mesurau cadw pellter cymdeithasol yn parhau.[180]

**196.** Mae adroddiad yr Athro Carr yn galw ar i "Lywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth ailagor tymor byr manwl a chlir ar gyfer diwydiannau cerdd yng Nghymru, sy'n amlinellu'r hyn sy'n bosibl nawr"; Mae hefyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ariannu gweithgarwch digidol, gan nodi y dylai Llywodraeth Cymru:

> "Fel rhan o strategaeth ddigidol [...] archwilio menter 'diwylliant gartref' ar-lein (gan gynnwys gwaith byw a gwaith wedi'i recordio), sydd nid yn unig yn arddangos cerddoriaeth Cymru ochr yn ochr â chelf a diwylliant arall, ond sydd hefyd yn annog ac yn cyllido capasiti digidol a chreadigrwydd."[181]

**197.** Mae'n nodi:

> "Mae cenhedloedd fel yr Ariannin, Gwlad Belg a Chile wedi ariannu mentrau 'diwylliant gartref', sy'n cyllido artistiaid i gynhyrchu cynnwys

[179] Pargraff 222, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 5 Tachwedd 2020

[180] https://musiciansunion.org.uk/Home/News/2020/Sep/Coronavirus-Presses-Mute-Button-on-Music-Industry

[181] http://livemusicexchange.org/wp-content/uploads/Paul-Carr-Culture-Welsh-Language-and-CC-Report.pdf

ac yn darparu porth digidol a ddiweddarir yn rheolaidd i'r cyhoedd ei gyrchu."[182]

**198.** Roedd Andy Warnock o Undeb y Cerddorion yn cymharu'r sefyllfa ym maes lletygarwch – sydd wedi gallu ailagor, gyda chamau lliniaru amrywiol ar waith – â'r sefyllfa gyda pherfformiadau byw, sydd wedi wynebu gwaharddiad cyffredinol:

> "I'd like to see more conversations about what things could be put in place as mitigations, while allowing some reopening [...]. I think that the cinemas/theatres things is maybe a thing that a lot of us are thinking about, also hospitality—could a theatre open its cafe or restaurant space and have performances with people seated? There have been venues that, before, were looking at having people seated, just with a DJ. At the moment that's still not permitted."[183]

**199.** Tynnodd Neal Thompson o FOCUS Cymru sylw at y ffaith bod gan ddigwyddiadau mawr, fel ei ŵyl ef, amser arwain sefydliadol hir. Mae hyn yn golygu bod angen arweiniad clir arnynt ar y tebygolrwydd o beth sy'n bosibl o dan gyfyngiadau coronafeirws dipyn o amser cyn y dyddiad a gynlluniwyd.

## Mae'r rhesymeg y tu ôl i'r cyrffyw 10pm yn aneglur a gall fod yn wrthgynhyrchiol

**200.** Ers 24 Medi rhaid i bob adeilad trwyddedig roi'r gorau i weini alcohol am 10pm, a rhaid iddo gau erbyn 10.20pm. Daeth y penderfyniad hwn gan Lywodraeth Cymru yn dilyn cyhoeddiad tebyg gan Lywodraeth y DU o ran Lloegr. Arhosodd y cyrffyw yn ei le yn y rheolau lletygarwch newydd yn dilyn y cyfnod atal byr ym mis Hydref.

**201.** Oherwydd y cyfyngiadau cyfredol ar gerddoriaeth fyw, tafarndai, mewn gwirionedd, yw lleoliadau cerddoriaeth fyw sydd ar agor. Er enghraifft, **ailagorwyd Clwb Ifor Bach yng Nghaerdydd ym mis Awst** fel bar ar agor tan 2am. Yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru am y cyrffyw 10pm fe gaeodd eto, **gan ddweud**:

> "Er ein bod yn hyderus bod y mesurau sydd gennym mewn lle yn sicrhau awyrgylch diogel a chroesawgar, mae'r costau sydd ynghlwm â'r staff ychwanegol sydd ei hangen i gydymffurfio gyda'r canllawiau

[182] http://livemusicexchange.org/wp-content/uploads/Paul-Carr-Culture-Welsh-Language-and-CC-Report.pdf

[183] Pargraff 89, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 19 Tachwedd 2020

> cyfredol, yn ogystal â'r cyfyngiadau newydd ar oriau agor, yn ei wneud yn ariannol anhyfyw i ni barhau i fasnachu."

**202.** Gwnaeth Le Pub yng Nghasnewydd hefyd **feirniadu'r** penderfyniad, gan ddweud y bydd y cyrffyw yn arwain at gau miloedd o fusnesau ffyniannus hyfyw. Mae hefyd yn awgrymu na fydd cymdeithasu gydag alcohol yn dod i ben am 10pm, ond yn hytrach y bydd yn symud i adeilad heb ei reoleiddio.

**203.** Ymhelaethodd perchnogion lleoliadau ar effaith y cyrffyw pan roddon nhw dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 5 Tachwedd. Esboniodd Guto Brychan o Glwb Ifor Bach sut yr oedd agor ei leoliad fel tafarn oherwydd y cyrffyw yn amhroffidiol:

> "Mi wnaethon ni i lwyddo ailagor am ryw bedwar neu bum penwythnos ar ddiwedd mis Awst, dechrau mis Medi pan oedd hi'n bosib ailagor fel tafarn, ond yn anffodus, unwaith ddaeth y cyrffyw 10 o'r gloch i mewn, roedd yn ariannol anhyfyw i ni gario ymlaen, gyda 70 y cant o'n hincwm yn dod mewn ar ôl 10 o'r gloch, felly fe wnaethon ni benderfynu cau unwaith eto."[184]

**204.** Esboniodd Sam Dabb o Le Public Space ei bod hi'n teimlo bod y cyrffyw yn wrthgynhyrchiol:

> "People are going to be drinking until 1 or 2 o'clock in the morning—that's the nature of human beings, it's going to happen. If they're doing it in venues that are tracking and tracing and insisting they sanitise and insisting they distance, then I think they're much safer. We're not going to stop people partying, but the more control we have over the environment they do it in, the safer we can keep them."[185]

**205.** Esboniodd Spike Griffiths, sy'n rhedeg Prosiect Forté, ei fod teimlo bod y cyrffyw yn aneffeithiol ac yn cael effaith anghymesur ar leoliadau cerddoriaeth fyw:

> "Reducing late-night behaviours was obviously probably at the core of the decision, but it's not really going to stop the transmission right now. It's probably driven people more into their homes for late-night drinks, and that's where the transmission's probably at its most rife.

[184] Paragraff 145, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 5 Tachwedd 2020

[185] Paragraff 183, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 5 Tachwedd 2020

> So, the other thing, really, is also about the venues themselves. They don't start going until 8 p.m. or 9 p.m., and that's allowing just one hour for entertainment or for people to enjoy themselves. If you think about someone working an average day, finishing at 5.55 p.m., they're going to have one or two hours going out, so it's not really viable. It might work for pubs, of course, with the 11 o'clock curfew, but venues don't come alive until beyond 10 p.m."[186]

**206.** Ers i'r Pwyllgor gynnal ei sesiynau tystiolaeth yn yr hydref, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cyfyngiadau ychwanegol ar y diwydiant lletygarwch cyn y Nadolig. O 4 Rhagfyr, y bydd yn rhaid i dafarnau, bariau, bwytai a chaffis gau erbyn 6pm ac ni chaniateir iddynt weini alcohol. Ar ôl 6pm, cânt gynnig gwasanaethau cludfwyd yn unig. Bydd hyn yn effeithio ar unrhyw leoliadau cerddoriaeth fyw sydd wedi gallu gweithredu fel tafarndai yn ystod y cyfyngiadau parhaus, ond o ystyried y gostyngiad mewn proffidioldeb a osodir gan y cyrffyw 10pm, mae'r nifer hwn yn debygol o fod yn fach.

**207.** Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod pecyn cymorth gwerth £340m arall ar gael trwy'r Gronfa Gwydnwch Economaidd. Mae hyn yn cynnwys cronfa gwerth £180m wedi'i thargedu at fusnesau lletygarwch a thwristiaeth.

## Mae angen cefnogaeth ar y sector cerddoriaeth fyw ar ôl mis Mawrth 2021, ac mae llawer o bobl wedi colli allan ar gefnogaeth yn llwyr

**208.** Bwriad Cronfa Adferiad Diwylliant Llywodraeth Cymru yw cwmpasu'r cyfnod hyd at fis Mawrth 2021. Mae'r cynllun ffyrlo hefyd wedi'i ymestyn hyd at 31 Mawrth 2021. Mae'n amlwg, ar y pwynt hwn, y bydd y sector cerddoriaeth fyw yn dal i weithredu o dan gyfyngiadau sylweddol sy'n ei atal rhag bod yn hunangynhaliol yn ariannol. Rydym yn optimistaidd y bydd cyflwyno'r brechlyn wedi hen ddechrau erbyn y pwynt hwn, ond mae'n annhebygol y bydd digon wedi'i gael er mwyn i'r sector ailagor heb fesurau cadw pellter cymdeithasol.

**209.** Croesawodd Andy Warnock o Undeb y Cerddorion estyn y cynllun ffyrlo tan fis Mawrth 2021, ond nododd fod cynlluniau cymorth cyflogaeth Llywodraeth y DU yn dal i gynnwys bylchau mawr a oedd yn atal pobl yn y sector cerddoriaeth fyw rhag derbyn cefnogaeth:

> "Furlough's been extended until March, and that's great, but there are still really significant gaps […] and Welsh Government can't fix those. I

[186] Paragraffau 82-83, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 19 Tachwedd 2020

> hope it's still lobbying for them to be fixed. That is going to have a really ongoing effect still.
>
> The self-employment support scheme is not now anywhere near as generous even as it was from January, I think. And we've got so many members—I think it's about a third—who are missing from that entirely. And so, there are some members in Wales who have only had their £2,500 freelance fund grant, and even as we look towards reopening, because of all the problems that we've discussed, that is still for us a really significant problem and a key focus."[187]

**210.** Nododd y Pwyllgor hwn y bylchau mewn cymorth cyflogaeth yn ei adroddiadau blaenorol i effaith y pandemig ar y diwydiannau celfyddydau a chreadigol. Mae UK Music wedi amcangyfrif bod 72 y cant o bobl yn sector cerddoriaeth y DU yn hunangyflogedig.[188]

**211.** Dywedodd Andy Warnock o Undeb y Cerddorion wrth y Pwyllgor na allai 38 y cant o'i aelodau gael mynediad i'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth. Esboniodd:

> "Lots of the criteria cause problems, to do with if you've recently become self-employed, you're excluded; if your profits are over a certain amount, you're excluded, instead of having a cap on what you can receive, like the furlough scheme. I think you have to do 50 per cent or more of your work as self-employed to qualify for the scheme. Well, if you have a portfolio career, that percentage might often vary year to year. There are some people who are on the wrong side of that. [...]
>
> If you've taken maternity leave, taken a career break to look after children, you're probably not going to qualify; the list goes on and on. I think one of the problems is that it's based on a quite old-fashioned, simplistic view of work, I would say, where you're either self-employed or you're employed."[189]

**212.** Roedd tystion yn canmol gwaith Cymru Greadigol, a gafodd ei lansio fisoedd yn unig cyn i'r pandemig ddechrau. Roedd sylwadau John Rostron yn efelychu'r

[187] Paragraff 135, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 19 Tachwedd 2020

[188] UK Music, UK Music demands more help for self-employed hit by coronavirus crisis, 20 Mawrth 2020

[189] Paragraffau 56-57, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Tachwedd 2019

hyn a glywodd y Pwyllgor, gan ganmol natur brydlon a chydweithredol cefnogaeth Cymru Greadigol i gerddoriaeth fyw:

> "Hats off to them. They were out of the door, they were a new team, they came out fast. [...] we were really aware of how quick they were to go and try and support those venues at a point that was the best in the UK. Wales was top of the list."[190]

**213.** Dywedodd yr Athro Carr wrth y Pwyllgor fod Cymru Greadigol yn helpu i chwalu'r rhwystrau rhwng cerddoriaeth fyw a'r sector cyhoeddus:

> "A lot of people really appreciate the work that is going on in Creative Wales in making some of these relationships—breaking down these relationships between local authorities and the music industry, and, of course, Welsh Government itself and the music industry."[191]

## Mae'r pandemig wedi rhoi cyfle i gynnal a datblygu cysylltiadau rhwng cerddoriaeth fyw a'r wladwriaeth

**214.** Thema gyffredin ymhlith tystion oedd na ddylai bywyd ôl-bandemig ddychwelyd i fywyd cyn-bandemig. Roedd John Rostron yn cymeradwyo'r cysyniad hwn, a datblygiad "contract diwylliannol" Llywodraeth Cymru a Chyngor y Celfyddydau:

> "I think that's marvellous. Instead of us talking about a return back to normal, we're talking about, 'Where can we go to this new normal?' And I love the attachment of a cultural contract and the ambition of what a future Wales might look like."[192]

**215.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud y bydd y rhai sy'n cael arian o'r Gronfa Adferiad Diwylliannol yn cael eu hannog i arwyddo contract diwylliannol, a:

> Bydd y contract diwylliannol yn ychwanegu at gontract economaidd presennol Llywodraeth Cymru am waith a thâl teg a chynaliadwyedd, gan fynd i'r afael â meysydd fel y canlynol:
>
> - Amrywiaeth ar fyrddau

[190] Paragraff 101, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 19 Tachwedd 2020
[191] Paragraff 202, Cyfarfod Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 19 Tachwedd 2020
[192] Paragraff 116, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 19 Tachwedd 2020

- Staff sydd wedi'u cadw i gefnogi mentrau ehangach
- Presgripsiynu cymdeithasol
- Mentrau iechyd a chelfyddydol
- Cynaliadwyedd amgylcheddol

**216.** Dywedodd Sam Dabb o Le Public Space fod meddwl y tu allan i'r bocs ac ychwanegu ffrydiau incwm, yn ystod y pandemig, wedi bod yn dda iawn:

> "I think Welsh Government should maybe look at working with venues to see what income streams they could add in case another pandemic arises or if we don't get out of this pandemic as quickly as we'd like, because those income streams that are secondary, such as food or rehearsals or something like that, could be vital and the difference between a venue surviving or not surviving."[193]

**217.** Trwy gydol yr argyfwng mae rhanddeiliaid wedi nodi mai'r sefydliadau celfyddydau mwyaf agored i niwed yw'r rhai sy'n dibynnu fwyaf ar incwm masnachol, sy'n gwrthdroi eu sefyllfa arferol. Mae adroddiad yr Athro Carr yn galw ar i "Lywodraeth Cymru ystyried hyfywedd newid o fodel cyllid grant 'economi gymysg', i un sy'n dibynnu llai ar incwm masnachol".[194]

**218.** Mae hefyd yn galw ar i Lywodraeth Cymru "ddatblygu strategaeth adferiad hir dymor hir tair blynedd ar gyfer y diwydiannau cerdd".[195]

### Ein barn ni

Naw mis ers dechrau'r pandemig, **mae angen rhyw fath o arwydd gan Lywodraeth Cymru ynghylch pryd y gallant ailgychwyn gweithgarwch, ac nid yw gwaharddiad cyffredinol ar ddigwyddiadau byw yn briodol mwyach**. Mae'r Pwyllgor yn cydymdeimlo â'r her sydd gan Lywodraeth Cymru wrth reoli'r feirws wrth alluogi cymaint o fywyd normal â phosibl i barhau. Ond mae'n gynyddol anodd cyfiawnhau pam, er enghraifft, y gall tafarndai a sinemâu agor, ond na all

[193] Paragraff 266, Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd, 5 Tachwedd 2020

[194] http://livemusicexchange.org/wp-content/uploads/Paul-Carr-Culture-Welsh-Language-and-CC-Report.pdf

[195] http://livemusicexchange.org/wp-content/uploads/Paul-Carr-Culture-Welsh-Language-and-CC-Report.pdf

perfformiadau cerddoriaeth fyw wneud hynny, yn amodol ar yr un mesurau cadw pellter cymdeithasol â'r lleoliadau eraill hyn.

Clywsom nad buddion economaidd yn unig sydd yn sgil ailgychwyn gweithgarwch, er y byddai unrhyw weithgaredd o fudd i weithwyr llawrydd sydd wedi bod allan o waith ers mis Mawrth 2020. Ni all lleoliadau llawr gwlad ddychwelyd i broffidioldeb gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith. Ond dywedodd perchnogion lleoliadau wrthym eu bod am gynnal perfformiadau er lles diwylliannol ac iechyd meddwl y byddai hyn yn eu cynnig i weithredwyr lleoliadau, perfformwyr a chynulleidfaoedd fel ei gilydd.

Mae angen ailgychwyn rhywfaint o weithgarwch hefyd ar gyfer cynaliadwyedd tymor hir y sector. Po hiraf y caniateir gweithgarwch mewn gwledydd eraill, ond nid Cymru, y mwyaf fydd artistiaid yn dod i arfer ag archebu teithiau sy'n hepgor Cymru. A pho hiraf y bydd y sector yn mynd heb weithio, anoddaf fydd hi i fynd yn ôl i'r cyflymder llawn unwaith y bydd y pandemig drosodd.

**Nid yw digwyddiadau digidol yn ateb i'r diffyg gweithgarwch byw, ond gallant roi rhywfaint o gefnogaeth i artistiaid a chynulleidfaoedd** sydd wedi bod heb gerddoriaeth fyw ers mis Mawrth 2020. Dylai Llywodraeth Cymru edrych i weld a oes angen cefnogaeth ar y diwydiant i greu mwy o weithgarwch digidol, ac i gynnig canolbwynt canolog o gynnwys diwylliannol digidol Cymru.

**Mae angen eglurder ar drefnwyr digwyddiadau mawr** yn fuan os ydyn nhw am ddigwydd yn 2021. Gyda disgwyl rhagor o fanylion yn fuan ar ddatblygu brechlyn, dylai Llywodraeth Cymru fod mewn sefyllfa i ddarparu'r eglurder hwn yn fuan. Mae rhywfaint o ansicrwydd yn bodoli ym mhob agwedd ar y pandemig, a allai atal trefnwyr, os na allant sicrhau yswiriant i dalu am ganslo annisgwyl. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant yswiriant a Llywodraeth y DU i sicrhau bod yswiriant addas ar gael.

**Mae buddion iechyd y cyhoedd o gael cyrffyw am 10pm yn aneglur**. Mae'r ddadl a glywsom gan leoliadau, bod symud cymdeithasu o leoliadau wedi'u rheoleiddio i fannau heb eu rheoleiddio, sef cartrefi pobl, yn hytrach na lleihau cymdeithasu, yn gymhellol, ac mae'n haeddu dadansoddiad pellach gan Lywodraeth Cymru. Yr hyn sy'n amlwg yw ei fod yn tanseilio proffidioldeb yr ychydig leoliadau cerddoriaeth fyw sydd wedi gallu ailagor, ac effeithiau anghymesur ar bobl iau. Ers i ni gasglu tystiolaeth mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwaharddiad cyrffyw ac alcohol am 6pm. Pan fydd Llywodraeth Cymru yn llacio'r cyfyngiadau lletygarwch presennol, dylai naill ai peidio ag ailgyflwyno'r cyrffyw 10pm, neu ddarparu tystiolaeth fod hynny'n effeithiol wrth leihau trosglwyddiad y feirws.

**Mae darganfod brechlynnau diogel ac effeithiol yn newid trywydd y cymorth i'r sector cerddoriaeth fyw, ac yn gwneud yr achos dros gefnogaeth barhaus yn fwy cymhellol**. Heb frechlyn, gallai llywodraethau fod wedi cwestiynu yn rhesymol pa mor hir y gallent fod wedi cefnogi sector nad oedd yn gallu gweithredu'n ddiogel ar raddfa i fod yn ariannol hyfyw. Gyda brechlyn, yr achos dros gynnal cyllid ar gyfer lleoliadau ac unigolion yw sicrhau nad yw'r gefnogaeth a ddarparwyd i'r sector hyd yn hyn yn cael ei gwastraffu.

**Mae angen i Lywodraeth Cymru, cyn gynted â phosibl, nodi pa gyllid fydd ar gael i'r sector cerddoriaeth fyw ar ôl mis Mawrth 2021**. Rydym yn gwerthfawrogi bod y cyllid hwn yn dibynnu ar yr arian sydd ar gael gan Lywodraeth y DU. Mae angen i Lywodraeth y DU egluro pa gyllid fydd ar gael i'r gwledydd datganoledig i gydnabod diffyg proffidioldeb parhaus gweithgarwch diwylliannol.

**Mae angen i Lywodraeth y DU naill ai ymestyn ei ffurfiau presennol ar gymorth cyflogaeth ar ôl mis Mawrth 2021, neu ddarparu eglurder ynghylch cynlluniau olynol**. Mae carfan sylweddol o weithwyr llawrydd o hyd nad ydynt wedi derbyn unrhyw gymorth cyflogaeth, neu sydd ond wedi derbyn cyllid llawrydd Llywodraeth Cymru. Mae angen i Lywodraeth y DU ddarparu cefnogaeth i'r sector hwn ar frys. Croesewir yn fawr y cyllid gan Lywodraeth Cymru i weithwyr llawrydd, ond mae'n gosod plastr ar broblem sydd angen datrys pŵer nerthol ariannol Llywodraeth y DU.

Mae'r pandemig wedi arwain at gysylltiadau digynsail rhwng y wladwriaeth a'r diwydiant cerddoriaeth fyw. Mae hefyd wedi tynnu sylw at fregusrwydd gweithgarwch diwylliannol sy'n dibynnu'n llwyr ar lwyddiant masnachol am ei fodolaeth. Roedd Llywodraeth Cymru, trwy Cymru Greadigol, eisoes wedi dechrau cryfhau cysylltiadau â'r sector cyn y pandemig. Mae angen i hyn barhau wrth inni edrych tuag at adferiad: Llywodraeth Cymru yn helpu'r sector i dyfu, yn gyfnewid am y sector – trwy'r contract diwylliannol – yn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

**Mae angen i Lywodraeth Cymru a'r diwydiant ddylunio strategaeth gerddoriaeth ar y cyd (gan ddefnyddio arbenigedd Cyngor y Celfyddydau ac addysg uwch) gan geisio ailadeiladu a thyfu'r sector, gan adeiladu ar y cysylltiadau cryfach rhwng y ddau sy'n deillio o'r pandemig.** Dylai'r strategaeth hon ystyried sut y gall is-sectorau sy'n agored i fusnes wneud y mwyaf o'u hincwm, a sut y gall Llywodraeth Cymru gefnogi rhannau strategol bwysig y diwydiannau sydd ar gau am resymau iechyd y cyhoedd i wella a ffynnu.

**Argymhelliad 23.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu map ffordd clir ar gyfer ailgychwyn gweithgarwch byw. Dylai edrych yn greadgiol ar opsiynau fel gigs

sy'n cadw pellter cymdeithasol ac awyr agored, a fyddai, er nad yn fuddiol yn economaidd efallai, yn cynnig gweithgaredd diwylliannol sydd mawr ei angen. Dylai'r cynllun hwn gynnwys digwyddiadau diwylliannol eraill, megis theatr a dawns, yn ogystal â cherddoriaeth fyw.

**Argymhelliad 24.** Dylai Llywodraeth Cymru edrych i weld a oes angen cefnogaeth ar y diwydiant i greu mwy o weithgarwch digidol, ac i gynnig canolbwynt canolog o gynnwys diwylliannol digidol Cymru.

**Argymhelliad 25.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r diwydiant yswiriant a Llywodraeth y DU i sicrhau bod yswiriant addas ar gael i alluogi trefnwyr digwyddiadau mawr i reoli'r risgiau o drefnu digwyddiadau yn 2021.

**Argymhelliad 26.** Pan fydd Llywodraeth Cymru yn llacio'r cyfyngiadau lletygarwch presennol, dylai naill ai peidio ag ailgyflwyno'r cyrffyw 10pm, neu ddarparu tystiolaeth fod hynny'n effeithiol wrth leihau trosglwyddiad y feirws.

**Argymhelliad 27.** Lle mae lleoliadau cerddoriaeth fyw wedi colli incwm o ganlyniad i gyfyngiadau lletygarwch cyfredol Llywodraeth Cymru, dylent fod yn gymwys i gael yr arian y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyflwyno i gyd-fynd â'r cyfyngiadau hyn.

**Argymhelliad 28.** Mae angen i Lywodraeth Cymru, cyn gynted â phosibl, nodi pa gyllid fydd ar gael i'r sector cerddoriaeth fyw ar ôl mis Mawrth 2021.

**Argymhelliad 29.** Mae angen i Lywodraeth y DU sicrhau bod cyllid pellach ar gael i'r gweinyddiaethau datganoledig i gefnogi'r sector diwylliant ar ôl mis Mawrth 2021, i gydnabod y diffyg parhaus o weithgarwch diwylliannol.

**Argymhelliad 30.** Mae angen i Lywodraeth y DU naill ai ymestyn ei ffurfiau presennol ar gymorth cyflogaeth ar ôl mis Mawrth 2021, neu ddarparu eglurder ynghylch cynlluniau olynol.

**Argymhelliad 31.** Mae angen i Lywodraeth y DU ddarparu cefnogaeth ar frys i weithwyr llawrydd sydd wedi syrthio trwy fylchau'r Cynllun Cymorth Incwm Hunangyflogaeth.

## Y camau nesaf

**219.** Bydd y Pwyllgor yn ysgrifennu at bob un o'r sefydliadau a grybwyllir yn argymhellion yr adroddiad, gan eu gwneud yn ymwybodol o'n barn. Bydd eu hymatebion yn cael eu cyhoeddi ar dudalen y Pwyllgor ar wefan y Senedd. Byddwn yn argymell y dylai'r Pwyllgor sy'n cwmpasu'r cylch gwaith hwn yn y

Senedd nesaf barhau i ddilyn y materion a nodwyd gennym yn yr adroddiad hwn mewn cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn y dyfodol, yn ogystal ag edrych ar gerddoriaeth wedi'i recordio.

I gael rhagor o wybodaeth am amseriad y digwyddiadau hyn, cysylltwch â SeneddDGCh@senedd.cymru.

# Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor: https://cofnod.cynulliad.cymru/Search/?type=2&meetingtype=445

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 26 Medi 2019 | **Guto Brychan,**<br>Clwb Ifor Bach<br>**Terry Chinn,**<br>Clwb y Bont<br>**Samantha Dabb,**<br>Le Public Space<br>**Gary Lulham,**<br>Sin City Club |
| 2 Hydref 2019 | **Antwn Owen-Hicks,**<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>**Carys Wynne-Morgan,**<br>Cyngor Celfyddydau Cymru<br>**Mark Davyd,**<br>Music Venues Trust<br>**Paul Carr,**<br>Prifysgol De Cymru<br>**Bethan Elfyn,**<br>BBC |
| 16 Hydref 2019 | **Tom Kiehl,**<br>UK Music<br>**Dr Sam Murray,**<br>UK Music<br>**Huw Thomas,**<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>**Ruth Cayford,**<br>Cyngor Dinas Caerdydd<br>**John Day,**<br>Cyngor Dinas Caerdydd<br>**Andy Warnock,**<br>Undeb y Cerddorion |
| 6 Tachwedd 2019 | **Spike Griffiths,**<br>Forté Project<br>**Joss Daye,**<br>Rhwydwaith Hyrwyddwr Ifanc<br>**Ethan Duck**<br>Noddir gan y Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc a Phrosiect Forté |

| | |
|---|---|
| | **Callum Lewis,**<br>Noddir gan y Rhwydwaith Hyrwyddwyr Ifanc a Phrosiect Forté<br>**John Rostron,**<br>Ymgynghorydd |
| 16 Ionawr 2020 | **Dayfdd Roberts,**<br>SAIN (Recordiau) Cyf.<br>**Gwennan Gibbard,**<br>SAIN (Recordiau) Cyf.<br>**Danny Kilbride,**<br>Traddodiadau Cerdd Cymru (Trac)<br>**Bethan Jenkins,**<br>Ysgol Lewis Pengam |
| 22 Ionawr 2020 | **Rhydian Dafydd,**<br>The Joy Formidable<br>**Rhiannon Bryan,**<br>The Joy Formidable<br>**Andrew Hunt,**<br>Buffalo Summer<br>**Rhys Carter,**<br>Valhalla Awaits<br>**Samuel Kirby,**<br>Valhalla Awaits |
| 30 Ionawr 2020 | **Betsan Moses,**<br>Eisteddfod Genedlaethol Cymru<br>**Sioned Edwards,**<br>Eisteddfod Genedlaethol Cymru<br>**Alun Llwyd,**<br>PYST<br>**Neal Thompson,**<br>FOCUS Wales<br>**Branwen Williams,**<br>Blodau Papur a Siddi<br>**Osian Williams,**<br>Candelas<br>**Marged Gwenllian,**<br>Y Cledrau<br>**Dilwyn Llwyd,**<br>Neuadd Ogwen |
| 13 Chwefror 2020 | **Yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon,**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Gerwyn Evans,**<br>Cymru Greadigol |
| **5 Tachwedd 2020** | **Guto Brychan** |

| | |
|---|---|
| | Clwb Ifor Bach<br>**Gary Lulham**<br>Sin City<br>**Samantha Dabb**<br>Le Public Space<br>**Dilwyn Llwyd**<br>Neuadd Ogwen |
| **19 Tachwedd 2020** | **John Rostron**<br>**Neal Thompson**<br>Focus Wales<br>**Andy Warnock**<br>Undeb y Cerddorion<br>**Spike Griffiths**<br>Prosiect Forte<br>**Paul Carr**<br>Prifysgol De Cymru |

# Atodiad B: Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad a gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Cyfeirnod | Sefydliad |
|---|---|
| M01 | Cymdeithas Offerynnau Traddodiadol Cymru (Saesneg yn unig) |
| M02 | Pembrokeshire Intimate Gigs (P.I. Gigs) (Saesneg yn unig) |
| M03 | Ymateb gan unigolyn (heb enw) (Saesneg yn unig) |
| M04 | Sain (Recordiau) Cyf |
| M05 | PYST |
| M06 | Traddodiadau Cerdd Cymru (Trac) |
| M07 | Celfyddydau Pontio |
| M08 | Clwb Ifor Bach |
| M09 | Ymateb gan unigolyn (Neil Scourfield) (Saesneg yn unig) |
| M10 | Ymateb gan unigolyn (heb enw) (Saesneg yn unig) |

| | |
|---|---|
| **M11** | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **M12** | Music Venues Trust |
| **M13** | UK Music |
| **M14** | Undeb y Cerddorion |
| **M15** | Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (Saesneg yn unig) |
| **M16** | Ymateb gan unigolyn (Tom Pinder) (Saesneg yn unig) |
| **M17** | Gŵyl y Dyn Gwyrdd (Saesneg yn unig) |
| **M18** | Mentrau Iaith Cymru |
| **M19** | Uned Gyswllt yr Heddlu, Llywodraeth Cymru (Saesneg yn unig) |
| **M20** | Cyngor Caerdydd |

# Atodiad C: Digwyddiadau i randdeiliaid

Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad rhanddeiliaid ar y 'sector cerddoriaeth fyw fel rhan o ymchwiliad ehangach i'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru' yn Tramshed, Caerdydd ar 4 Gorffennaf 2019 gyda'r canlynol yn bresennol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| **Guto Brychan** | Clwb Ifor Bach |
| **Adam Williams** | Clwb Ifor Bach |
| **Steffan Dafydd** | Clwb Ifor Bach |
| **Dafydd Roberts** | SAIN (RECORDIAU) CYF |
| **Bethan Elfyn** | Y BBC |
| **Samantha Dabb** | Le Pub |
| **Simon Parton** | Cerddor |
| **Harish Jariwala** | EMW TV |
| **Sarah Jones** | FOCUS Wales |
| **Neal Thompson** | FOCUS Wales |
| **Steve Laffy** | Cerddor |
| **Ruth Cayford** | Cyngor Caerdydd |
| **Jonathan Day** | Cyngor Caerdydd |
| **Sam Murray** | UK Music |
| **Liz Hunt** | The Moon |
| **Rob Toogood** | Fuel Rock Club |
| **Angie Evans** | Fuel Rock Club |
| **Danny KilBride** | Datblygiad Gwerin Cymru |
| **Gary Lulham** | Clwb Sin City |
| **Nathan Jones** | Motel Nights UK |
| **Antwn Owen-Hicks** | Cyngor Celfyddydau Cymru |
| **Terry Chinn** | Clwb y Bont |
| **Will Owen** | Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd |
| **Jase Hawker** | Pafiliwn Canolbarth Cymru |
| **Helen Edwards** | Pafiliwn Canolbarth Cymru |
| **Spike Griffiths** | Prosiect Forté |
| **Connor Cupples** | Orchard_Live |
| **Adam Warnock** | Undeb y Cerddorion MU |

Cynhaliodd y Pwyllgor ddigwyddiad rhanddeiliaid ar y 'sector cerddoriaeth fyw fel rhan o ymchwiliad ehangach i'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru' yn Neuadd y Dref, Wrecsam, 28 Tachwedd 2019 gyda'r canlynol yn bresennol:

| Enw | Sefydliad |
|---|---|
| **Nici Beech** | Focus Wales |
| **Tom Bevan** | Theatr Clwyd |
| **Dave Grey** | This Project |
| **Dilwyn Llwyd** | Neuadd Ogwen |
| **Rhys Mwyn** | Cerddor a BBC Radio Cymru |
| **Ywain Myfyr** | Cerddor, Tŷ Siamas a Sesiwn Fawr Dolgellau |
| **Dafydd Roberts** | SAIN (RECORDIAU) CYF |
| **Morgan Thomas** | Tŷ Pawb |
| **Neal Thompson** | FOCUS Wales |
| **Andrew Walton** | Cerddor |
| **Gwenan Gibbard** | Cerddor a Sain |

# Atodiad D: Cyllid Cyngor y Celfyddydau wedi'i ddadansoddi yn ôl ffurf ar gelf

## Beth wnaeth grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru a ariennir gan Lywodraeth Cymru ei gefnogi yn ystod 2018-19?

| | Value of grants | | No of grants |
|---|---|---|---|
| Grants to support: | | | |
| Theatres & arts centres | £7,003,344 | 23.93% | 16 |
| Theatre production & presentation | £6,657,230 | 22.74% | 8 |
| Opera | £4,857,237 | 16.60% | 3 |
| Visual & applied arts | £1,772,984 | 6.06% | 10 |
| Dance | £1,722,231 | 5.88% | 7 |
| Music | £1,433,125 | 4.90% | 7 |
| Arts & young people | £1,152,741 | 3.94% | 4 |
| Community arts | £1,089,221 | 3.72% | 9 |
| Literature | £742,264 | 2.54% | 1 |
| Circus & carnivals | £194,608 | 0.66% | 1 |
| Disability arts | £165,417 | 0.57% | 1 |
| ***Creative Learning through the Arts*** | £1,644,031 | 5.62% | 383 |
| Other grants: | | | |
| Strategic awards | £814,291 | 2.85% | 43 |
| | £29,248,724 | | 493 |

Ffynhonnell: Cyngor Celfyddydau Cymru, **Adroddiad blynyddol a chyfrifon 2018-19**. DS. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer cyllid cymorth grant CCC gan Lywodraeth Cymru, ac mae 92% o'r grantiau hyn yn gyllid refeniw ar gyfer aelodau Portffolio Celfyddydol Cymru.

## Beth wnaeth cyllid refeniw'r loteri a ddosbarthwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru ei gefnogi yn 2018-19?

| Maes y Rhaglen | 18/19 (£000) |
|---|---|
| **Celfyddydau Cyfun / Celfyddydau amlddisgyblaethol** | 567 |
| **Crefft** | 232 |
| **Dawns** | 842 |

| | |
|---|---|
| **Drama** | 1,506 |
| **Cynhyrchu Ffilm** | 119 |
| **Llenyddiaeth** | 348 |
| **Cerddoriaeth** | 1,436 |
| **Cerddoriaeth/Opera** | 368 |
| **Celf Gyhoeddus** | 104 |
| **Adloniant Theatr** | 578 |
| **Y Celfyddydau Gweledol** | 920 |
| **Sgriniadau Sinema a Fideo** | 79 |
| **Llenyddiaeth** | 29 |
| **Celf Gyhoeddus** | 4 |
| **Sgriniadau Sinema a Fideo** | 3 |
| **Cyfanswm** | 7,137 |

Ffynhonnell: gwybodaeth a ddarparwyd i'r Gwasanaeth Ymchwil gan Gyngor Celfyddydau Cymru

DS. Nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys cyllid cyfalaf a gwariant ar Ddysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

Mae "cerddoriaeth" (ac eithrio "cerddoriaeth / opera") yn cynrychioli 20 y cant o gyfanswm cyllid y Loteri a ddosbarthwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2018-19.